RHONDDA CYNON TAF

# Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol ac Adroddiad Hunanwerthuso Blynyddol

## 2023-24



*Mae'r ddogfen yma'n cynnwys gwybodaeth am gynllunio a chynnydd blaenoriaethau'r Cyngor sef amcanion llesiant y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hunanwerthusiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Cynnwys


| *Cynnwys* | *Tud.* |
| --- | --- |
| **Crynodeb Gweithredol** | **3** |
| **ADRAN 1: EIN HADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL**<br>• Sut aethon ni ati i gyflawni ein Blaenoriaethau yn ystod 2023/24 | **4** |
| **Pobl** | 7 |
| **Lleoedd** | 12 |
| **Ffyniant** | 16 |
| **ADRAN 2: EIN HADRODDIAD HUNANWERTHUSO BLYNYDDOL**<br>• Trosolwg | **21** |
| Adran 2a: **Ein fframwaith rheoli cyflawniad**<br>• Sut mae'r cyfan yn cyd-fynd, gyda ffocws ar hunanwerthuso. | **24** |
| Adran 2b: **Diweddariad ar y themâu a ddeilliodd o hunanwerthusiadau blaenorol**<br>• Sut mae'r themau hyn yn cyd-fynd a'n Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30 | **28** |
| Adran 2c: **Ein Hasesiad o'n 'gweithgareddau craidd'** | **34** |
| 1. Cynllunio strategol a dull gweithredu* | 36 |
| 2. Llywodraethu a Chraffu | 38 |
| 3. Cyflawniad Cyllidol a Rheoli Risg* | 41 |
| 4. Adnoddau Dynol/Cynllunio Gweithlu* | 44 |
| 5. Rheoli Asedau* | 46 |
| 6. TGCh a Gwasanaethau Digidol | 48 |
| 7. Caffael a Chomisiynu* | 52 |
| 8. Partneriaethau | 55 |
| 9. Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth gan Gwsmeriaid | 57 |
| 10. Y Gymraeg | 59 |
| 11. Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | 61 |
| 12. Adborth Rheoleiddwyr | 63 |
| 13. Sero-net | 63 |
| 14. Diogelu Corfforaethol | 65 |
| Adran 2d: **Sut rydyn ni'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol** | **69** |
| Adran 2e: **Casgliad Cyffredinol** | **73** |







Cysylltwch â ni
www.rctcbc.gov.uk/DweudEichDweud
www.rctcbc.gov.uk/RhoiGwybod
Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg | You are welcome to communicate with us in Welsh

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu ardal yng Nghymoedd De Cymru sy'n cwmpasu 424 cilomedr sgwâr, yn ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Brifddinas Caerdydd yn y de. Mae’r ystod o wasanaethau a ddarperir yn amrywiol o ran eu natur a'u cymhlethdod – o gynnal mannau gwyrdd, casglu ailgylchu a sbwriel, dosbarthu prydau-ar-glud, addysgu ein pobl ifainc a gofalu am y rhai sydd angen cymorth i aros yn annibynnol. Mae tirwedd y fwrdeistref sirol yr un mor amrywiol. Darperir gwasanaethau yn y gymuned ac o nifer sylweddol o leoliadau, yn amrywio o swyddfeydd, depos ac adeiladau rheng flaen.

Mae’r adroddiad yma'n ymgorffori ein hadroddiad cyflawniad blynyddol ar gyfer 2023/24 ynghyd â chanlyniad ein hunanwerthusiad blynyddol ar gyfer 2023/24.

Wrth adrodd ar ein cyflawniad dros y flwyddyn a chynnal ein hunanwerthusiad blynyddol, rydyn ni wedi bod yn onest ac wedi nodi meysydd i'w gwella. Mae ein proses hunanarfarnu gwasanaeth sefydledig wedi ein helpu ni i ddangos ymrwymiad i adolygu ein trefniadau yn barhaus i ateb y cwestiynau allweddol o ran pa mor dda rydyn ni'n cyflawni, sut rydyn ni'n gwybod hynny a beth sydd angen ei wella.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a gynhaliwyd a'r dystiolaeth sydd ar waith, rydyn ni o'r farn ein bod ni wedi bodloni'r gofynion a osodwyd arnom ni o ran cyflawniad. Rydyn ni'n ystyried ein hunain yn Gyngor sy'n gwella ac rydyn ni'n ymdrechu i wella'n barhaus ar draws meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol. Mae modd i ni ddangos hyn yn y ffordd rydyn ni wedi cyflawni ein hamcanion llesiant a'n hymagwedd at hunanwerthuso.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r dystiolaeth ar waith, mae trefniadau'r Cyngor wedi bod yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y sefydliad, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, cyflawni gwasanaethau yn gyffredinol a deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae nifer fach o feysydd i'w gwella wedi'u nodi er mwyn cryfhau'r prosesau cyfredol ymhellach. Yn unol â hynny, yn seiliedig ar y broses hunanasesu, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Mae ein hunanwerthusiad blynyddol hefyd wedi nodi meysydd i’w gwella, ac mae’r rhain wedi’u cynnwys o dan adrannau perthnasol yr adroddiad yma. Bydd y meysydd yma'n cael eu monitro drwy gydol 2024/25 yn rhan o'n trefniadau rheoli cyflawniad.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu farn am y ddogfen yma, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at Garfan Cyflawniad y Cyngor cynlluncyflawni@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

ADRAN

1



# Ein Hadroddiad Cyflawniad Blynyddol

Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol ac
Adroddiad Hunanwerthuso Blynyddol 2023-24

# ADRAN 1

## Sut aethon ni ati i gyflawni ein Blaenoriaethau yn ystod 2023/24

Roedd hunanwerthusiad blynyddol 2022/23 yn cynnwys adran a oedd yn disgrifio ein cynnydd o ran cyflawni ein Blaenoriaethau ers cyflwyno ein Cynllun Corfforaethol ym mis Mawrth 2020. Bryd hynny, ein hasesiad o gynnydd ers 2020 oedd…'*Er gwaethaf yr heriau digynsail a brofwyd gan bob un ohonon ni ers i ni gyflwyno ein Cynllun, ac wrth edrych yn ôl ar ein cynnydd ers 2020, gallwn ni ddangos tystiolaeth ein bod ni wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn yr oedden ni wedi bwriadu ei gyflawni*'.

Yn ein hunanwerthusiad ar gyfer 2023/24, roeddem ni'n canolbwyntio ar adolygu unrhyw gamau gweithredu o'r Cynllun Corfforaethol sy'n weddill er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gyfredol ac yn berthnasol a chwblhau'r rhain lle bo modd. Yn dilyn adolygiad, lle nad oedd yn bosibl cwblhau, gwnaethom ni sicrhau eu bod nhw'n rhan o'n Cynllun Corfforaethol newydd.

Adolygwyd ein hamcanion llesiant, sef POBL, LLEOEDD a FFYNIANT, a chytunwyd arnyn nhw ar gyfer 2023/24 (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Ategwyd pob un o'n hamcanion llesiant gan gynlluniau cyflawni manwl a chafodd y rhain eu monitro (drwy adroddiadau chwarterol) a chraffwyd arnyn nhw gan y Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Parhaodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg y Cyngor. I roi cyd-destun, roedd yr adroddiadau cyflawniad chwarterol yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Adran 1:** Cyflwyniad
- **Adran 2:** Monitro Cyllideb Refeniw - nodi'r gwariant ariannol manwl yn erbyn y gyllideb ar draws ein Cyllideb Refeniw gan dynnu sylw at eithriadau.
- **Adran 3:** Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – nodi gwariant ar draws ein Rhaglen Gyfalaf gydag eithriadau wedi'u hamlygu ac adran yn ymdrin â dadansoddiad o ddangosyddion darbodus.
- **Adran 4:** Data Iechyd Sefydliadol – yn cynnwys trosiant staff, absenoldeb salwch, meysydd buddsoddi sefydliadol yn ymwneud ag iechyd a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr Risg Strategol y Cyngor.
- **Adran 5:** Cynnydd wrth gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol; Pobl, Lleoedd a Ffyniant.
- **Adran 6:** Crynodeb o gynnydd ac enghraifft o Gyflawniadau Allweddol sy'n deillio o'r Strategaeth Mynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd.

Cafodd adroddiad diwedd blwyddyn 2023/24 ei drafod gan y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024, ac yna'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2024.

Roedd 2023/24 i ryw raddau yn flwyddyn drosiannol o'r 'hen' Gynllun Corfforaethol i'r Cynllun Corfforaethol 'newydd'. Rhoddodd hyn gyfle i'r Cyngor adolygu sut roedd anghenion a galwadau ein cymunedau wedi newid yn ystod cyfnod Cynllun Corfforaethol 2020/24, a threuliwyd amser yn ystod misoedd gaeaf a gwanwyn 2023/24 yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn ymgysylltu â'n trigolion.

Mae adran ganlynol yr adroddiad yma'n rhoi trosolwg i chi o'r cynnydd a wnaethom ni wrth gyflawni ein blaenoriaethau yn ystod 2023/24. Mae ein blaenoriaethau wedi'u grwpio o dan y penawdau POBL, LLEOEDD A FFYNIANT.

# Pobl



Gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaeth POBL ac mae ein cyflawniadau allweddol, a sut y maen nhw'n berthnasol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, wedi’u hamlinellu isod. Serch hynny, mae ein data’n dangos bod mwy i’w wneud o hyd i alluogi pobl i fyw’n annibynnol yn eu cymunedau gyda’r cymorth a’r gofal cywir ar yr amser cywir, darparu llety modern sy’n diwallu anghenion pobl sydd ddim yn gallu byw gartref mwyach ac amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed, esgeulustod a chamfanteisio. Mae themâu allweddol y flaenoriaeth yma'n gofyn am ymrwymiad hirdymor i gael eu gwireddu'n llawn ac mae gwaith yn y meysydd yma'n rhan o'n Cynllun Corfforaethol newydd o fewn ein Hamcan Llesiant 'Pobl a Chymunedau'.

### Fe ddywedon ni y bydden ni'n:

- **support our residents who are older, vulnerable or who have disabilities, to remain independent Cefnogi ein trigolion sy'n hŷn, agored i niwed, neu sydd ag anableddau, er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol a mwynhau bywyd o ansawdd.**
- **Annog ein holl drigolion i fyw bywydau gweithgar ac iach a chynnal eu llesiant meddyliol.**
- **Gweithio i integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol a darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth.**
- **Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifainc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith.**
-

## Cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio

**Wrth gyflawni ein Blaenoriaeth POBL, fe wnaethom ni gymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio drwy:**

- **Cynnwys** pobl ag anableddau dysgu yn y broses ail-dendro ar gyfer contractau Byw â Chymorth i bobl ag Anabledd Dysgu a datblygu ein Strategaeth Gyfranogiad Gwasanaethau i Blant er mwyn sicrhau cydgynhyrchu a bod llais plant a phobl ifainc yn cael ei glywed wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- **Cydweithio** gyda Heddlu De Cymru i ddarparu llwybr atgyfeirio ymyrraeth gynnar i alluogi pobl sy’n ymddangos yn agored i niwed neu sydd angen cymorth i gael cymorth yn eu cymuned yn gyflym.
- Gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Dydd, sydd wedi'i **gynhyrchu ar y cyd**, a model gweithredu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Ailfodelu'r ddarpariaeth gwasanaeth oriau dydd y Cyngor ar ffurf strwythur Dwyrain a Gorllewin newydd, gan gynnwys grwpiau cymunedol llai i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu **dros y tymor hir** mewn ffordd sy'n cyflawni'r deilliannau unigol gorau posibl i bobl, yn seiliedig ar angen a galw, wrth wneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor.
- Parhau i weithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd er mwyn **integreiddio** gwasanaethau'n well, e.e. gweithredu'r dull model cartref yn gyntaf i ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty.

- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i **atal** anghenion rhag cynyddu neu i alluogi adferiad ac annibyniaeth, e.e. ein Cydlynwyr Cymunedol sy'n galluogi trigolion i gael mynediad at gymorth, o fewn eu cymunedau, cyn gynted â phosibl, ein gwasanaeth ailalluogi yn ein Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn ein Gwasanaethau i Blant.

| **Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaeth 'POBL'** | |
|---|---|
| **Ffyniannus** | • Wedi comisiynu Catalydd Cymunedol i gefnogi pobl a phartneriaid lleol i ddatblygu mentrau bach a all ddarparu dewis go iawn a chynyddu nifer ac ystod y dewisiadau gofal cartref a chymorth sydd ar gael yn y gymuned.<br>• Wedi gweithio mewn partneriaeth â Caru Treorci a Caru Aberdâr i hyrwyddo achlysuron lleol yng nghanol ein trefi i annog pobl i ymweld â chanol ein trefi a siopa'n lleol, e.e. Dydd Sadwrn Siôn Corn yn Llyfrgell Treorci. |
| **Cydnerth** | • Parhau i wneud ein cynyrchiadau theatr yn fwy amgylcheddol gynaliadwy drwy ailddefnyddio cymaint o ddeunyddiau ag y gallwn o gynyrchiadau blaenorol, lleihau faint o eitemau untro rydyn ni'n eu prynu, ac ailgylchu unrhyw beth does dim modd ei ailddefnyddio.<br>• Wedi ennill Gwobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, sy'n cydnabod y gwaith partneriaeth cymunedol rhagorol sy'n cael ei wneud ledled y Fwrdeistref Sirol i hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a lleol. Mae'r wobr yn tynnu sylw at ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol sylweddol megis tlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â deiet, dirywiad ffermydd teuluol, a cholli manwerthwyr bwyd annibynnol. |
| **Iachach** | • Wedi darparu cyfleoedd newydd a gwahanol i bobl o bob oed i ddechrau gwneud ymarfer corff a chadw'n heini mewn cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor a gweithgareddau cymunedol. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno nofio dŵr oer yn Lido Ponty. Mae ymweliadau â'n canolfannau hamdden a chwaraeon, lle mae pobl yn gwneud gweithgareddau corfforol, wedi parhau i wella ers y pandemig. Gwnaed 1,519,304 o archebion yn ein cyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do o gymharu â 1,432,584 y llynedd.<br>• Mae nifer yr Aelodau Hamdden am Oes yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Erbyn hyn mae 11,045 o aelodau.<br>• Ni wnaethom gymaint o gynnydd ag yr oeddem yn bwriadu ar gryfhau'r modd rydyn ni'n cynnwys cwsmeriaid drwy ailgyflwyno arolygon cwsmeriaid a gwerthuso'r adborth i lywio newidiadau i wasanaethau a gwelliannau yn ein cyfleusterau hamdden. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn ein Cynllun Corfforaethol newydd.<br>• Bûm yn parhau i fwrw ymlaen â'n Strategaeth Atal - Plant sy'n Derbyn Gofal ac er gwaethaf cynnydd bach yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, rydyn ni wedi gweld gwelliannau cadarnhaol yn y gyfradd mynd i mewn i ofal plant ar gyfer plant o dan 1 oed. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd gennym ni 637 o Blant sy'n Derbyn Gofal o gymharu â 624 yn 2023, 655 yn 2022, a 717 yn 2020.<br>• Mae llai o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ers 2019. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 331 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o gymharu â 407 ym mis Mawrth 2023.<br>• Dywedodd 98% o'r Plant sy'n Derbyn Gofal a ymatebodd i'n harolwg defnyddwyr gwasanaeth blynyddol eu bod nhw'n teimlo'n 'ddiogel lle maent yn byw' a 95% yn teimlo eu bod nhw'n cael 'gofal da'.<br>• Yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru o ddileu elw o ofal plant a'n Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, rydyn ni wedi agor Willowford House, wedi cofrestru Ystrad Fechan yn Gartref Plant, wedi recriwtio a hyfforddi staff ar gyfer |

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaeth 'POBL' |
|---|

y cyfleusterau newydd yma, yn ogystal â phrynu nifer o adeiladau eraill a fydd yn cael eu hadnewyddu a'u cofrestru yn gartrefi plant. Mae % y Plant sy'n Derbyn Gofal mewn gofal preswyl nid er elw wedi cynyddu o 21% ym mis Ebrill 2023 i 28% ym mis Mawrth 2024.

- Rydyn ni hefyd wedi recriwtio rhieni maeth gyda sgiliau penodol i fodloni meysydd angen allweddol a nodwyd. Yn 2023/24, roedd gennym ni 268 o Rieni Maeth yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cymharu â 286 ar 31 Mawrth 2023. Er ein bod ni heb weld y twf angenrheidiol, mae cyfraddau cadw wedi gwella gydag 11 yn llai o golledion o ran capasiti lleoliadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Yn unol â'n Strategaeth Atal - Plant sy'n Derbyn Gofal, mae'r Garfan Magu yn gwbl weithredol ac mae wedi gweithio gyda 78 o deuluoedd yn ystod 2023/24. Mae'r gyfradd mynd i mewn i ofal plant ar gyfer plant o dan 1 oed wedi gostwng o 28% yn 2022/23 i 18% yn 2023/24 sy'n dangos effaith gadarnhaol y cymorth cyn-geni gwell yma.
- Ni wnaethom gymaint o gynnydd ag yr oeddem yn bwriadu o ran cynyddu nifer y plant sy'n gallu aduno gyda'u rhieni ar ôl treulio peth amser yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, o'r 119 o blant a adawodd ofal y Cyngor, dychwelwyd 50 o'r plant adref (42%). Mae hyn yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol pan ddychwelodd 57% adref. Byddwn ni'n parhau i adnewyddu ein polisi sefydlogrwydd yn 2024 a bydd hyn yn cael ei fonitro trwy ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30.
- Roedd 95% o oedolion yn hapus â'r gofal a'r cymorth y maen nhw wedi'u derbyn. Roedd 87% o oedolion wedi cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch sut y darparwyd eu gofal a'u cymorth a chytunodd 95% eu bod nhw'n byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant.
- Wedi darparu cymorth ailalluogi a thechnoleg gynorthwyol i sicrhau bod ein pobl hŷn, pobl agored i niwed a'r rhai sydd ag anabledd yn gallu aros yn annibynnol yn eu cymunedau. Cwblhawyd 1,179 o becynnau ailalluogi rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth 2024. O'r pecynnau hyn, roedd 1,160 wedi lleihau, cynnal neu liniaru'r angen am gymorth (98%).
- Ni wnaethom gymaint o gynnydd ag y bwriadwyd ar ein prosiect cydweithredol gyda Chynghorau Caerdydd a Merthyr Tudful i drefnu Canolfan Ymateb i Larymau (ARC) digidol a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd i ehangu'r dechnoleg gynorthwyol rydyn ni'n yn ei chynnig ar hyn o bryd sy'n diwallu anghenion trigolion. Yn anffodus, does dim modd dyfarnu'r tendr cychwynnol oherwydd bod y gost yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Mae opsiynau yn cael eu harchwilio o ran y camau nesaf.
- Wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi'r model cartref yn gyntaf ar waith er mwyn rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty. Mae data a ddarparwyd gan yr adran Iechyd yn 2023/24 yn dangos:
  - bod nifer y bobl sy'n wynebu oedi oherwydd eu bod nhw'n cael asesiad gofal cymdeithasol yn gymharol isel yn RhCT (207 achos o oedi oherwydd eu bod nhw'n aros am asesiad gofal cymdeithasol allan o gyfanswm o 1867 achos o oedi).
  - bod nifer y bobl sy'n wynebu oedi oherwydd eu bod nhw'n aros i gael dyrannu gweithiwr cymdeithasol hefyd yn isel (34 achos o oedi allan o gyfanswm o 1867 achos o oedi)
  - nifer y bobl sy'n wynebu oedi oherwydd eu bod nhw'n aros am becyn gofal cartref yn 170 achos o oedi allan o gyfanswm o 1867 achos o oedi
  - nifer y bobl sy'n wynebu oedi oherwydd eu bod nhw'n aros am argaeledd cartref gofal (218 achos o oedi allan o gyfanswm o 1867 achos o oedi).

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaeth 'POBL' | |
|---|---|
| | • Er ein bod ni ddim wedi gwneud y cynnydd y byddwn ni wedi gobeithio cael, rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau gofal iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol i gytuno ar strwythur llywodraethu a chynllun gweithlu newydd a bwriad comisiynu wedi'i gostio'n llawn i gyflwyno'r model Gwasanaethau Cymunedol Integredig newydd. Mae'r gwaith yma wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac mae cyfarwyddwr rhanbarthol bellach wedi'i benodi i reoli gweithrediad y model rhanbarthol newydd o fis Ebrill 2024.<br>• Roedden ni'n bwriadu cynnal adolygiad o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol presennol gyda'n cydweithwyr Iechyd a datblygu opsiynau i ailgynllunio ein gwasanaeth ar y cyd i ddiwallu pwysau galw hirdymor presennol ac yn y dyfodol. Nid yw'r gwaith yma wedi'i gwblhau ac mae rhaglen waith ac amserlenni newydd wedi'u cytuno gyda'r gwasanaeth Iechyd ar gyfer 2024/25. |
| Mwy Cyfartal | • Parhau i ddatblygu ein cynigion tai fel bod modd i breswylwyr fwynhau manteision byw'n annibynnol, e.e. cyfleusterau gofal ychwanegol a chynlluniau tai â chymorth.<br>• Gweithredu ein cynnig gwasanaeth oriau dydd newydd ar y cyd i bobl ag anableddau dysgu i wella mynediad at wasanaethau yn y gymuned a chyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth.<br>• Dathlu 30 mlynedd ers dechrau Vision Products, sy'n fusnes cyflogaeth gefnogol sydd wedi'i leoli ym Mhont-y-clun sy'n cynnig cymorth, hyfforddiant a chyflogaeth ystyrlon i bobl leol ag anableddau i gynnig ystod eang o nwyddau a gwasanaethau i gwsmeriaid. Roedd y digwyddiadau dathlu hefyd yn cynnwys carfan bresennol Vision Products sydd wedi cymryd rhan mewn prosiect paentio murlun i greu Coeden Amrywiaeth gyda chymorth artist lleol. Mae'r prosiect yn rhan o waith ailwampio'r ffreutur ar y safle.<br>• Cwblhawyd 483 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) mewn 158,993 diwrnod. Yn seiliedig ar arolygon boddhad a lenwyd yn dilyn GCA (C3), cytunodd 95% o'r ymatebwyr eu bod nhw'n teimlo'n fwy hyderus ac annibynnol ar ôl gosod/cwblhau'r addasiad, cytunodd 92% ei bod hi bellach yn haws i'w teulu/cynhalwyr gynorthwyo gyda'u hanghenion dyddiol ar ôl cwblhau'r gwaith ac roedd 97% yn cytuno bod ansawdd eu bywyd wedi gwella ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.<br>• Parhau i weithredu canfyddiadau o'r adolygiad Autside i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i blant, pobl ifainc a theuluoedd niwrowahanol. Mae hyn wedi cynnwys darparu hyfforddiant amgylcheddau synhwyraidd yn ein clybiau ieuenctid a hyfforddiant synhwyraidd ar gyfer ein darparwyr gwasanaethau i deuluoedd. |
| Cymunedau Cydlynus | • Cryfhau cysylltiadau rhwng ein Canolfannau Cymunedol a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fel bod trigolion yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da yn y gymuned fel eu bod nhw ddim angen gwasanaethau cymdeithasol statudol. Ymatebwyd i 1,693 o geisiadau gan drigolion unigol gan Gydlynwyr Cymunedol a allai fel arall fod wedi cael eu trin gan y gwasanaethau statudol.<br>• Cryfhau perthnasoedd gyda thrigolion a grwpiau cymunedol a darganfod beth sy'n bwysig i drigolion trwy ddefnyddio ein 13 Rhwydwaith Cymdogaeth. |

| | |
|---|---|
| **Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | • Darparu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i’n trigolion gyfathrebu â’r Cyngor a’i gilydd yn Gymraeg. O'r 563 o leoedd Dechrau'n Deg a gynigiwyd, mae 90 (18%) wedi dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sy'n gynnydd nodedig.<br>• Darparu amrywiaeth o weithgareddau treftadaeth am ddim ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda i annog trigolion ac ymwelwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau ym meysydd celf a threftadaeth. Mae ymweliadau â’n canolfannau treftadaeth a chanolfannau i ymwelwyr wedi parhau i gynyddu yn dilyn y pandemig. Gwnaed 70,852 o ymweliadau â'n canolfannau treftadaeth a chanolfannau i ymwelwyr eleni o gymharu â 66,678 y llynedd. |
| **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | • Cymryd rhan lawn yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC). |

## Cyflawni trwy weithredu:

- Fe wnaethom ni gomisiynu Catalydd Cymunedol i gefnogi pobl a phartneriaid lleol i ddatblygu mentrau bach a all ddarparu dewis go iawn a chynyddu nifer ac ystod y dewisiadau gofal cartref a chymorth. Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos sut y mae modd i hyn effeithio'n gadarnhaol ar y darparwr a'r gymuned.
- Cytunon ni i drawsnewid Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn i greu cynnig gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol, gan roi mynediad i bobl hŷn at gyfleusterau modern, a sicrhau gwell defnydd o adnoddau'r Cyngor. Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos yr effaith y mae modd i wasanaethau oriau dydd ei chael ar bobl hŷn yn ein cymunedau.
- Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfanswm o 82 o gyfarfodydd Rhwydweithiau Cymdogaeth ac roedd 916 o bobl yn bresennol. Mae'r astudiaethau achos yma'n dangos effaith gadarnhaol ein Rhwydweithiau Cymdogaeth.

Gellir gweld diweddariad manwl o gynnydd yn erbyn ein Blaenoriaeth 'Pobl' yn ein Hadroddiad Cyflawniad Ch4.

# Lleoedd



Gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaeth 'LLEOEDD' a'n cyflawniadau allweddol, a sut maen nhw hefyd yn berthnasol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'u hamlinellu isod. Serch hynny, mae ein data'n dangos bod mwy i'w wneud o hyd i gyrraedd ein targedau ailgylchu cenedlaethol erbyn 2025, ac i gael mwy o bobl i mewn i'n rhaglenni camddefnyddio sylweddau. Unwaith eto bu buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar draws isadeiledd y priffyrdd, gydag amserlenni cyflawni diwygiedig ar gyfer rhai cynlluniau. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi diweddariadau cynnydd yn 2024/25.

Mae rhai themâu allweddol sy'n rhan o'r flaenoriaeth yma yn gofyn am ymrwymiad hirdymor i gael eu gwireddu'n llawn ac mae gwaith yn y meysydd yma'n ffurfio rhan o Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol newydd 'Gwaith a Busnes' a 'Natur a'r Amgylchedd'.

### Fe ddywedon ni y bydden ni'n:

- **Cadw Rhondda Cynon Taf yn lân trwy wasanaethau glanhau'r stryd effeithlon, lleihau'r gwastraff rydyn ni'n ei anfon i'r safle tirlenwi, cyflawni ein targedau ailgylchu trwy gasglu gwastraff ailgylchu bob wythnos a gwastraff cyffredinol yn rheolaidd, a lleihau ein hôl-troed carbon.**
- **Cadw'r Fwrdeistref Sirol yn symud, gan gynnwys cyflawni gwelliannau ar y ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan wella ansawdd yr aer.**
- **Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel.**
- **Buddsoddi a gofalu am ein parciau a mannau gwyrdd**

## Cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio

**Wrth gyflawni ein Blaenoriaeth LLEOEDD, fe wnaethom ni gymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio drwy:**

- Parhau â'n gwaith i gyflawni mwy o **integreiddio** cymunedol **o** wasanaethau cam-drin domestig gyda lansiad y Prosiect Cam-drin Domestig Cymunedol - Cael gwared ar y Stigma sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig.
- **Cydweithio** gyda Heddlu De Cymru ar amrywiol fentrau gan gynnwys gyrru anghyfreithlon ar bob tomen glo, ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gydag ysgolion lleol i annog perchnogaeth cŵn cyfrifol a hyrwyddo negeseuon 'Dim Baw Cŵn' a 'Dim Cŵn ar y Caeau'.
- **Cynnwys** trigolion yn ein proses gwneud penderfyniadau. Mae enghreifftiau yn cynnwys datblygiad y Strategaeth Leol Ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a Chynllun Gweithredu diwygiedig ac ymestyn Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn RhCT (PSPO).
- Parhau i roi hwb i'n hamddiffynfeydd rhag llifogydd drwy gymryd mesurau **tymor hir**, **ataliol** i liniaru perygl llifogydd yn dilyn Storm Dennis ym mis Chwefror 2020.

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein blaenoriaeth LLEOEDD | |
|---|---|
| **Ffyniannus** | • Wedi datblygu cynlluniau priffyrdd a fydd o fudd i gymunedau nawr ac yn y dyfodol gan gynnwys Atgyweiriadau pontydd yn Pont Castle Inn yn Nhrefforest ac atgyweirio Pont Tram Haearn Hanesyddol restredig Gradd II yn Nhrecynon.<br>• Wedi ymgysylltu a datblygu cynlluniau a fydd o fudd i gymunedau nawr ac yn y dyfodol gan gynnwys gosod llwybr cerdded a beicio newydd drwy Gwm Rhondda Fach ac ymgysylltu â thrigolion i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| **Cydnerth** | • Buddsoddwyd mewn Gwrthsefyll Llifogydd trwy ein gwaith perygl llifogydd gan gynnwys gwelliannau yn Aberpennar a darparu gwybodaeth am ein tudalennau gwe Rheoli Perygl Llifogydd newydd.<br>• Yn 2023-24, cymeradwywyd 4.93 hectar o systemau draenio cynaliadwy gwyrdd (SDCau), gan gynnwys 465m$^2$ o doeau gwyrdd/glas, 77 o byllau coed ac 19 o systemau biogadw. Bydd y cynlluniau yma'n helpu i reoli dŵr wyneb i atal llifogydd.<br>• Buddsoddi yn ein mannau gwyrdd gan gynnwys Parc Gwledig Cwm Dâr oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed eleni.<br>• Plannu dros 362 o goed mewn ardaloedd oedd yn brin o goed gan gynnwys Brynna, Llanharan, Beddau, Pentre'r Eglwys, Gilfach Goch, Glyn-coch a Thonyrefail a phlannu 30,175 o blanhigion gwrychoedd ar diroedd ysgolion, parciau a mannau agored.<br>• Symudwyd ymlaen â'r contract i ddylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Fferm Solar ar y Tir yng Nghoed-elái. Mae tendrau ar gyfer y contract yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.<br>• Cwblhau ymchwiliadau tir ar gyfer cynllun hydro Cwm Dâr a symud y broses ddethol ymlaen i benodi ymgynghorydd ar gyfer y cam nesaf.<br>• Cwblhau tyrbin gwynt sengl Amgen 1.5 MW, a ddaeth yn weithredol o 15 Medi 2023, gan gynhyrchu ynni ar unwaith. |
| **Iachach** | • Wedi symud ymlaen â buddsoddiad yn ein parciau a'n hardaloedd chwarae i sicrhau eu bod nhw'n darparu noddfa i drigolion, yn cyfrannu at wella llesiant corfforol a meddyliol, yn rhoi cyfle i ymgysylltu â byd natur, yn annog chwarae a chyfleoedd i ddod ynghyd gan gynnwys adeiladu Canolfan Calon Taf ym Mharc Coffa Ynysangharad.<br>• Wedi darparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen cymorth i roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau trwy ein gwaith gyda Barod a hyrwyddo'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer hyn a cham-drin domestig.<br>• Wedi gweithio mewn partneriaeth ar y 'Prosiect Cam-drin Domestig Cymunedol CBSRhCT – Cael Gwared ar y Stigma sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig' i ehangu a gwella proffil a mynediad at ein gwasanaethau cymorth gyda'r defnydd o gerbyd cam-drin domestig pwrpasol.<br>• Wedi paratoi'r Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2023.<br>• Wedi parhau i geisio ffrydiau cyllid grant a gwneud y mwyaf ohono i gynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd yn eu lle ar feysydd parcio cyhoeddus/safleoedd cyhoeddus, canolfannau cymunedol a hamdden/addysg sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae rhagor o fanylion ar wefan Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a Gwefru Cerbydau Trydan y Cyngor.<br>• Wedi cwblhau safle rhandir newydd Crybin Ddu yn Ynys-y-bwl sy'n cynnwys 14 o leiniau maint llawn, ac wedi symud ymlaen â gwaith adnewyddu pellach ar safleoedd rhandiroedd yng Nghwm Rhondda. |

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein blaenoriaeth LLEOEDD | |
|---|---|
| | • Wedi datblygu cynlluniau teithio llesol a fydd yn gwella iechyd a llesiant gan gynnwys y llwybr cerdded a beicio newydd drwy Gwm Rhondda Fach ac ymgysylltu â thrigolion i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| Mwy Cyfartal | • Wedi cefnogi Diwrnod Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd, y fenter/ymgyrch fyd-eang i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod a merched.<br>• Parhau i amddiffyn ein trigolion agored i niwed rhag troseddau carreg drws a masnachwyr anghyfreithlon a'u cosbi, a diogelu unigolion agored i niwed rhag galwadau ffôn niwsans a sgamiau.<br>• Wedi parhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol a chosbi'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau. |
| Cymunedau Cydlynus | • Cwblhau adeiladu Canolfan Calon Taf ym Mharc Coffa Ynysangharad, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r gymuned leol gan gynnwys cyrsiau hyfforddi a mentrau iechyd a llesiant.<br>• Cefnogi Cadwch Gymru'n Daclus i gynnal sesiynau codi sbwriel mewn ysgolion a chymunedau ledled Rhondda Cynon Taf.<br>• Mwy o Wi-Fi ar gael mewn 13 o Ganolfannau Cymunedol ac yn 2 Ganolfan Fowlio Rhondda Cynon Taf.<br>• Wedi symud ymlaen â Rhaglen Grant Cymorth Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin RhCT 2023/24 i gefnogi grwpiau cymunedol. |
| Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | • Wedi hyrwyddo a chefnogi Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024 a gynhaliwyd yn Rhondda Cynon Taf.<br>• Wedi ymgymryd ag ymgysylltu cymunedol, codi arian a Chynllunio Isadeiledd a Gofodol ar gyfer yr achlysur. |
| Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang | • Rydyn ni wedi datblygu ein cynlluniau i fynd i'r afael a lleihau effaith y Newid yn yr Hinsawdd drwy'r Strategaeth Newid Hinsawdd 'Rhondda Cynon Taf Hinsawdd Ystyriol' (2022-2025) a Strategaeth Datgarboneiddio a Chynllun Gweithredu.<br>• Wedi paratoi trigolion ar gyfer newidiadau yn Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle 2024 trwy ddosbarthu biniau, posteri a bagiau ailgylchu newydd i holl ysgolion ac adeiladau'r Cyngor. Bu cynnydd hefyd mewn galwadau ac ymholiadau gan fusnesau i gynorthwyo gydag ailgylchu mwy o ddeunyddiau, gan gynnwys bwyd.<br>• Dosbarthwyd 3,245 o finiau bwyd, 709 o sachau gwastraff gwyrdd ac mae 2,349 o drigolion wedi cofrestru ar gyfer casgliadau cewynnau.<br>• Rydyn ni wedi ailgylchu 67.23% o'r gwastraff a gasglwyd gennym ni.<br>• Wedi diweddaru Cydymffurfiad y Cyngor gyda Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 a ddaeth yn gyfraith ym mis Medi 2023. |

## ‘Cyflawni trwy weithredu’

Wedi parhau i wahodd ysgolion a grwpiau cymunedol i fynd ar daith ryngweithiol i fyd ailgylchu yng Nghanolfan Addysg Alun Maddox - Bryn Pica.

Mae diweddariad manwl o gynnydd yn erbyn ein Blaenoriaeth LLEOEDD yn ein hadroddiad cyflawniad Ch4.

# Ffyniant



Gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau FFYNIANT ac mae ein cyflawniadau allweddol, a sut maen nhw'n berthnasol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'u hamlinellu isod. Serch hynny, mae ein data'n dangos bod mwy i'w wneud o hyd i adfywio canol ein trefi, diwallu anghenion tai lleol a sicrhau bod pobl ifainc yn cyflawni'r deilliannau addysgol gorau posibl. Mae themâu allweddol o fewn y flaenoriaeth yma'n gofyn am ymrwymiad hirdymor i gael ei wireddu'n llawn ac mae gwaith yn y meysydd yma'n ffurfio rhan o'n Cynllun Corfforaethol newydd o dan ein Hamcanion Llesiant 'Pobl a Chymunedau' a 'Gwaith a Busnes'.

### Fe ddywedon ni y bydden ni'n:

- **buddsoddi yng nghanol ein trefi, gan greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw;**
- **cyflwyno cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw;**
- **sicrhau bod gennym ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych;**
- **cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn darparu mwy o ddewis o ran tai i drigolion;**
- **sicrhau bod yna ddarpariaeth eang o raglenni cyflogaeth a sgiliau ar gael ar gyfer pob oed.**

## Cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio

**Wrth gyflawni ein Blaenoriaeth FFYNIANT, fe wnaethom ni gymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio drwy:**

- **Gynnwys** y gymuned leol ac ystod eang o randdeiliaid yn natblygiad Strategaeth Canol Tref Aberdâr;
- **Cydweithio** gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, datblygwyr preifat a landlordiaid preifat i ddarparu cartrefi sy'n diwallu anghenion tai lleol;
- Cynllunio ar gyfer anghenion addysgol **tymor hir** ein pobl ifainc drwy fuddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd, gwella amgylcheddau dysgu, cael gwared ar leoedd dros ben a gwneud ein hysgolion yn Garbon Sero-Net pryd bynnag y bo modd;
- **Integreiddio** ein gofynion cynllunio gweithlu drwy gefnogi pobl ifainc, yn enwedig y rhai sy'n wynebu heriau penodol, i fanteisio ar gyfleoedd gwaith a hyfforddiant gan gynnwys trwy ein cynlluniau i raddedigion, prentisiaethau a hyfforddeion a gweithio gyda busnesau lleol i ddarparu profiad gwaith i bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal;
- **Atal** digartrefedd trwy gefnogi adeiladu tai fforddiadwy newydd, darpariaeth tai arbenigol, dychwelyd eiddo gwag i gael ei ddefnyddio, gweithio gyda'r sector rhentu preifat a darparu cymorth effeithiol i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaethau FFYNIANT | |
|---|---|
| Ffyniannus | • Cefnogi twf cynaliadwy yn ein cymuned fusnes leol drwy becyn o grantiau a chymorth a fydd yn annog twf mewn swyddi lleol, adfywio safleoedd sydd wedi mynd â'u pen iddyn nhw neu sydd ddim yn cael eu defnyddio'n ddigonol a mesurau lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni.<br>  ➢ Mae'r rhaglenni yma wedi cefnogi 106 o sefydliadau i gyflawni ystod o ddeilliannau, gan gynnwys creu 39 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a chyflwyno 7 mesur lleihau carbon yn eu heiddo.<br>• Datblygu ein harlwy twristiaeth drwy weithio gyda busnesau lleol i gyflawni Strategaeth Twristiaeth RhCT a chefnogi cyfleoedd ar gyfer llety ymwelwyr ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys cynnal proses dendro ar gyfer newid diben Rock Ground o swyddfeydd y Cyngor i westy a sba o safon.<br>• Rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig lleol i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor trwy baratoi cyfeiriadur busnes lleol a diweddaru gwefan y Cyngor gyda chyngor ac arweiniad i fusnesau.<br>• Cyflawni cynllun deuoli'r A4119 - Coed-elái, sydd ar amser ar hyn o bryd.<br>• Parhau i ymgysylltu â chyflenwyr band eang i ddeall eu rhaglen waith yn Rhondda Cynon Taf ac i lywio eu cynlluniau i wella ardaloedd lle mae'r cysylltedd yn wael.<br>• Parhau i hyrwyddo buddsoddiad trwy gwblhau'r cynllun i ddatblygu Unedau Busnes Tresalem. Mae 16 o'r 20 uned eisoes yn cael eu rhentu a'u meddiannu gan amrywiaeth o fusnesau.<br>• Datblygu strategaeth canol tref ar gyfer Aberdâr a drafftio cynigion ar gyfer strategaeth canol tref Tonypandy.<br>• Parhau i gyflawni strategaethau a fframweithiau adfywio Pontypridd, Porth ac Aberpennar, gan gynnwys cwblhau Hwb Trafnidiaeth y Porth a rhoi prosiectau Porth y De ar waith ym Mhontypridd.<br>  ➢ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (Ch1 2024/25) yn dangos bod cyfraddau eiddo gwag yn parhau i fod yn isel ym Mhontypridd (8.25%) a Threorci (4.17%) ond yn uwch ar hyn o bryd yn Aberdâr (17.73%) a'r Porth (17.21%). Rhagwelir y bydd Strategaeth Canol Tref newydd Aberdâr ac agor Hwb Trafnidiaeth y Porth yn cael effaith gadarnhaol yn y dyfodol.<br>  ➢ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2021), yn dangos cyfraddau dechrau busnesau newydd uwch yn Rhondda Cynon Taf (12.5) o gymharu â Chymru (11.6) a'r DU gyfan (11.5), sy'n dangos bod amodau ffafriol ar gyfer datblygu busnesau. Serch hynny, mae cyfraddau busnesau sy'n cau i lawr hefyd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol (14.5 yn RhCT, 11.2 yng Nghymru, 11.8 ledled y DU).<br>• Parhau â'n buddsoddiad yn amgylcheddau dysgu y 21ain ganrif ar gyfer pobl ifainc:<br>  ○ Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref oedd yr ysgol gyntaf yng Nghymru i gael ei hadeiladu o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Agorodd yr adeilad newydd i ddisgyblion ym mis Ebrill 2024. Mae disgwyl i'r gwaith allanol gael ei gwblhau yn ystod tymor yr Hydref, 2024.<br>  ○ Mae'r gwaith o adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg â 240 o leoedd ar gyfer YGG Llyn y Forwyn yn mynd rhagddo, fodd bynnag, mae tywydd garw wedi effeithio ar y gwaith gan arwain at adolygu'r dyddiad cwblhau. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i liniaru'r sefyllfa yma.<br>  ○ Gwnaed cynnydd da ar draws y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, mae adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Afon Wen ac Ysgol Bro Taf ar fin cael eu cwblhau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Mae diweddariadau manwl ar gyfer pob cynllun ar gael ar Wefan y Cyngor.<br>• Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu a chyflwyno rhaglen datblygu tai cymdeithasol ar raddfa fawr, trwy gydgysylltu ag arweinwyr yn y |

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaethau FFYNIANT | |
|---|---|
| | sector tai a dyrannu a monitro Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd 26 o gynlluniau gan y Grant Tai Cymdeithasol yn 2023/24, gyda dyraniad o £26 miliwn. Defnyddiodd 8 cynllun gontractwyr lleol.<br>➢ Darparwyd 89 o gartrefi fforddiadwy yn 2023/24 o gymharu â 168 yn 2022/23.<br>• Parhawyd i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd drwy'r Strategaeth Tai Gwag, gan gynnwys darparu'r cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru.<br>○ Yn dilyn 627 o ymyriadau, daeth 227 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn 2023/24.<br>• Wedi gweithio mewn partneriaeth i ddarparu rhaglenni cymorth cyflogaeth:<br>○ Cafodd 182 o bobl ifainc 16 – 24 oed a 317 o oedolion gymorth i gael gwaith;<br>○ Cafodd 441 o bobl gymorth i ennill cymhwyster galwedigaethol.<br>• Wedi cynnig cynlluniau cyflogaeth a phrentisiaethau ar draws y Cyngor a darparu cymorth penodol i grwpiau gyda rhwystrau i waith.<br>• Wedi cyflogi 49 o brentisiaethau a 10 o raddedigion. Cafodd pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal gymorth trwy 5 hyfforddeiaeth â thâl yn ogystal â mentora a chymorth drwy'r cynllun GofaliWaith. |
| **Cydnerth** | • Parhaodd y gwaith gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i symud ymlaen gyda'r cynllun Cyllid bwlch hyfywedd tai i adfer amodau tir halogedig ar safleoedd tir llwyd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer hen safle ysbyty Aberdâr ac mae'r ymgeisydd wedi dechrau ar y gwaith i ddatblygu'r safle. Serch hynny, nid yw datblygwyr wedi gallu bwrw ymlaen â'r gwaith i adfer safleoedd Cwm Coking a Heol y Wenallt ac rydyn ni'n chwilio am ffyrdd i ailddyrannu'r cyllid.<br>• Gwneud cartrefi presennol yn fwy ynni-effeithlon trwy gyflawni'r strategaeth cynhesrwydd fforddiadwy.<br>➢ Wedi cyflwyno Grant Gwresogi RhCT, gan roi cyfleoedd i drigolion wneud eu cartrefi yn fwy ynni-effeithlon a lleihau biliau ynni. Cwblhawyd 145 o gynlluniau a ariannwyd gan grantiau gwerth cyfanswm o £513 mil.<br>➢ Wedi cyflwyno Grant Paneli Solar Rhondda Cynon Taf, gan ddarparu cyllid i drigolion tuag at baneli solar i wneud eu cartrefi'n fwy ynni-effeithlon a lleihau biliau ynni. Dyfarnwyd 94 o grantiau gwerth cyfanswm o £103 mil. |
| **Iachach** | • Wedi datblygu cyfleoedd i ddatblygu llwybrau teithio llesol i'w gwneud hi'n haws ymweld â chanol trefi. Mae gwaith dylunio ar y gweill ar gyfer cynlluniau yn Aberdâr a Phontypridd.<br>• Wedi darparu datrysiadau i ddiwallu anghenion penodol pobl o ran tai, gan gynnwys:<br>➢ Wedi gweithio gyda landlordiaid preifat i ddatblygu 10 uned ychwanegol o lety yn y Sector Rhentu Preifat ar gyfer unigolion digartref sengl gan gynnwys y rhai sydd â chefndir troseddol;<br>➢ Wedi ailfodelu darpariaeth llety â chymorth Stori i ddarparu llety dros dro mewn argyfwng i fenywod digartref sengl ag anghenion cymorth uchel.<br>• Wedi darparu cymorth effeithiol i'r rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn ein cymunedau.<br>○ Llwyddwyd i atal 272 o bobl (76% o'r rhai a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref) rhag dod yn ddigartref.<br>• Wedi parhau i gefnogi landlordiaid cyfrifol i sicrhau bod gennym ni sector rhentu preifat fforddiadwy o ansawdd da, a chymeradwyo cynllun trwyddedu newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth. |

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaethau FFYNIANT | |
|---|---|
| **Mwy Cyfartal** | • Cefnogi a herio gwaith ysgolion i wella cyflawniad disgyblion a chau'r bwlch cyrhaeddiad. Derbyniodd 6 ysgol gymorth ychwanegol trwy brotocol Tîm o Amgylch yr Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae 2 bellach wedi'u tynnu oddi ar y rhestr oherwydd bod eu canlyniadau wedi gwella.<br>• Wedi gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i wreiddio'r cwricwlwm newydd, gan ganolbwyntio ar wella'r broses o gasglu gwybodaeth am ddatblygu sgiliau yn ein hysgolion.<br>• Wedi rhoi darpariaeth Cam 4 Cyfran 4 ar waith (ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol) - mae ysgolion wedi adrodd ei fod wedi cael effaith gadarnhaol, a darparu hyfforddiant a chymorth i ysgolion i fynd i'r afael ag ymddygiad heriol yn y cyfnod yn dilyn y pandemig.<br>• Wedi cyflwyno blwyddyn 1 Prosiect Iaith y Blynyddoedd Cynnar. Cafwyd effaith gadarnhaol ar gynyddu gallu ar gyfer dulliau cyffredinol ac wedi'u targedu, a chafwyd cynnydd bach yn nifer y plant sy'n cyflawni disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran.<br>• Modelau darparu gwasanaeth ADY diwygiedig i gydbwyso'r angen am gymorth gydag achosion unigol a dulliau ysgol gyfan yn well. Bydd y rhain yn awr yn cael eu gwerthuso o ran eu heffaith.<br>• Cytunwyd i agor ysgol arbennig 3-19 newydd i gynyddu'r capasiti i ddiwallu anghenion yn well a helpu disgyblion i fynychu'r ysgol arbennig agosaf i'r cartref.<br>➢ Cafwyd gwell cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol rhwng blynyddoedd academaidd 2022/23 a 2021/22 yn y cyfnod cynradd ac uwchradd. Serch hynny, erys cryn her yn enwedig yn y cyfnod uwchradd ac ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (*gweler themâu ar gyfer gwelliant 22/23*).<br>➢ Mae data interim yng Nghyfnod Allweddol 4 ym mlwyddyn academaidd 22/23 yn dangos bod bwlch sylweddol o hyd rhwng disgyblion yn Rhondda Cynon Taf sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Mae'r bwlch yma'n adlewyrchu'r darlun ledled Cymru (*gweler themâu ar gyfer gwelliant 22/23)*.<br>➢ Bu cynnydd bychan yn y % o ymadawyr Blwyddyn 11 y gwyddom sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (2.9%). Mae gweithwyr cymorth pontio yn rhoi cymorth i ddisgyblion Blwyddyn 10 sydd mewn perygl o ddod yn bobl sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol gydag ysgrifennu CV, uchelgeisiau, sgiliau bywyd ac ymgysylltu â gwasanaethau perthnasol. |
| **Cymunedau Cydlynus** | • Wedi gweithio gyda'r sector preifat i fynd i'r afael â safleoedd ac eiddo gwag ac wedi dadfeilio yng nghanol ein trefi. Mae prosiectau nodedig wedi'u cwblhau yn yr hen Black Lion yn Aberdâr lle mae arwynebedd ar y llawr gwaelod wedi'i drawsnewid yn fwyty newydd, hen Fanc Lloyds yn Aberpennar lle mae gofod masnachol newydd wedi'i greu ar y llawr gwaelod a llety preswyl ar y lloriau uchaf a 38 Stryd Hannah Porth lle mae hen eiddo adfeiliedig wedi'i ailddatblygu'n swyddfeydd sydd i gyd yn cael eu defnyddio.<br>• Fe wnaethom ni barhau i baratoi ein Cynllun Datblygu Lleol, cynllun defnydd tir statudol ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2024, a bydd nawr yn llywio datblygiad y CDLl i'w archwilio'n fanylach gan y cyhoedd. |

| Deilliannau, Cynnydd a Heriau i Gyflawni Ein Blaenoriaethau FFYNIANT | |
|---|---|
| **Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | • Ailddatblygu Canolfan Gelfyddydau'r Miwni mewn partneriaeth ag ymddiriedolaeth ddiwylliannol Awen. Disgwylir i'r cynllun gael ei gwblhau yn haf 2024.<br>• Mae'r gwasanaeth trochi Cymraeg newydd 'Taith Iaith' wedi cefnogi 11 o ddysgwyr mewn 7 ysgol i integreiddio i ysgolion cyfrwng Cymraeg, gydag adborth cadarnhaol gan rieni, disgyblion ac athrawon.<br>➢ O'r 563 o leoedd Dechrau'n Deg a gynigiwyd, mae 90 (18%) wedi dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn gynnydd nodedig.<br>➢ Bu gostyngiad bach yng nghanran y disgyblion blwyddyn 1 sy'n mynychu Addysg Cyfrwng Cymraeg (o 20.16% i 19.31%). |
| **Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | • Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes amlinellol ar gyfer Ysgol Gynradd Ddi-Garbon Net Glyncoch o dan yr her ysgolion cynaliadwy, gyda datblygu dylunio ac ymgysylltiad cymunedol ar y gweill. Bydd y prosiect yn defnyddio technolegau gwyrdd, yn cael ei deilwra i'r gymuned leol a fydd yn cyfrannu at y broses ddylunio ac yn darparu parth dysgu gweithredol i addysgu egwyddorion peirianneg, ecoleg a rheoli tir. |

## Cyflawni trwy weithredu:

- 61 o grantiau cyfalaf bach Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar gwerth cyfanswm o £525 mil wedi'u dyfarnu, gyda chanlyniadau cadarnhaol i leoliadau a phlant ac i'w gweld yn y rhain astudiaethau achos.
- Cefnogwyd 110 o ddisgyblion heb ffocws gyrfa clir trwy'r prosiect Golau Gwyrdd, gyda 93 yn sicrhau cyrchfannau cadarnhaol mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn dilyn y prosiect, a 30 hefyd yn gwella eu presenoldeb yn yr ysgol o ganlyniad.
- Cefnogi cleientiaid digartref mewn llety dros dro trwy'r tîm gweithgaredd dargyfeirio newydd, fel y dangosir yn hyn astudiaeth achos lle roedd cleient yn cael ei gefnogi fel rhan o ddull integredig o gefnogi anghenion cymhleth.

Gellir gweld diweddariad manwl o gynnydd yn erbyn ein Blaenoriaeth Ffyniant yn ein Hadroddiad Cyflawniad Ch4.

ADRAN

2



# Ein Hadroddiad Hunanwerthuso Blynyddol

# ADRAN 2

# EIN HADRODDIAD HUNANWERTHUSO BLYNYDDOL

## Trosolwg

Mae'r dyletswyddau Cyflawniad a Llywodraethu sy'n cael eu hamlinellu yn Rhan 6, Pennod 1 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ymwneud â chryfhau a grymuso llywodraeth leol..."[gan d]diffinio prif gynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n gwella eu hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanwerthuso ac ar asesiadau o berfformiad gan baneli". *Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus wneud y pethau canlynol:*

- parhau i adolygu cyflawniad,
- ymgynghori ar gyflawniad ac
- adrodd ar gyflawniad, gan baratoi adroddiad hunanwerthuso ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Ddeddf yn nodi hynny *'Rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanwerthuso ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ar y graddau y gwnaeth fodloni'r gofynion cyflawniad yn ystod y flwyddyn honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion cyflawniad'.* Nod y ddogfen hon yw cyflawni'r ddyletswydd hon.

Mae'r hunanwerthusiad Corfforaethol yn asesiad cynhwysfawr o'r sefydliad ac nid yw'n asesiad manwl o berfformiad pob portffolio gwasanaeth. Nod yr hunanwerthusiad yw darparu llwyfan ar gyfer sicrwydd a gwelliant a thrwy wneud hynny helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i'r trigolion rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Dyma'r trydydd hunanwerthusiad ac rydyn ni'n parhau i ddysgu a datblygu ein hymagwedd oddi wrth ein hunanwerthusiadau blaenorol, a'r diweddaraf o ba rai a ystyrid gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol ym mis Rhagfyr 2023, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2023 a gan y Cyngor ym mis Ionawr 2024. Rydyn ni hefyd wedi gweld ac ystyried yr wybodaeth a rennir sy'n dod i'r amlwg gan Gynghorau eraill Cymru ac adborth gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheoleiddwyr Annibynnol y Cyngor, Archwilio Cymru. Nid oes cyfeiriad uniongyrchol at gymynroddion lleol y pandemig Covid ond mae llawer o dystiolaeth o'r rhain o hyd yn iechyd a llesiant ein trigolion o bob oed.

O fewn pob rhan o'r hunanwerthusiad hwn, ein nod yw gwneud y defnydd gorau o'r data a gwybodaeth sydd eisoes yn y parth cyhoeddus, er enghraifft, adroddiadau i bwyllgorau, polisïau, cynlluniau a strategaethau perthnasol y Cyngor. Mae'r dull hwn yn lleihau'r wybodaeth sy'n cael ei hailadrodd ond yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen fel y nodir yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion cyflawniad', sef i ba raddau y mae:

1. arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
2. defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol;
3. y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.

Er bod y Ddeddf yn nodi’r ddyletswydd i gynnal hunanwerthusiad blynyddol ac adrodd arno, nid yw’n darparu strwythur i’r broses na’r adroddiad blynyddol, mae’r Ddeddf yn nodi’n benodol y dylai pob sefydliad benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun. I’n helpu ni drwy’r broses mae’n ddefnyddiol deall beth mae hunanwerthuso yn ei olygu ar ei lefel symlaf. Mae’r cwestiynau canlynol yn ein harwain drwy’r broses hunanwerthuso:

1. Ydyn ni'n gwneud yn dda?
2. Sut rydyn ni'n gwybod?
3. Beth alla i ei wneud yn well a sut?

Mae’r fframwaith y mae’r Cyngor wedi’i fabwysiadu ac felly strwythur ein hunanwerthusiad yn seiliedig ar y meysydd canlynol:

1. Ein fframwaith rheoli cyflawniad – sut mae’r cyfan yn cyd-fynd, gyda ffocws ar hunanwerthuso.
2. Diweddariad ar y themâu a ddeilliodd o hunanwerthusiadau blaenorol.
3. Ein hasesiad o'n 'gweithgareddau craidd'.
    - Mae’r adran hon yn cynnwys meysydd y credwn y gallwn eu gwella.

ADRAN

2a



# Ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad:

# **Sut mae'r cyfan yn cyd-fynd, gyda ffocws ar hunanwerthuso.**

# ADRAN 2a

## Ein fframwaith rheoli cyflawniad – sut mae’r cyfan yn cyd-fynd, gyda ffocws ar hunanwerthuso

Ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer ein cymunedau. Mae cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ategu gan ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad, diben y fframwaith yw cael y trefniadau ar waith i helpu i gyflawni’r canlyniadau a fwriadwyd, rheoli ein risgiau a darparu atebolrwydd ar gyfer cyflawni.

Mae cynlluniau blaenoriaeth manwl ar waith i gefnogi’r gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant (dyma ein blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol) a nod y cynlluniau hyn yw rheoli’r risgiau strategol i gyflawni ein hamcanion a chynnwys cerrig milltir, camau gweithredu a mesurau. Mae cynlluniau darparu gwasanaeth hefyd ar waith, ac fe'u hategir gan gyfres eang o Bolisïau, Strategaethau a threfniadau gweithio.

Mae atebolrwydd mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol a rheoli ein hadnoddau'n effeithiol yn cael ei gyflawni trwy swyddogaethau adrodd a chraffu'r Cyngor. I ddarganfod pam, pryd a sut mae ein cyflawniad yn cael ei fonitro, cymerwch olwg ar y adran cyflawniad o'n gwefan.

I gefnogi diwylliant cyflawniad y Cyngor, mae'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad yn cynnwys hunanwerthuso/asesiad amserol a chymesur ar lefel Gwasanaeth a Chorfforaethol. Mae ein Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau blynyddol wedi bod ar waith ers 2016. Anogir gwasanaethau i fod yn onest ac yn wrthrychol wrth gwblhau eu hunanwerthusiad. Anogir swyddogion ar draws y Cyngor i ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw hunanwerthuso effeithiol yn ddyfarniad sefydlog a gynhelir unwaith y flwyddyn. Mae’n broses barhaus.

Mae’r hunanwerthusiad yn gofyn i wasanaethau fod yn glir ynghylch sut y maen nhw'n cyflawni, ac mae hyn yn gyson â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Er enghraifft, pa mor llwyddiannus ydyn nhw, sut y maen nhw'n gwybod, a nodi beth allen nhw ei wneud i wella.

Mae'r hunanwerthusiadau'n cael eu hadolygu a'u herio gan Brif Weithredwr y Cyngor yn ystod sesiynau 1-i-1. Mae'r trefniant cadarn a sefydledig yma'n galluogi'r Prif Weithredwr i ddwyn Swyddogion i gyfrif ac yn ceisio nodi meysydd lle mae angen gwelliant neu ffocws er mwyn gwella'n barhaus; mae'r meysydd yma'n sail i gyflwyno gwasanaethau a chynlluniau blaenoriaethu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Hunanwerthusiad hefyd yn

- Helpu gwasanaethau i wneud gwell penderfyniadau, rheoli risgiau a darparu adborth o ran yr angen am gymorth corfforaethol a chwmpas y cymorth hwnnw.
- Dangos gwerth am arian, y potensial ar gyfer newid mewn gwasanaeth, gwariant neu arbedion effeithlonrwydd a nodi effaith darpariaeth gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig.
- Galluogi Gwasanaethau Corfforaethol i nodi a blaenoriaethu anghenion cymorth gwasanaeth.

- Darparu mecanwaith/gwybodaeth ar gyfer monitro 'corfforaethol' a gwasanaethau 'trawsbynciol' gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i lunio cynlluniau gweithredu strategol ac adroddiadau statudol ar gyfer y Cyngor, e.e. Safonau'r Gymraeg, Cydraddoldebau, Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Dyletswydd Bioamrywiaeth sy'n effeithio ar ein hadroddiad bob 3 blynedd i Lywodraeth Cymru a'r cynllun gweithredu.
- Cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer archwilio neu arolygu a chyflawni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r model hunanwerthuso yn cael ei adnewyddu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn ystyried adborth gan wasanaethau a'i fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Dros y blynyddoedd mae'r hunanwerthusiad wedi cael ei ddatblygu fel bod gwasanaethau'n gallu darparu gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r pum Ffordd o Weithio a themâu trawsbynciol eraill sy'n llywio adroddiadau statudol.

Cwblhawyd 24 hunanwerthusiad gan wasanaethau yn hydref 2023. Roedd pob hunanwerthusiad a gwblhawyd yn cael ei adolygu, a'i gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr perthnasol ar ôl ymgysylltu â'r Aelod Cabinet priodol. Roedd yr hunanwerthusiadau wedyn yn destun her gan y Prif Weithredwr.

Cynhaliwyd cyfarfod terfynol yr hunanwerthusiadau a chyfarfodydd her y Prif Weithredwr yng nghyd-destun y "dewisiadau mwyaf cyfyng a phoenus o ran cyllideb Cymru ers dechrau datganoli". Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd, parhaodd y broses hunanwerthuso i gael ei chynnal mewn ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw.

Mae'r cyfarfodydd Her a Chymorth yma'n parhau i gael eu hystyried yn rhan annatod a gwerthfawr o'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad ac yn gyfle cadarnhaol i herio cyflawniad, archwilio materion a chyfleoedd gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am faterion trawsbynciol i'r Cyngor.

Mae'r hunanwerthusiad Gwasanaeth yn parhau i nodi ac ystyried ein heriau mwy strategol. Dyma themâu allweddol proses 2023:

**Cryfderau**

1. Cyflawni yn erbyn ein cynlluniau'n llwyddiannus ar draws y Cyngor, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau ariannol a gweithredol heriol sy'n wynebu'r Cyngor.
2. Mae effaith gadarnhaol buddsoddiad cyfalaf parhaus yn glir, gyda llawer o brosiectau sydd ag effaith uchel a gweladwy yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
3. Eglurder gwasanaethau ynglŷn â'u blaenoriaethau ar gyfer gwella a chyfleoedd i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.
4. Gwerth ein cynlluniau i brentisiaid a graddedigion yn ein gweithlu.
5. Perthnasoedd cadarnhaol a phroffesiynol rhwng Swyddogion/Uwch Arweinwyr y Cyngor ac Aelodau etholedig a'r Cabinet; darparu her, cymorth ac ymgysylltiad adeiladol.
6. Mwy o dystiolaeth o gynllunio tymor canolig i hirdymor o fewn gwasanaethau.
7. Gweithrediad cadarnhaol ar y cyfan o'r Trefniadau Gwaith ar ôl Covid a ddisgrifir yn y Model Gweithredu a gyflwynwyd yn 2023 ynghyd â'r Cynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor: Addas ar gyfer y Dyfodol 2023-2030.

**Cyflwyno ac Integreiddio**

- Heriau cyfun o reoli disgwyliadau uchel ar gyfer darparu gwasanaeth/prosiect, cyflawni newid sylweddol a chynyddol drawsnewidiol a'r heriau ariannol parhaus.
- Mwy o alw i ddiwallu anghenion ac ymddygiadau mwy cymhleth ar draws sawl maes gwasanaeth.
- Adolygiad a dealltwriaeth bellach o ryngddibyniaeth gwasanaethau a goblygiadau newid o ran adnoddau.
- Lle gallai dull mwy masnachol neu sy'n fwy tebyg i ddull byd busnes fod yn fuddiol, mae'n cael ei weithredu mewn ffordd synhwyrol a gofalus.
- Cyfleoedd pellach i adeiladu ar welliant a gallu digidol, yn enwedig o ran data a gwybodaeth.
- Her cyfathrebu effeithiol ar draws y sefydliad, yn enwedig i staff rheng flaen.

**Gweithlu a Gallu**

- Heriau recriwtio, cadw gweithwyr a chynllunio olyniaeth, gyda hunanwerthusiadau yn nodi/cadarnhau angen gwasanaethau am gymorth penodol.
- Angen cryfhau cyfleoedd Datblygu Rheolaeth i gefnogi cynllunio olyniaeth yn well.
- Angen meithrin gallu ar gyfer newid trawsnewidiol, yn enwedig yn y meysydd hynny lle mae'r risg fwyaf.
- Angen i rai gwasanaethau adlewyrchu ac adolygu strwythurau sefydliadol yng ngoleuni cyfrifoldebau newydd neu fwy amrywiol.
- Mantais sefydliadol cynnal rolau mewnol/arbenigol mewn gwasanaethau penodol.
- Mae rheoli newid, yn aml ar raddfa fawr, fel arfer yn cael ei drin yn dda iawn ond gall fod yn gymhleth ac yn hirfaith, yn aml oherwydd ffactorau allanol.

**Dylanwadau Allanol a Pherthnasoedd**

- Cynyddu’r defnydd o arian grant i gefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau gyda’r gofyniad am strategaethau ymadael priodol wedi’u halinio â dyddiadau terfyn ariannu.
- Mae angen parhau i herio partneriaethau a threfniadau cydweithredol i sicrhau eu bod nhw'n darparu gwerth am arian a'u bod nhw'n cyflawni'r deilliannau a'r effaith a fwriedir ar gyfer ein trigolion a'n cymunedau.
- Cydnabod effaith heriau economaidd ehangach yn enwedig lle mae'r Cyngor yn ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau annibynnol, contractwyr neu gyflenwyr.
- Y berthynas adeiladol â chyrff rheoleiddio a'r angen i archwilio gwerth a risg archwilio ac arolygu allanol.

Archwilir y themâu yma mewn mwy o fanylder yn Adran 2c yr adroddiad yma. Yn dilyn cwblhau'r cyfarfod her hunanwerthusiad, roedd holl hunanwerthusiadau'r gwasanaethau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor i gyfeirio atyn nhw'n fewnol ac i'w defnyddio'n fewnol. Defnyddir y themâu sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rhai a restrir uchod, i lywio datblygiadau gwasanaeth, prosesau corfforaethol a phrosesau eraill a hefyd newidiadau posibl i'r trefniadau hunasesu yn 2024.

Yn fwy uniongyrchol, roedd yr wybodaeth yn yr hunanwerthusiadau, a'r blaenoriaethau gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg, yn llywio'r Cynllun Cyflawni ar gyfer pob gwasanaeth ar gyfer 2024/25. Mae'r Cynlluniau Cyflawni yma'n destun monitro o fewn y gwasanaethau. Mae camau gweithredu perthnasol hefyd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau blaenoriaeth y Cyngor, sy'n cael eu monitro a'u hadrodd yn yr Adroddiadau Cyflawniad chwarterol i'r Cabinet ac wedi hynny i wahanol bwyllgorau craffu.

Mae’r Adroddiad Hunanwerthuso Blynyddol yma'n rhoi’r cyfle i asesu ein gofynion cyflawniad ehangach fel y’u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

ADRAN

2b



# Diweddariad ar y themâu a ddeilliodd o hunanwerthusiadau blaenorol

# ADRAN 2b

## Diweddariad ar y themâu a ddeilliodd o hunanwerthusiadau blaenorol

**Diweddariad ar y themâu a ddeilliodd o hunanwerthusiadau blaenorol.**
Yn ystod ein taith hunanwerthuso mae themâu allweddol wedi bod yn gyffredin. Dyma nhw:

1. Cynllunio Ariannol a Chydnerthedd.
2. Cynllunio'r Gweithlu.
3. Argyfwng costau byw.
4. Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Gydnerth i heriau Newid yn yr Hinsawdd.
5. Cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn tlodi.
6. Presenoldeb yn yr Ysgol.
7. Moderneiddio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau preswyl i blant y Cyngor.
8. Parhau i adfywio canol trefi a chefnogi busnesau lleol.
9. Rhoi cymorth i'r rhai sydd angen tai.
10. Parhau i gryfhau ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig gwerthuso deilliannau.
11. Cryfhau a mynegi ymhellach ein diwylliant a'n gwerthoedd sefydliadol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac, wrth wneud hynny, cefnogi ein trefniadau parhaus i osod disgwyliadau clir ar gyfer staff a gwasanaethau.

Cymerwyd y themâu a restrir uchod i ystyriaeth yn ystod 2023/24 pan ddechreuasom ar y gwaith o baratoi ein Cynllun Corfforaethol drafft yn barod ar gyfer 2024/30. Defnyddiwyd y themâu hyn i lywio cyfeiriad strategol y Cyngor. Mae rhai yn cael effaith rheng flaen fel presenoldeb yn yr ysgol a chefnogi'r rhai sydd angen tai er enghraifft. Mae themâu eraill yn effeithio ar y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau - gelwir y rhain yn 'drefniadau llywodraethu'. Mae trefniadau llywodraethu yn ymwneud â'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, y systemau y caiff ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt, megis rheolaeth ariannol a chynllunio'r gweithlu er enghraifft.

Mae'r themâu a restrir uchod i'w gweld o fewn y Cynllun Corfforaethol 2024/30 newydd – 'Gweithio gyda'n Cymunedau', a nod y Tabl a ganlyn yw dangos i chi pa amcan llesiant y maent yn perthyn iddo, ynghyd â'r blaenoriaethau ategol a'r canlyniadau gwella. Nawr bod y themâu hyn wedi'u halinio â'n hamcanion llesiant, cânt eu monitro a'u hadrodd fel rhan o'n trefniadau rheoli cyflawniad chwarterol.

| Themâu o’r hunanwerthusiadau blaenorol: | Sut mae’r themâu yma'n cyd-fynd â’n Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30: | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcan Llesiant** | **Cefnogi blaenoriaeth i’r Amcan Llesiant:** | **Thema Gwella:** |
| Cynllunio Ariannol a Chydnerthedd | **Cyngor sy’n cael ei redeg yn dda** | Rheoli ein gweithlu, cyllidebau, tir, adeiladau, fflyd a gwybodaeth i wneud y mwyaf o'n heffeithlonrwydd a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'n cymunedau, byd natur a'r amgylchedd. | |
| Cynllunio'r Gweithlu | | | |
| Argyfwng costau byw | **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus. | Mae plant a phobl ifainc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i ddysgu a thyfu’n ddiogel. | Cefnogi plant a phobl ifainc o bob gallu a chefndir i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi, fel bod modd iddyn nhw gyflawni eu deilliannau addysgol gorau. |
| | | Bydd gan drigolion fynediad i gartrefi fforddiadwy ac ynni-effeithlon, sydd o ansawdd da. | Gweithio gyda phartneriaid i alluogi cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a chynaliadwy ar draws ein holl gymunedau gan gynnwys cefnogi’r rhai sy’n ddigartref a gwella tai gwag er mwyn eu defnyddio eto. |
| | | | Galluogi mwy o bobl i fyw mewn cartrefi cynnes sy’n defnyddio ynni’n effeithlon i wella eu hiechyd a’u llesiant a’u galluogi i fyw’n fwy cynaliadwy. |
| | **GWAITH A BUSNES** - helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf. | Rhoi cymorth i bobl i ddilyn llwybrau gyrfa gwerth chweil, sy'n arwain at waith medrus a diogel. | Rhoi cymorth i bobl sy’n profi tlodi ‘mewn gwaith’ i ddod o hyd i waith mwy gwerth chweil a diogel. |
| Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Gydnerth i heriau Newid yn yr Hinsawdd | **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD -** Rhondda Cynon Taf gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur. | Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. | Diogelu, cefnogi a gweithio gyda byd natur i fynd i'r afael ag argyfyngau'r Hinsawdd a Byd Natur. |
| | | | Gwarchod ein coed presennol ac ehangu coetir trwy adfywio naturiol a phlannu coed mewn mannau trefol. |
| | | | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu mesurau dal carbon a hybu byd natur trwy ail-wlychu ac adfer ein mawnogydd. |
| | | | Gwella ansawdd yr aer trwy ddulliau gan gynnwys rheoli traffig, annog y defnydd o opsiynau teithio carbon isel a gweithredu gofynion Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. |
| | | | Rheoli tir y sector cyhoeddus i gefnogi prosiectau cynaliadwy gan gynnwys cynhyrchu ‘ynni gwyrdd’, storio carbon, rheoli perygl llifogydd a chynyddu bioamrywiaeth a thyfu bwyd yn y gymuned. |

| Themâu o’r hunanwerthusiadau blaenorol: | Sut mae’r themâu yma'n cyd-fynd â’n Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30: | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcan Llesiant** | **Cefnogi blaenoriaeth i’r Amcan Llesiant:** | **Thema Gwella:** |
| Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Gydnerth i heriau Newid yn yr Hinsawdd | **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD -** Rhondda Cynon Taf gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur. | Defnyddio cyfoeth byd natur er budd pobl a chymunedau. | Gwneud y defnydd gorau o ddatrysiadau naturiol a chynaliadwy i leihau perygl llifogydd a llygredd a rheoli dŵr wyneb. |
| | | | Parhau i fuddsoddi mewn ynni solar ar draws ein hysgolion ac adeiladau’r Cyngor yn ogystal â datblygu cynhyrchu ynni drwy ynni’r haul, gwynt, trydan dŵr a dŵr geothermol/pyllau glo, i wresogi ac oeri cartrefi a busnesau. |
| | **Cyngor sy’n cael ei redeg yn dda** | Lleihau ôl troed carbon y dref | |
| Cau’r bwlch Cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy’n byw mewn tlodi | **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus. | Mae plant a phobl ifainc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i ddysgu a thyfu’n ddiogel. | Helpu plant o bob gallu a chefndir i wneud y gorau y gallen nhw yn yr ysgol drwy sicrhau bod gennym ni ffocws di-baid ar sicrhau gwelliant parhaus a safonau uchel yn ein hysgolion. |
| | | | Sicrhau mynediad at ymyrraeth a chyngor amserol fel bod anghenion disgyblion a’u teuluoedd yn cael eu nodi’n gyflym a bod ymyrraeth gynnar yn cael ei darparu. |
| | | | Darparu amgylcheddau dysgu gwych drwy ein lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion newydd a gwell gan gynnwys ysgol arbennig newydd a gwneud addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb. |
| | | | Cefnogi plant a phobl ifainc o bob gallu a chefndir i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi, fel bod modd iddyn nhw gyflawni eu deilliannau addysgol gorau. |
| Presenoldeb yn yr Ysgol | | | Cefnogi plant a phobl ifainc o bob gallu a chefndir i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi, fel bod modd iddyn nhw gyflawni eu deilliannau addysgol gorau. |
| Moderneiddio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau preswyl i blant y Cyngor | **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus. | Mae modd i drigolion ofalu am eu hiechyd a'u llesiant a byw bywydau iach, annibynnol a boddhaus. | Helpu ein trigolion i gadw'n iach ac yn heini; cyflawni eu potensial a chryfhau cymunedau lleol trwy gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu, hamdden, corfforol a chreadigol sy'n hygyrch i bawb. |
| | | | Gweithredu'r Cydweithfa Ymchwil ar Faterion Iechyd (HDRC) pum mlynedd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn RhCT a mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd ehangach sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfleoedd bywyd ein trigolion. |

| Themâu o’r hunanwerthusiadau blaenorol: | Sut mae’r themâu yma'n cyd-fynd â’n Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30: | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcan Llesiant** | **Cefnogi blaenoriaeth i’r Amcan Llesiant:** | **Thema Gwella:** |
| Moderneiddio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau preswyl i blant y Cyngor | **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus. | Mae modd i drigolion ofalu am eu hiechyd a'u llesiant a byw bywydau iach, annibynnol a boddhaus. | Galluogi pobl i ymgysylltu â chymunedau cydnerth, cryfhau cysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol, darparu cyfleoedd i arwain a dylanwadu ar ddatblygiadau cymunedol a chymryd rhan mewn gwirfoddoli. |
| | | Diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed o bob oed, gan ddarparu amddiffyniad, gofal a chymorth pan maen nhw ei angen fwyaf fel bod modd iddyn nhw wneud y gorau o'u potensial. | Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned ac yn agos i'w cartrefi drwy ddarparu'r cymorth a'r gofal cywir ar yr amser cywir. |
| | | | Darparu llety modern sy'n diwallu anghenion pobl sydd ddim yn gallu byw gartref mwyach. |
| Parhau i adfywio canol trefi a chefnogi busnesau lleol | **GWAITH A BUSNES** - helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf. | Rhoi cymorth i fusnesau i ffynnu a bod yn gynaliadwy. | Galluogi busnesau i ddod o hyd i'r cyngor a'r cymorth cywir i'w helpu i foderneiddio, bod yn gynaliadwy a manteisio ar gyfleoedd newydd a marchnadoedd sy'n datblygu. |
| | | | Parhau i ddefnyddio ein tirwedd naturiol a threftadaeth i hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth newydd yn RhCT a chefnogi twf cynaliadwy. |
| | | | Gweithio gydag Addysg Uwch ac Addysg Bellach, busnesau a'r trydydd sector i rannu gwybodaeth a chefnogi arloesedd a chynaliadwyedd busnes. |
| | | Canol trefi sy'n ffynnu. | Cyflawni prosiectau adfywio i greu canol trefi bywiog a mannau cyhoeddus o ansawdd da lle mae busnesau'n ffynnu ac mae pobl eisiau ymweld â nhw. |
| | | | Manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu mannau cyhoeddus o ansawdd uchel a gwella ardaloedd canol trefi presennol yn rhan o’n strategaethau canol trefi, sy’n cynnwys plannu coed a mannau gwyrdd cynaliadwy eraill sy’n cefnogi gwell iechyd, llesiant a mwy o fioamrywiaeth. |
| Cefnogi’r rhai sydd angen tai | **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus. | Bydd gan drigolion fynediad i gartrefi fforddiadwy ac ynni-effeithlon, sydd o ansawdd da. | Gweithio gyda phartneriaid i alluogi cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a chynaliadwy ar draws ein holl gymunedau gan gynnwys cefnogi’r rhai sy’n ddigartref a gwella tai gwag er mwyn eu defnyddio eto. |

| Themâu o'r hunanwerthusiadau blaenorol: | Sut mae'r themâu yma'n cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30: | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcan Llesiant** | **Cefnogi blaenoriaeth i'r Amcan Llesiant:** | **Thema Gwella:** |
| Parhau i gryfhau ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig o ran gwerthuso deilliannau. | **Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda** | Llywodraethu Da a Democratiaeth Leol - Rheoleiddio, Cydymffurfiaeth a Llywodraethu | |
| | | Cynnwys ac Ymgysylltu - Cymhwyso'r 5 Ffordd o Weithio | |
| Cryfhau a mynegi ein diwylliant a'n gwerthoedd sefydliadol ymhellach ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac, wrth wneud hynny, cefnogi ein trefniadau parhaus i osod disgwyliadau clir ar gyfer staff a gwasanaethau. | | Llywodraethu Da a Democratiaeth Leol - Rheoleiddio, Cydymffurfiaeth a Llywodraethu | |
| | | Cynnwys ac Ymgysylltu - Cymhwyso'r 5 Ffordd o Weithio | |
| | | Rheoli Ein Cyllid, Asedau ac Adnoddau - Ein Cyllideb, Tir, Adeiladau, Fflyd a Gwybodaeth | |
| | | Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg | |

Mae rhagor o fanylion o ran sut y rheolwyd y meysydd yma yn ystod 2023/24 yma.

ADRAN **2c**



# Ein Hasesiad o'n 'Gweithgareddau Craidd'

# ADRAN 2c

## Ein Hasesiad o'n 'gweithgareddau craidd'.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cynnwys set graidd o weithgareddau sy’n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn awgrymu ein bod ni'n defnyddio’r rhain fel fframwaith ar gyfer ein hunanwerthusiad. Serch hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod gweithgareddau ychwanegol y mae angen eu hasesu hefyd.

Mae adran ganlynol yr adroddiad yma wedi'i strwythuro o amgylch y rhestr hon o weithgareddau craidd; mae’r rhai sy’n cael eu hystyried fel y gweithgareddau craidd fel y’u diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wedi’u nodi â seren er eglurder:

1. **Cynllunio strategol a dull gweithredu***
2. **Llywodraethu a Chraffu**
3. **Cyflawniad Cyllidol a Rheoli Risg***
4. **Adnoddau Dynol/Cynllunio Gweithlu***
5. **Rheoli Asedau***
6. **TGCh a Gwasanaethau Digidol**
7. **Caffael a Chomisiynu***
8. **Partneriaethau**
9. **Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth gan Gwsmeriaid**
10. **Y Gymraeg**
11. **Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**
12. **Adborth Rheoleiddwyr**
13. **Sero-net**
14. **Diogelu Corfforaethol**

Mae'r meysydd gwaith yma'n pennu ac yn cefnogi cyfeiriad strategol y Cyngor. Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau bod gan y Cyngor strwythur cadarn o ran llywodraethu, atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae'n bwysig nodi bod yr holl wasanaethau, p'un a ydyn nhw'n wasanaethau rheng flaen neu wasanaethau swyddfa gefn / cymorth, yn elfennau allweddol o'r Cyngor ac maen nhw i gyd yn destun hunanwerthusiadau gwasanaeth blynyddol a chynlluniau cyflawni. Mae holl wasanaethau'r Cyngor yn ymdrechu'n barhaus i wella adnoddau a gwneud y defnydd gorau ohonyn nhw.

Mae adran ganlynol yr adroddiad yma yn archwilio'r gweithgareddau craidd yma ac yn arfarnu pa mor effeithiol y buon nhw a, lle y bo'n berthnasol, yn nodi meysydd i'w gwella. Mae'r themâu hynny a ddeilliodd o hunanwerthusiadau'r gwasanaeth (Adran 2a) hefyd wedi'u hystyried.

## 1. Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu

Mae gweledigaeth strategol, blaenoriaethau a thargedau heriol y Cyngor yn parhau i gael eu nodi yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn gosod y cyfeiriad ar gyfer ein gwaith ac yn cyfeirio adnoddau'r Cyngor, e.e. ein cyllideb, ein gweithlu a'i ddatblygiad, ein hasedau a gwybodaeth i ble mae pobl wedi dweud wrthym ni fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w bywydau nawr ac yn y dyfodol. Mae holl Strategaethau a Pholisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol a sut maen nhw'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Cynllun Gweithlu'r Cyngor 2023-28,
- Strategaeth Dwristiaeth 2021,
- Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd 2022-25,
- Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd,
- Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig ddrafft y CDLl 2022-37.

Rhwng 2020 a 2024, roedd ein Cynllun Corfforaethol 'Gwneud Gwahaniaeth' yn nodi ein tair Blaenoriaeth POBL, LLEOEDD A FFYNIANT. Roedd 2023/24 yn flwyddyn bontio i'r Cyngor wrth i ni gymryd camau i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid a datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a'i roi ar waith o fis Ebrill 2024. Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol newydd 2024-30, 'Gweithio gyda'n Cymunedau', gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn pwysleisio'r angen i feithrin cydnerthedd a chapasiti cymunedol, fel bod pobl mewn sefyllfa well i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain gan gydnabod yr angen i'r Cyngor barhau i ail-lunio ac ailgynllunio ei wasanaethau i gwrdd â'r heriau gweithredol ac ariannol sylweddol sydd o'n blaenau.

Er mwyn sicrhau trosglwyddiad amserol i'r Cynllun Corfforaethol newydd yn 2024, cafodd diweddariad cynhwysfawr o'r cynnydd ers cyflwyno 'Gwneud Gwahaniaeth' ei gynnwys yn Adran 2 o'n hunanwerthusiad Blynyddol 2022/23 a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2024. Daeth yr adran 'Cynnydd ar ein Cynllun Corfforaethol 2020-24' i'r casgliad *'Er gwaethaf yr heriau digynsail a brofwyd gan bob un ohonon ni ers i ni gyflwyno ein Cynllun, ac wrth edrych yn ôl ar ein cynnydd ers 2020, gallwn ni ddangos tystiolaeth ein bod ni wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn yr oedden ni wedi bwriadu ei gyflawni'.* Roedd yr Asesiad hefyd yn nodi lle nad oeddem ni wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oeddem ni wedi bwriadu ac mae'r gwaith yma wedi'i ystyried yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol newydd.

Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol newydd dros gyfnod o ddeunaw mis, drwy ystyried y 5 Ffordd o Weithio sy'n helpu i ddangos ein bod ni'n cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy h.y.

1. **Edrych tua'r dyfodol:** ar ein heriau a'n cyfleoedd. Rydyn ni wedi defnyddio'r data a'r wybodaeth orau sydd ar gael ac wedi ceisio cyngor ynghylch sut rydyn ni'n ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Mae ansicrwydd ynghylch y tymor hir, ond mae ein Cynllun yn cynnwys peth o'r wybodaeth rydyn ni wedi'i defnyddio i lywio ein hamcanion ac i ddiogelu'r dyfodol.
2. **Cynnwys** pobl leol, ystod o randdeiliaid a chynghorwyr wrth lunio ein cynllun. Rydyn ni wedi bod yn gwrando ar yr hyn y mae ein trigolion o bob oed, cymunedau, partneriaid, a staff yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd hyn yn parhau wrth i ni ddatblygu camau gweithredu dros gyfnod y cynllun. Gwnaethon ni hefyd edrych ar wybodaeth ac adborth o amrywiaeth o

arolygon, sesiynau ymgysylltu a sgyrsiau parhaus a gynhaliwyd ar draws ein gwasanaethau dros y deunaw mis blaenorol fel ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael.

3. **Gweithio gydag eraill:** lle mae modd i ni chwilio am gyfleoedd pellach wrth i ni roi'r Cynllun ar waith dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae ein Cynllun yn cynnwys ein hymrwymiadau i weithio gyda'n partneriaid a rhai enghreifftiau o ble rydyn ni eisoes yn gweithio gydag eraill.
4. Ystyried y sbardunau cenedlaethol a gwaith sefydliadau eraill fel ein bod ni'n **integreiddio** ac ategu gwaith a ddim yn ei wrth-ddweud na'i ddyblygu. Mae'r sbardunau yma'n cynnwys gofynion Llywodraeth Cymru a rhai ein partneriaid lleol a rhanbarthol a'n partneriaethau rhyng-gysylltiedig a statudol amrywiol sydd ar waith. Dros oes y cynllun, byddwn ni'n parhau i edrych ar bwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar ein cymunedau.
5. Fe wnaethon ni edrych ar sut mae modd i ni **atal** problemau rhag digwydd neu waethygu ar draws pob un o'n Hamcanion Llesiant wrth i ni baratoi ar gyfer y dyfodol. Enghraifft dda o hyn yw gweithio gyda phartneriaid i helpu i gadw pobl yn iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd fel eu bod nhw'n wynebu llai o risg o afiechyd.

Mae ein prosesau strategol, gan gynnwys sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau, yn cael eu llywio gan y Cynllun Corfforaethol ac yn parhau i fod yn allweddol i allu'r Cyngor i gyflawni a dangos sut mae'n bodloni'r gofynion cyflawniad a llywodraethu a nodir yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rydyn ni wedi cryfhau ymhellach y synergedd rhwng ein blaenoriaethau a'r gofyniad i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Rhondda Cynon Taf a Chymru drwy ein Cynllun Corfforaethol newydd 'Gweithio gyda'n Cymunedau'. Mae ein Cynllun newydd yn nodi ein pedwar Amcan Llesiant a'r blaenoriaethau a fydd yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer holl Strategaethau a Pholisïau'r Cyngor ac ar gyfer pennu'r gyllideb ac ati dros y chwe blynedd nesaf hyd at 2030. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd hefyd yn cynnwys adran mewn perthynas â sut mae'n gweithredu. Gelwir hyn yn 'Cyngor sy'n cael ei Reoli'n Dda'. Cytunodd y Cyngor ar y Cynllun Corfforaethol newydd yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2024 yn dilyn ymgysylltu eang â rhanddeiliaid.

Daw'r Cynllun Corfforaethol newydd ar adeg o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus a phwysau ar ein gwasanaethau statudol a dewisol. O'r herwydd, ni fydd hi'n bosibl cyflawni'r cynllun heb newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae angen i ni drawsnewid ein gwasanaethau a sicrhau bod ein cymunedau yn cymryd rhan yn y broses yma. Bydd hyn yn her, ond yn un y mae'n rhaid i'r Cyngor ei chofleidio (a buddsoddi ynddo gydag adnoddau staffio) i gyflawni newid a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r rhai sydd eu hangen. Agwedd allweddol ar gyflawni newid trawsnewidiol fydd adolygu'r data sydd gan y Cyngor - mae angen i ni ddefnyddio data'n effeithiol i lywio penderfyniadau. Bydd angen i ni hefyd ymchwilio a gweld beth mae eraill yn ei wneud.

**Mae trefniadau cynllunio strategol y Cyngor wedi'u gwreiddio'n dda ac maen nhw wedi darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni. Fe wnaethom ni ymgysylltu ag ystod eang o bobl a grwpiau pan wnaethom ni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30. Ond rydyn ni'n gwybod bod heriau sylweddol o'n blaenau.**

A. **Mae angen i ni ddefnyddio Cynllun Corfforaethol newydd 2024/30 fel sbardun ar gyfer arloesi pellach a darparu gwasanaethau mwy effeithlon sydd wedi'u targedu. Mae hyn yn golygu parhau i ystyried yr holl opsiynau a chyfleoedd, ymchwilio i'r hyn y mae eraill yn ei wneud a chyflawni trawsnewid gwasanaeth parhaus.**

**B. Mae angen inni feithrin rhagor o gapasiti i gefnogi newid trawsnewidiol, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth rheng flaen sy'n profi lefelau uchel parhaus o alw.**

**C. Mae angen i ni fyfyrio ar sut mae ein gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd lle mae rolau tebyg yn cael eu cyflawni ac ystyried newidiadau strwythurol i'n gweithlu lle bo angen. Bydd hyn yn ein helpu ni i sicrhau deilliannau gwell a bod yn fwy effeithiol ac effeithlon.**

**D. Mae angen i ni gynyddu'r defnydd o ddata a throi hyn yn wybodaeth ystyrlon, er mwyn ei defnyddio i gymharu ein gwasanaethau ag eraill ac i lywio sut mae modd i ni newid gwasanaethau (h.y. dysgu gan eraill) i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn hefyd yn cefnogi craffu effeithiol parhaus.**

## 2. Llywodraethu a Chraffu

**Llywodraethu**

Mae trefniadau llywodraethu cryf y Cyngor yn sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae cael systemau atebolrwydd, rheolaeth, polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith sy'n rheoli risg yn effeithiol yn sail i ni allu cyflawni ein blaenoriaethau.

Cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor bob blwyddyn ac yn unol â'r cyhoeddiad 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016)'. Daw'r adolygiad i ben gyda Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 ac adroddwyd arno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2024.

Daeth y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r casgliad:
*Yn seiliedig ar yr adolygiad o effeithiolrwydd yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, roedd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y Cyngor, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol a gwasanaethau ehangach.*

Gwnaethpwyd nifer fach o gynigion ar gyfer gwella i gryfhau prosesau presennol ymhellach. Bydd y cynigion ar gyfer gwella yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â'u cylch gorchwyl.

**Craffu**

Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn canolbwyntio ar gefnogi gwneud penderfyniadau cadarn a chyfrannu at optimeiddio'r deilliannau a fwriedir, fel y nodir yn y ddogfen Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, 2023/24.

Mae hyn yn cynnwys:

- Ffocws ar y trefniadau cyn y cam craffu - fe wnaeth Pwyllgorau Craffu ystyried 17 adroddiad o'r fath. Rhoddodd hyn gyfle i nodi risgiau a chyfleoedd yn gynnar yn y broses gwneud penderfyniadau a helpu i sicrhau bod dewisiadau'n wybodus. Mae enghreifftiau o ystyried trefniadau cyn y cam craffu yn cynnwys: Strategaeth ddrafft y Gyllideb Refeniw; y Cynllun Corfforaethol drafft; Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Y cynnig i newid Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn; Adolygiad

Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth; a'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (LFRMS).

- Gan ddefnyddio'r mecanwaith 'galw i mewn' - galluogi archwiliad o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ond sydd heb eu gweithredu eto, gan fod hyn yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, ystyriwyd adroddiadau galw i mewn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod y flwyddyn.
- Ystyried ac ymateb i ymgynghoriadau - darparu adolygiad a dadansoddiad annibynnol o gynigion, polisïau ac argymhellion, er enghraifft, Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Diwygio Treth y Cyngor.
- Craffu ar gyflawniad ariannol y Cyngor, cynnydd i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a chamau a gymerwyd i liniaru risgiau strategol, a gwneud argymhellion i wella trefniadau ymhellach, er enghraifft, diwygiadau i'r gofrestr risg strategol i alinio risgiau a chamau lliniarol yn gliriach. Gwyddom fod angen inni wella'r ffordd rydyn ni'n adrodd sut y mae ein gwasanaethau wedi cael effaith ar ein cymunedau. Byddwn ni'n mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

Ategwyd y trefniadau uchod gan hyfforddiant parhaus a oedd ar gael i bob Aelod etholedig ar bwyllgorau craffu. Darparodd yr Arolwg Blynyddol o Aelodau a gwblhawyd ym mis Ebrill 2023 fewnwelediad gwerthfawr i gryfderau cymorth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach. Cynhaliwyd y rhaglen flynyddol o adolygiadau Datblygiad Personol sy'n llywio ac yn cefnogi datblygiad Aelodau unigol ymhellach rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Cytunwyd ar y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer 2023-24 i Aelodau, sy'n deillio o'r adolygiadau yma, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 5 Gorffennaf 2023.

Roedd cyfleuster Ymchwil i Aelodau a chyfarfodydd cyn y prif gyfarfod i gynorthwyo Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i benderfynu ar gwestiynau / trywyddau ymholi mewn cyfarfodydd craffu hefyd yn eu lle. Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd cyn y prif gyfarfod, rhoddwyd sylw dyledus i raddau'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) mewn adroddiadau, gan gyfarwyddo pwyllgorau craffu i ystyried effaith tymor hir y penderfyniadau ar gymunedau i atal materion cyson megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.

Roedd datblygiadau allweddol yn 2023/24 yn cynnwys

1. Adleoli pencadlys y Cyngor i Bontypridd yn rhan o Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor - roedd hyn yn dangos yr arweiniad i gyflawni'r strategaeth yma. Llwyddwyd i reoli a gweithredu'r newidiadau i'r gofod swyddfa a thechnoleg, gan gynnwys gosod dodrefn gweddarlledu, yn Llys Cadwyn. Sicrhawyd bod yr Aelodau'n rhan o'r broses a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y newidiadau a'u goblygiadau.
2. Codi proffil pwysigrwydd Democratiaeth a Chyfranogiad drwy
   - Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol penodol RhCT yn ystod Wythnos Democratiaeth Genedlaethol Cymru, 16-20 Hydref.
   - Rhoddwyd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ar waith yn dilyn cytundeb gan y Cyngor ym mis Hydref 2023.

   Mae'n rhy gynnar i sefydlu effaith y mentrau yma, ond byddan nhw hefyd yn cael eu hystyried yng ngoleuni symud Pencadlys y Cyngor i 2 Llys Cadwyn yn rhan o Gynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor: Addas at y Dyfodol a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Mai 2023.
3. Cryfhawyd y rhaglenni gwaith ymhellach ar gyfer Pwyllgorau i sicrhau bod y rhain yn gyraeddadwy ac yn gallu dangos deilliannau ac effaith eu gwaith yn gliriach.

4. Ailddechrau gwaith cynharach i ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y prosesau democrataidd. Roedd hyn yn cynnwys dwy sesiwn hyfforddi ar-lein a gyflwynwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Aelodau etholedig a rhai o'r uwch swyddogion. Cynhaliwyd un sesiwn ym mis Ionawr a'r llall ym mis Chwefror 2023.
5. Ail-sefydlu perthnasau ffurfiol gydag Undebau Llafur cydnabyddedig y Cyngor trwy ailddechrau cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol. Roedd y cyntaf yn cynnwys ystyried hunanwerthusiad y Cyngor a Chynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2024-30.

Yn fwy cyffredinol mae'r data gwylio ar gyfer ffrydio byw a gweddarllediadau yn nodi cynnydd mewn ymgysylltiad defnyddwyr sy'n awgrymu mwy o ddiddordeb yn y prosesau democrataidd a/neu ddefnyddwyr sy'n ceisio gwybodaeth amserol sydd ar gael trwy amlygrwydd ystyried busnes y Cyngor, gan gynnwys materion sydd â phroffil uchel. Mae hyn er gwaethaf y bu llai o gyfleoedd i weddarlledu rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024 oherwydd symud Siambr y Cyngor i Lys Cadwyn.

| | **Blwyddyn y Cyngor 2023/24** | **Blwyddyn y Cyngor 2022/23** |
|---|---|---|
| Nifer o weithiau y'i gwyliwyd | 12,922 | 11,259 |
| Achosion o wylio'n fyw | 2,461 | 1,631 |
| Cyfanswm yr amser gwylio | 113d 7a 36m 21e | 84d 15a 27m 47e |
| Amser gwylio ar gyfartaledd | 12m 38e | 10m 49e |
| Achosion o rannu'r recordiad | 32 | 38 |
| Cyfanswm yr edrychwyd arno fwyaf | Cabinet 20 Tachwedd<br><br>Gwyliwyd 948 o weithiau | Cabinet 22 Mehefin<br><br>Gwyliwyd 628 o weithiau |
| Mwyaf o achosion o wylio'n fyw | Cabinet - 18 Medi<br><br>235 achos o wylio'n fyw | Pwyllgor Cynllunio a Datblygu - 118 achos o wylio'n fyw |

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu llwyfan Pleidleisio Digidol (DV), ond mae angen gwneud rhagor o waith. Er bod Pleidleisio Digidol ar gael i'r Aelodau hynny sydd wedi'u lleoli'n gorfforol yn y Siambr, nid oes gennym ni system bleidleisio gwbl hybrid eto.

Rydyn ni wedi adolygu Porth yr Aelodau i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben a'i fod yn galluogi Aelodau i ryngweithio'n well â'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ynddo i'w cynorthwyo yn eu rolau a'r weinyddiaeth gysylltiedig. Mae Hyrwyddwyr Aelodau Etholedig yn gweithio gyda Swyddogion i gyflawni offeryn mwy perthnasol, ymarferol a hygyrch.

Ceir rhagor o fanylion yn Hunanwerthusiadau Uned Fusnes a Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor.

**Ystyrir bod trefniadau llywodraethu a chraffu'r Cyngor (gan gynnwys datblygu Aelodau) yn dda. Mae meysydd y mae modd i ni eu datblygu ymhellach:**

A. **Drwy ein trefniadau adrodd mae angen i ni ddangos yr effaith rydyn ni'n ei chael ar ein cymunedau yn well.**
B. **Mae angen i ni gynyddu'r defnydd o ddata a throi hyn yn wybodaeth ystyrlon, p'un ai fel hyn rydyn ni'n cymharu ag eraill neu i lywio sut mae modd newid gwasanaethau (h.y. dysgu gan eraill) i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn hefyd yn cefnogi craffu effeithiol parhaus.**

## 3. Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg

Cynllunio Ariannol

Diweddarodd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a chyflwynodd y Cynllun diwygiedig gerbron y Cabinet a'r Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ym mis Medi 2023. Cyflwynwyd adroddiadau trosolwg i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 28 Medi 2023 a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2023, gan roi cyfle i graffu ac i randdeiliaid ddeall y sefyllfa ariannol, risgiau a chyfleoedd a ragwelir gan y Cyngor.

Mae'r diweddariadau i CATC y Cyngor wedi cefnogi'r canlynol yn gyson:

- Nodi bylchau cyllidebol a ragwelir ar gyfer y dyfodol (gan ystyried gofynion gwariant amcangyfrifedig a lefelau ariannu) sydd wedi llywio gofynion arbedion yn gywir a chefnogi rhaglen o welliant a buddsoddiad sy'n gynaliadwy ac wedi'i thargedu.
- Asesiad parhaus ac adroddiadau cyhoeddus a chraffu o lefelau'r cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys trosolwg manwl o gronfeydd wrth gefn y Cyngor a adroddwyd i'r Cyngor llawn ochr yn ochr â diweddaru'r CATC ar 20 Medi 2023. Mae'r dull cynaliadwy o ailgyflenwi a defnyddio cronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor wedi galluogi buddsoddiad unwaith ac am byth ychwanegol ym meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol; ar gyfer 2023/24 roedd hyn yn gyfanswm o £27.022 miliwn. Cytunwyd arno gan y Cyngor llawn ar 20 Medi 2023 (£7.730 miliwn) a 6 Mawrth 2024 (£19.292 miliwn). Cyfrannodd y buddsoddiad untro ychwanegol, ynghyd ag adnoddau eraill a ddyrannwyd, at fuddsoddiad gwariant cyfalaf o £169 miliwn ar gyfer 2023/24.
- Pennu a chyflawni cyllidebau refeniw cytbwys.

Mae cyflwyno'r deilliannau uchod yn gyson yn rhoi sicrwydd ynghylch cadernid y trefniadau sydd ar waith ac ymrwymiad amlwg i flaenoriaethu adnoddau i feysydd y Cynllun Corfforaethol.

Daw'r Cynllun Corfforaethol newydd ar adeg o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus a phwysau ar ein gwasanaethau statudol a dewisol. Ni fydd hi'n bosibl cyflawni'r cynllun heb newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae angen inni drawsnewid ein gwasanaethau a sicrhau bod ein cymunedau yn cymryd rhan yn y broses yma. Bydd hyn yn her, ond yn un y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gofleidio (a buddsoddi ynddo gydag adnoddau staffio) i gyflawni newid a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r rhai sydd eu hangen. Agwedd allweddol ar gyflawni newid trawsnewidiol fydd adolygu'r data sydd gan y Cyngor. Mae angen i ni ddefnyddio data'n effeithiol i lywio penderfyniadau. Bydd angen i ni hefyd ymchwilio a gweld beth mae eraill yn ei wneud.

**Mae trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor wedi'u gwreiddio'n dda ac maen nhw wedi darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni. Yng ngoleuni'r pwysau presennol ar gyllid cyhoeddus rydyn ni'n gwybod**

**bod heriau sylweddol o'n blaenau. Mae'r meysydd i'w gwella a nodir yn 'Cynllunio strategol a dull gweithredu', sef pwyntiau A, B ac C, hefyd yn berthnasol i 'Cynllunio Ariannol'.**

Cyflawniad

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-24 yn nodi sut y cyfrannodd blaenoriaethau/amcanion llesiant y Cyngor at y saith Nod Llesiant cenedlaethol yn ystod 2023/24. Cytunwyd ar y Cynllun Corfforaethol newydd gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024. Mae'r trefniadau Rheoli Cyflawniad yn ymgorffori cyflwyno'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn y prosesau hunanwerthuso, cynllunio, cyflawniad yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn a phrosesau adrodd am risgiau strategol drwy ddull pragmatig a chymesur. Rydyn ni'n parhau i wneud mwy a gwell defnydd o'r ystod o ddata sefydliadol, gwybodaeth a gallu digidol i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a chryfhau gweithrediad yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy fel eu bod nhw'n gyson ar draws holl wasanaethau a phrosiectau'r Cyngor. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran Datblygu Cynaliadwy yr adroddiad yma.

Ym mis Mai 2023 daeth adroddiad Archwilio Mewnol ar y trefniadau Rheoli Cyflawniad i'r casgliad bod 'system lywodraethu gadarn ar y cyfan, a rheoli risg a rheolaeth ar waith….' Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad risg isel mewn perthynas â'r Strategaeth Cynnwys. Ystyriwyd canlyniad yr archwiliad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2023. Roedd y canfyddiadau'n gyson â'n hasesiad ein hunain fel y nodwyd yn ein hunanwerthusiadau blaenorol.

Fel rhan o waith cenedlaethol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru, roedd y Cyngor hefyd yn destun adolygiad o *'Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth*'. Ystyriwyd yr adroddiad lleol a'n hymateb gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2024. Roedd casgliad yr Archwiliad yn nodi '*nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i uwch-arweinwyr yn gyffredinol yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor.'* Mae'r canfyddiad yma'n cyd-fynd yn fras â chanfyddiadau'r Cyngor ei hun a nodir yn hunanwerthusiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22 ac yn fwy diweddar yn hunanwerthusiad 2022/23 a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023 a gan Gyfarfod Llawn y Cyngor ym mis Ionawr 2024. Mae'r gwaith i gryfhau ac ehangu'r ffocws a'r amlygrwydd ar effaith ein gwaith yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol newydd. Gwyddom fod angen inni wella'r ffordd rydyn ni'n adrodd sut y mae ein gwasanaethau wedi cael effaith ar ein cymunedau, ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn ni'n gweithio i fynd i'r afael ag ef. Bydd y gwaith yma hefyd yn ystyried yr adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â '*Cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy*'.

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn glir mai *dim ond Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda sy'n gallu cyflawni ein pedwar amcan Llesiant a'n blaenoriaethau. Mae hynny'n golygu Cyngor sydd â diwylliant sefydliadol cadarnhaol, sy'n gwerthfawrogi ei staff, yn rheoli ei adnoddau'n gynaliadwy ac yn ddoeth ac sy'n ceisio gwella'n barhaus yr hyn a wnawn i gael yr effaith fwyaf ar drigolion.*

- **Mae fframwaith rheoli cyflawniad y Cyngor yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gyflawniad. Mae'r maes ar gyfer gwella a nodir yn 'Llywodraethu a Chraffu', sef pwynt A, hefyd yn ymwneud â 'Cyflawniad'.**

Ceir rhagor o fanylion yn hunanwerthusiad y Gwasanaeth Cyllid a Rheoli cyflawniad.

**Rheoli Risg**

Mae'r Cyngor yn parhau â'i ddull clir o reoli risg, fel sydd wedi'i nodi yn ei Strategaeth Rheoli Risg. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys ei ddiben mewn perthynas â risg, h.y. rhoi *' …sicrwydd annibynnol i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth mewnol'* ac wedi'i danategu gan gyfrifoldebau penodol.

Mae risgiau strategol y Cyngor yn cael eu hadolygu, eu herio a'u monitro gan Uwch Reolwyr y Cyngor a'r Arweinwyr Risg. Mae hyn yn cynnwys adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risgiau Strategol i sicrhau bod risgiau strategol y Cyngor yn berthnasol ac yn amserol. Yn y cyd-destun yma, cafodd Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i diweddaru eu hadrodd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 12 Hydref 2023.

Yn ystod 2023/24, parhawyd i adolygu, monitro a diweddaru'r Gofrestr Risgiau Strategol yn ffurfiol yn rhan o drefniadau Adroddiad Cyflawniad chwarterol y Cyngor i'r Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu amrywiol, gyda diweddariadau penodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae modd bwrw golwg ar ddiweddariad Chwarter 2 a gafodd ei gyflwyno yn y cyfarfod diweddaraf ar 27 Chwefror yma, at ddibenion enghreifftiol. Bydd angen cofrestr risgiau strategol newydd ar gyfer 2024/25 yn unol â Chynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. Bydd y risgiau strategol i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael eu nodi a bydd hyn yn helpu i lywio'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r Amcanion Llesiant.

Cynhaliwyd adolygiad Archwilio Mewnol o drefniadau rheoli risg strategol y Cyngor yn ystod 2023/24 a ddaeth i'r casgliad *'Fe wnaethom ni adolygu sampl o bedwar risg ar y Gofrestr Risgiau Strategol a chanfod bod y trefniadau rheoli risg ar gyfer pob un yn gadarn. Mae barn Sicrwydd Sylweddol wedi'i rhoi.'* Adroddwyd ar y canlyniad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae modiwl e-ddysgu newydd ar Reoli Risg wedi'i ddatblygu, ac mae'r modiwl yn cynnwys Fideo 15 munud o hyd ac yn esbonio trefniadau'r Cyngor a'i ddull o ymdrin â Risg. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei gyflwyno'n llawn yn ystod 2024/25.

Ar lefel weithredol, mae risgiau gwasanaethau'n parhau i gael eu monitro a'u rheoli gan swyddogion arweiniol y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn rhan o drefniadau rheoli cyflawniad lleol.

Mae rheoli risg yn parhau i fod yn arfer sydd wedi'i wreiddio ar draws y Cyngor, ac mae hyn yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i wasanaethau.

**Mae dull y Cyngor o reoli risg yn cefnogi darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein dinasyddion. Bydd angen datblygu cofrestr risgiau strategol newydd ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu'r risgiau wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol newydd. Does dim angen unrhyw feysydd i'w gwella ar hyn o bryd.**

## 4. Adnoddau Dynol/Cynllunio Gweithlu

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ionawr 2023, mae gwaith yn parhau o ran rhoi'r Strategaeth Adnoddau Dynol 2023-28 a'r Cynllun Gweithlu 2023-28 mwy manwl ar waith. Gyda'i gilydd, mae'r strategaeth a'r cynllun gweithlu yn nodi'r pileri strategol a'r themâu gweithredol i'w cyflawni ar draws gwasanaethau'r Cyngor gan weithio gyda'i gilydd i alluogi diwylliant sefydliadol cadarnhaol, datblygiad personol, cymorth ac adleoliad er mwyn cyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor.

Mae arweinyddiaeth yn amlwg yn elfen bwysig o gyflawni'r maes gwaith yma. Cydnabuwyd sefydlogrwydd a chryfder yr arweinyddiaeth gan staff mewn arolwg staff a ystyriwyd gan Uwch Reolwyr y Cyngor ym mis Tachwedd 2023. O’r staff a ymatebodd,

- Roedd 65% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (*i lawr o 75%)* fod Rhondda Cynon Taf yn Gyngor cryf sy'n arwain y ffordd mewn llawer o wasanaethau.
- Doedd 27% ddim yn cytuno nac yn anghytuno (*i fyny o 19%*).
- Roedd 7% (*i fyny o 5%*) yn gyfan gwbl, naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Er nad ydyn ni'n hunanfodlon, mae'r canfyddiadau yma'n parhau i roi rhywfaint o sicrwydd bod staff yn cydnabod arweinyddiaeth gref ar draws ei Reolwyr ac Aelodau. Caiff hyn ei brofi ymhellach wrth i'r Cyngor fynd i'r afael â'r heriau ariannol sydd o'i flaen a byddwn ni'n parhau i ddatblygu a darparu'r arweinyddiaeth gref a gweladwy yma.

Mae’r cynnydd yn erbyn y pedwar nod sydd wedi’u cynnwys yn y Strategaeth a nodir uchod wedi’u crynhoi isod:

**Nod 1: Gwaith arwain a rheoli cynhwysol a chynaliadwy i gyflawni blaenoriaethau**

Cynhaliwyd adolygiad o gyrsiau arweinyddiaeth a rheoli a chafodd gwelliannau eu gwneud i gyrsiau presennol i fodloni anghenion sefydliadol, yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant newydd. Er enghraifft, cynnal adolygiadau 1-i-1 ac adolygiadau cyflawniad effeithiol. Mae sesiynau gwybodaeth i reolwyr wedi'u cynnal ac mae cymorth yn parhau i gynorthwyo rheolwyr i wreiddio'r Gymraeg yn eu meysydd gwasanaeth.

Bu rhywfaint o oedi gyda ffrydiau gwaith data o ran gwneud data gweithlu’n fwy hygyrch i reolwyr ac mae gwaith ar y gweill i wella a hwyluso mecanweithiau adrodd ar systemau, sy’n angenrheidiol i gefnogi gwaith ar draws holl nodau’r strategaeth, ac ar gyfer datblygu meincnodi mwy effeithiol gyda sefydliadau eraill.

**Nod 2: Gweithlu ymroddedig, sy'n cyflawni'n dda**

Mae'r mecanweithiau presennol i gefnogi dysgu wedi parhau, wedi'u hategu gan ffynonellau hyfforddiant a ariennir yn allanol megis BSL (iaith arwyddion Prydain) a rheoli prosiectau.

Roedd adborth gan staff yn nodi y byddai modd gwella cyfathrebu ymhellach a bydd hyn yn parhau i gael sylw, gan gynnwys trwy gyflwyno cylchlythyr staff.

Cafodd y broses Gorfforaethol ar gyfer adolygu cyflawniad unigol ei hailgyflwyno'n ffurfiol ar draws y Cyngor, gyda hyblygrwydd ar gyfer dulliau sy'n benodol i wasanaeth lle mae'r rhain yn ychwanegu gwerth. Roedd cymorth pwrpasol ar gael gan AD ar gyfer meysydd gyda heriau penodol. Mae cofnodion iTrent ar hyn o bryd yn dangos cyfraddau cydymffurfio o 59% ar draws y Cyngor. Mae'n bosibl bod elfen o dangofnodi oherwydd bod rheolwyr yn methu â chofnodi adolygiadau ar y system. Roedd y rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio gan reolwyr yn cynnwys diffyg amser/capasiti a

newidiadau i wasanaethau. Bydd y meysydd gwasanaeth sydd â'r lefel isaf o gydymffurfiaeth yn cael eu targedu ar gyfer cymorth gan y garfan AD. Roedd adborth staff a rheolwyr gan y rhai a gwblhaodd y broses yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae gwelliannau wedi'u gwneud yn seiliedig ar feysydd a nodwyd. Ar gyfer 2023/24 rydyn ni wedi bod yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth, ond dros amser bydd hyn yn symud i gefnogi gwasanaethau i wireddu buddion ychwanegol megis dadansoddi hyfforddiant tîm a chynllunio olyniaeth.

Parhawyd â'r gwaith o gyflwyno swyddogaethau pellach y system iTrent, gan gynnwys cyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer gwyliau blynyddol i ddefnyddwyr TGCh. Mae'r gwaith o'i gyflwyno i ddefnyddwyr sydd ddim yn defnyddio TGCh yn parhau i symud ymlaen yn 2024/25. Mae yna agweddau / swyddogaethau o'r system iTrent sydd ddim yn cael eu defnyddio'n llawn eto, a rhaid inni edrych i adolygu'r defnydd llawn o'r system i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r swyddogaethau. Bydd hyn yn gwella'r data sydd gyda ni a fydd wedyn yn ein galluogi i ddefnyddio'r data i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion allweddol yn ymwneud â hyfforddiant, er enghraifft.

**Nod 3: Denu a chadw staff er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol**
Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein brand gweithwyr, ehangu ein hysbysebu (e.e. trwy dudalennau gwe estynedig a defnydd o LinkedIn) a chynnal ymyriadau wedi'u teilwra i gefnogi recriwtio a chadw i ddiwallu anghenion penodol, er mae gostyngiad mewn adnoddau wedi cyfyngu ar faint y gwaith pwrpasol. Er enghraifft:

- Mae'r strategaeth gweithlu Gwasanaethau i Blant yn parhau i gael ei chyflwyno gyda chymorth gan swyddog penodedig, gan gynnwys negeseuon wedi'u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol. I gefnogi cadw staff, mae cyfweliadau ymadael a chyfweliadau cynefino bellach ar waith yn y Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau i Oedolion.
- Mae ein gwefan hefyd wedi'i datblygu ar gyfer y rhai sy'n chwilio am gyfleoedd o ran gyrfa yn ein hysgolion.

Mae adolygiad o brosesau recriwtio ar y gweill ar hyn o bryd i nodi meysydd lle mae modd gwella, symleiddio a chyflymu prosesau.

Mae'r Cyngor yn parhau i herio a chryfhau ei weithdrefnau o ran recriwtio, cadw a hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg, gyda chynllun cyfweliad gwarantedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg lefel 3 neu'n uwch os caiff y sgiliau hanfodol eu bodloni.

Yn ogystal â recriwtio a chadw effeithiol, mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni yn golygu ein bod ni'n gwneud mwy (neu'r un peth) â llai o bobl. Bydd angen inni adolygu ein trefniadau cynllunio olyniaeth fel ein bod ni'n sicrhau bod gyda ni staff mewn swyddi a all gyflawni ar ein rhan.

**Nod 4: Amlhau presenoldeb i'r eithaf a chefnogi lles staff**
Cafodd trefniadau gweithio hybrid newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mai 2023 eu cyflwyno ym mis Medi 2023. Mae 'Addas at y Dyfodol', ein Cynllun Gweithle, a'r Model Gweithredu a Pholisi Trefniadau Gweithio yn integreiddio'r ymagweddau at y gweithlu, swyddfeydd a materion digidol i ddarparu cyfleusterau addas i'r diben i staff sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae datrysiad digidol wedi'i dreialu yn Llys Cadwyn, i roi'r offer digidol angenrheidiol ar waith i ategu trefniadau gweithio hybrid (er enghraifft, cyfleuster cadw lle ar-lein ar gyfer ystafelloedd cyfarfod). Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i gyflwyno'r dull yma ar draws safleoedd eraill.

Mae strategaeth llesiant y gweithlu wrthi'n cael ei datblygu i gefnogi gweithlu iachach a mwy gwydn, a fydd yn cael ei chyflwyno i uwch reolwyr y Cyngor i'w chymeradwyo yn ystod 2024/25. Mae gwaith hefyd ar y gweill i fireinio cymorth iechyd galwedigaethol ac i roi dull ar waith i staff o ran Niwed i Weithwyr Mae Modd ei Osgoi ('Avoidable Employee Harm' - AEH) yng nghyd-destun achosion ymddygiad.

Ceir rhagor o fanylion yn Hunanwerthusiad y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

**Mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn darparu swyddogaeth allweddol i bob gwasanaeth ar draws y Cyngor. Meysydd y mae modd i ni eu gwella ymhellach:**

A. **Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio arbenigedd AD ar y Meysydd Gwasanaeth hynny sydd wedi nodi recriwtio a chadw staff fel risg allweddol.**
B. **Mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma i roi'r system iTrent ar waith (h.y. y System Cyflogres ac AD integredig). Bydd hyn yn caniatáu i'n rheolwyr gyrchu ac adolygu cyfres ehangach o ddata i fesur cydymffurfiaeth, er enghraifft, adolygiadau datblygiad personol a'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant.**
C. **Mae angen inni barhau i ddatblygu ein trefniadau cynllunio olyniaeth i gefnogi cynllunio gwasanaethau tymor canolig i hirdymor a gwydnwch.**

## 5. Rheoli Asedau

Mae ystad eiddo'r Cyngor yn cynnwys tua 2,359 o asedau tir ac adeiladau gwerth £885 miliwn (ym Mawrth 2024, yn amodol ar archwiliad) ac mae'n cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, depos a safleoedd gwaredu gwastraff, mynwentydd, amlosgfeydd, cartrefi henoed, theatrau, ac eiddo buddsoddi. Yn ogystal â'n hasedau adeiledig, o ystyried yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor, mae'n gweithredu nifer fawr ac amrywiol o gerbydau. Mae mwy na 400 o gerbydau'n cael eu defnyddio.

Cafodd y diweddariad o gynnydd ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ei drafod gan y Cabinet ar 20 Tachwedd 2023. Mae Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd ar gyfer 2024-2030 wedi'i ddatblygu yn ystod 2023/24 ac mae disgwyl iddo gael ei drafod gan y Cabinet yn yr hydref 2024, yn dilyn mabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ym mis Ebrill 2024. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd yn dangos sut y bydd yn cefnogi cyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor a sut y bydd, trwy reoli ystad tir ac eiddo'r Cyngor dros y 6 blynedd nesaf, yn cyfrannu at 'Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda' gan gynnwys *rheoli ein gweithlu, cyllidebau, tir, adeiladau, fflyd a gwybodaeth i wneud y mwyaf o'n heffeithlonrwydd a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'n cymunedau, i fyd natur a'r amgylchedd*. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol hefyd yn parhau i ystyried yn gliriach yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy i lywio a siapio ei asedau yn dilyn y canfyddiadau a ddeilliodd o adroddiad Archwilio Cymru 21-22 Llamu ymlaen – Rheoli Asedau Strategol, gyda diweddariad ar argymhellion a ddarparwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei lywio / ei danategu ar lefel gwasanaeth trwy Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth.

- Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn sbardun strategol i helpu'r Cyngor i adolygu ac o bosibl ailgynllunio ei wasanaethau. Bydd sicrhau bod yr asedau cywir yn y lle cywir i helpu i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon yn flaenoriaeth ac yn her glir i'r Cyngor. Bydd angen newid trawsnewidiol i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol newydd, a bydd defnyddio ein hasedau'n effeithiol yn allweddol i'n helpu i gyflawni hyn.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu ein Cynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor: Addas at y dyfodol 2023-2030 a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai 2023 i wneud defnydd gwell o'n hasedau ffisegol i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid wrth i ni ymateb i anghenion ein trigolion a'n cymunedau. Rydyn ni hefyd yn parhau â'n gwaith i ddatgarboneiddio ein defnydd o ynni, ein hystad a'n fflyd drwy ein Cynllun Datgarboneiddio. Cafodd diweddariad mwyaf diweddar y cynllun ei drafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Newid yn yr Hinsawdd ym mis Tachwedd 2023.

Yn ehangach, rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu'r defnydd cymunedol o'n hysgolion ac yn parhau i sicrhau bod tir ac adeiladau ar gael ac yn gynaliadwy i'w defnyddio gan y gymuned gan ymdrechu i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol trwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol trwy fenter RhCT Gyda'n Gilydd. Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn galluogi'n cymunedau i fod yn berchen ar a / neu reoli cyfleusterau nad oes eu hangen ar y Cyngor neu a fyddai o bosibl yn cael eu cau neu eu gwaredu fel arall. Yn rhan o'r gwaith yma, mae'r broses yn ceisio gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol, h.y. gwerth y pwysigrwydd y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau cadarnhaol maen nhw'n eu profi yn eu bywydau. Mae enghreifftiau o Achosion Llwyddiannus o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn dangos yr ystod o weithgarwch ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae gwybodaeth yn ymwneud â Throsglwyddo Asedau Cymunedol ar gael ar dudalen we Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol y Cyngor ac mae'n cynnwys cyfleoedd cyfredol o ran trosglwyddo tir ac adeiladau.

Dyma'r pethau allweddol sydd i'w cyflawni mewn perthynas â rheoli ein hasedau:

- Cafodd Pencadlys Dinesig y Cyngor a Siambrau'r Cyngor ei symud i 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, gan ddarparu gwell hygyrchedd i drigolion a staff ar drafnidiaeth gyhoeddus a chreu/cynyddu nifer yr ymwelwyr yng Nghanol y Dref a helpu i gefnogi busnesau lleol. Mae hyn hefyd wedi caniatáu i safle Cwm Clydach gael ei wagio i wneud lle ar gyfer ysgol newydd.
- Cwblhau'r gwaith o adnewyddu ac ailfodelu swyddfeydd yn Nhŷ Elái gan drawsnewid yr amgylchedd gwaith.
- Bwrw ymlaen â gwaith i resymoli swyddfeydd eraill a sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys: Rock Grounds, Aberdâr; Prif Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Rhondda, Tonypandy; Tŷ Sardis, Pontypridd; a Thŷ Trevithick, Abercynon.
- Parhau i leihau ôl troed swyddfeydd. Mae ôl troed swyddfeydd 2023/24 wedi rhagori ar y targed gwaelodlin a osodwyd (gostyngiad o 20% erbyn 2020), gan gyflawni gostyngiad o 30% yn 2023/24. Rydyn ni'n parhau ar y trywydd cywir i leihau arwynebedd mewnol gros yr arwynebedd llawr 43% erbyn 2027, fel y nodir yng Nghynllun Gweithle Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor: Addas at y Dyfodol 2023-2030.
- Mae defnydd ynni yn arwain at gostau refeniw sylweddol i'r Cyngor. Dechreuodd gwaith yn ystod 2023/24 i adolygu'r safleoedd hynny sydd â'r defnydd mwyaf o ynni. Y nod oedd adolygu'r holl ddefnydd a sefydlu mesurau lleihau ynni. Arweiniodd hyn at allbynnau da, ac mae angen parhau â'r gwaith i'r dyfodol, gan fod hyn nid yn unig yn arbed arian ond hefyd yn lleihau ôl troed carbon y Cyngor.

Mae rhagor o fanylion yn Hunanwerthusiad Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor.

**Mae gan y Cyngor hanes da o reoli ei asedau, ond rydyn ni'n gwybod bod rhagor gyda ni i'w wneud gan y gallai'r ffordd rydyn ni'n defnyddio ein hasedau fod yn hanfodol i'r ffyrdd rydyn ni'n trawsnewid ein gwasanaethau. Mae angen inni wneud y defnydd gorau o'n hasedau a sicrhau ein bod ni'n eu defnyddio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cymunedau. Meysydd y mae modd i ni eu gwella ymhellach:**

A. **Mae angen inni sicrhau bod gyda ni'r asedau cywir yn y lle cywir a pheidio â chael ein cyfyngu gan ym mhle mae ein hasedau ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth rydyn ni'n ei gadw ac yn ei adnewyddu am anghenion a gofynion ein trigolion, heddiw ac yn y dyfodol, yn llywio'r broses yma.**
B. **Ar gyfer ein holl asedau adeiledig, mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llawn ac yn cael eu rhedeg yn effeithlon, ac wedi'u hategu gan ein trefniadau monitro defnydd ynni.**

## 6. TGCh a Gwasanaethau Digidol

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cryf o ran cefnogi newidiadau i'r sefydliad a gwasanaethau drwy gyflawni ei Strategaeth Ddigidol 2022 – 2026. Mae ein hymagwedd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ac mae'n gyson â'r gofynion a nodir yn Strategaeth Ddigidol Genedlaethol Cymru.

Mae'r Strategaeth Ddigidol, y cytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Mawrth 2022, yn cyflawni Gweledigaeth y Cyngor o fod yn 'Gyngor sy'n cael ei lywio yn ddigidol', ac mae'n cynnwys pedair ffrwd waith:

1. Atebion Digidol a Dylunio Gwasanaethau
2. Deallusrwydd a Mewnwelediad Data
3. Sgiliau Digidol, Dysgu a Chynhwysiant
4. Seilwaith Digidol

Ar hyn o bryd rydyn ni'n datblygu adroddiad diweddaru canol tymor ar ein cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth a chryfhau ei threfniadau llywodraethu, adrodd a chraffu.

Yn y cyfamser, mae enghreifftiau o sut mae themâu'r strategaeth yn cael eu cyflawni yn cynnwys:

**1. Atebion Digidol a Dylunio Gwasanaeth**

Parhau i ddefnyddio atebion digidol i gynyddu hunanwasanaethau digidol, gwella profiad digidol cwsmeriaid, lleihau baich gweinyddol, awtomeiddio llif gwaith ac ysgogi ein gweithlu. Nod y gwaith yma yw gwneud y mwyaf o adnoddau trwy brosesau a mynediad at wasanaethau mwy effeithlon a symlach. Mae'r prosiectau'n cynnwys datrysiadau Canolfan Alwadau wedi'u hintegreiddio â llwyfan CRM 'GOSS Digital Platform', i wella gwasanaethau ar-lein i drigolion a systemau 'swyddfa gefn' i staff. Bydd y Llwyfan Digidol newydd yn galluogi gwell profiad i drigolion, drwy dechnoleg integredig newydd a fydd yn ffurfio 'drws ffrynt' digidol y Cyngor gan ddarparu mynediad i Wasanaethau'r Cyngor. Bydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer 2024/25 yn ceisio technolegau pellach fel teleffoni, e-bost, gwe-sgwrs, BOTs, Deallusrwydd Artiffisial a ffurflenni ar-lein sy'n sbarduno prosesau awtomataidd trwy Broses Awtomatiaeth Robotig (RPA).

Mae cywirdeb yr wybodaeth sy'n cael ei chadw ar ein gwefan yn allweddol i lwyddiant y gwaith yma. Rydyn ni'n gwybod bod yna fylchau gan rai rhannau o'n gwefan, neu nad yw rhywfaint o'r wybodaeth yn gyfredol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fyddwn ni'n ceisio cynyddu hunanwasanaethau digidol, gwella profiad digidol cwsmeriaid ac ymchwilio i'r broses o gyflwyno deallusrwydd artiffisial wrth ryngweithio â chwsmeriaid. Er ein bod ni wedi dechrau adolygu'r posibiliadau y gall deallusrwydd

artiffisial eu cyflawni i ni, mae'n ymddangos bod rhai Cynghorau wedi gwneud cynnydd pellach (Cyngor Derby er enghraifft). Mae'n rhaid i ni gwrdd â'r sefydliadau hyn a dysgu oddi wrthyn nhw.

Wrth ddarparu gwasanaethau digidol sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, mae ein rhaglen waith Digidol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor, er enghraifft:

- Pobl – symud ymlaen â Rheoli Achosion Digidol yn ymwneud â Diogelu Amlasiantaeth a chefnogi mentrau cymunedol e.e. 'Dydd Gwener Digidol' a Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Rhondda Cynon Taf i helpu rhagor o bobl i ddatblygu eu sgiliau i ddeall a chael mynediad at TGCh. Drwy gyflwyno proses ddigidol newydd, roedd modd gweinyddu'r Cynllun Costau Byw yn effeithlon i 8,000 o deuluoedd er mwyn sicrhau bod y teuluoedd mwyaf anghenus yn cael cymorth ariannol hawdd ei gyrchu ac mewn da bryd.
- Lleoedd – gweithredu technoleg ddigidol i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ar gyfer casgliadau gwastraff a chefnogi'r Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng i adolygu a gwella cydymffurfiaeth diogelu data ar draws y Fwrdeistref Sirol. Gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru, prynwyd a gosodwyd rhwydwaith sirol o byrth LoRaWAN a synwyryddion penodol 'Y Rhyngrwyd Pethau' (IoT) fel modd o fonitro nifer yr ymwelwyr a llif traffig dynol yng nghanol trefi er mwyn llywio datblygiadau canol trefi yn y dyfodol. Hefyd, prynwyd 20 o synwyryddion monitro ansawdd aer cost isel hawdd eu gosod, a chawson nhw eu gosod mewn ardaloedd o draffig uchel i fonitro gronynnau llygryddion a llywio mesurau priffyrdd a llygredd yn y dyfodol.
- Ffyniant - Cyflwyno systemau a chyfarpar TG newydd i gefnogi sgiliau digidol yn y cwricwlwm addysg newydd a darparu cysylltiad di-wifr cyhoeddus am ddim mewn tua 90 o adeiladau'r Cyngor a chymunedol ac yn ein saith prif Ganol Trefi. Cafodd system Cynllun Grant Tai Gwag genedlaethol ei dylunio a'i rhoi ar waith ar ran Gwasanaethau Ffyniant Rhondda Cynon Taf i weinyddu grantiau i adnewyddu eiddo gwag a chynyddu nifer y tai sydd ar gael ar draws Rhondda Cynon Taf a gweddill Cymru. Cafodd cyfres o brosesau ymgeisio am grant ac offer brysbennu eu cyflwyno hefyd i gynorthwyo'r carfanau Adfywio i weinyddu grantiau lleol a chenedlaethol yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i berchnogion tai cymwys, i'w cynorthwyo gyda gwaith uwchraddio systemau gwresogi a gwaith adnewyddu cartrefi eraill, heb y broses gymeradwyo hirfaith hanesyddol. Cafodd gwefan Twristiaeth newydd ei dylunio a'i lansio, gan ddenu rhagor o ymwelwyr i Rhondda Cynon Taf, er budd atyniadau'r Cyngor a busnesau lleol.

***2.*** **Deallusrwydd a Mewnwelediad Data**

- Parhau i gryfhau ein hymagwedd at fewnwelediad data a gwybodaeth ar lefelau gwasanaeth a chorfforaethol er mwyn monitro cyflawniad a chraffu arno a chael y gwerth mwyaf posibl o'n data: gan gynnwys drwy ddatblygu a defnyddio Dangosfyrddau Data. Mae'r dull yma'n galluogi gwasanaethau i ddefnyddio data sy'n amserol, yn gywir, yn berthnasol ac yn ddibynadwy. Er enghraifft, nodi casgliadau gwastraff a fethwyd a rheoli synwyryddion llifogydd. Yn gorfforaethol, mae Dangosfyrddau Rheolaeth Ariannol yn rhan o lyfrau cyllideb gwasanaeth wedi'u datblygu, a bydd cam datblygu Dangosfwrdd monitro'r Cynllun Corfforaethol yn ystod 2023/24 yn trosglwyddo i'r Cynllun Corfforaethol newydd.
- Treialu'r defnydd o synwyryddion 'Y Rhyngrwyd Pethau' (IOT) a chasglu data o ddyfeisiau a gwrthrychau ffisegol i ddarparu gwybodaeth gan gynnwys nifer yr ymwelwyr, Ansawdd Aer, byw â chymorth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a rheoli gwastraff.

**3. Sgiliau Digidol, Dysgu a Chynhwysiant**

- Sicrhau bod safonau hygyrchedd yn cael eu hadolygu a bod ein gwefan yn cael ei haddasu yn unol â hynny, a darparu llinell synhwyraidd i'r rheini sy'n drwm eu clyw.

- Diweddaru sgiliau llawer o staff nad ydyn nhw'n rhai digidol i ddefnyddio technoleg yn rhan o'u swydd, gan roi sgiliau trosglwyddadwy iddyn nhw i'w defnyddio yn eu bywydau personol.
- Cyfleoedd datblygu parhaus a chymorth i Aelodau Etholedig gynnal eu rhyngweithio gyda'r Cyngor ac etholwyr drwy atebion digidol.
- Cryfhau datblygiad a defnydd data ac ymchwil cysylltiedig a chapasiti digidol a'r gallu i wreiddio'r defnydd o ddata i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn rhan o'r cais gwerth £5 miliwn a ariennir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) gyda'r nod o leihau Anghydraddoldeb Iechyd a gwella Lles. Mae'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC), yn anelu at wella capasiti a gallu o ran ymchwil a dadansoddi o fewn y Cyngor, gan ddatblygu diwylliant o ddefnyddio data i lywio penderfyniadau a chanlyniadau iechyd trigolion yn y dyfodol yn well ar gyfer ein trigolion.

**4. Seilwaith Digidol**

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag asedau gwybodaeth, gan sicrhau bod seilwaith TGCh yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn ddiogel, bod prosesau busnes yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a bod gweithgarwch sicrwydd seiber yn cael eu monitro, eu herio a'u craffu drwy'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth a Seibergadernid.
- Amnewid waliau tân rhwydwaith craidd sy'n darparu platfform mwy modern gyda rhagor o nodweddion diogelwch ac sy'n caniatáu ar gyfer adferiad cyflymach ar ôl trychineb.
- Seilwaith rhwydwaith LORAWan i alluogi'r Cyngor i wneud y mwyaf o gyfleoedd, gan gynnwys peilot technoleg o'r 'Rhyngrwyd Pethau', gweler hefyd yr adran data a deallusrwydd uchod.
- Dileu a datgomisiynu seilwaith 'allan o gymorth' a chefnogi systemau allweddol.
- Sicrhau Cadernid Seiberddiogelwch trwy weithio'n barhaus i ddiogelu, atal a bod yn barod i ymateb yn effeithiol i ymosodiadau Seiber. Mae Asedau Gwybodaeth a Seiber Sicrwydd hefyd yn ymddangos fel risgiau strategol a gafodd eu monitro yng Nghofrestr Risgiau Strategol y Cyngor yn rhan o adroddiad cyflawniad chwarterol y Cyngor i'r Cabinet - mae risgiau 6 a 20 yn cyfeirio at hyn.

Mae set o egwyddorion sy'n cynnwys llwyfannau cadarn, diogel, seiber-wydn ac sy'n diogelu ein data a'n hasedau yn hanfodol i gyflawni'r strategaeth. Mae'r Strategaeth Ddigidol hefyd yn cynnwys Atodiad sy'n dangos sut mae'n cyfrannu at y saith nod Llesiant Cenedlaethol, a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn lleol, mae prosesau wedi'u hehangu i gofnodi'r defnydd o'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar yr adeg y mae gwasanaethau'n gwneud cais am gymorth Prosiect Digidol, ac rydyn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd wrth i ni ddatblygu ein dealltwriaeth. Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r offeryn Gwirio Cynnydd Dull o Weithio a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn parhau i gryfhau ein hymagwedd at gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Yn ystod 2023/24, yn rhan o'r archwiliad cenedlaethol o Strategaethau Digidol ledled Cymru, roedd Strategaeth Ddigidol Rhondda Cynon Taf yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru. Dyma oedd y canfyddiadau allweddol: *"Mae Strategaeth Ddigidol gyfredol y Cyngor yn rhedeg o 2022 i 2026 gyda'r uchelgais strategol o fod yn Gyngor gwirioneddol 'Digidol'. Tynnodd y Cyngor o ystod eang o ffynonellau ac ymgysylltu ag ystod o grwpiau eiriolaeth i lywio ei strategaeth ddigidol ond nid yw wedi cynnwys trigolion yn uniongyrchol wrth lunio ei ddull strategol. Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â'i Gynllun Corfforaethol a'i flaenoriaethau ei hun a hefyd rhai sefydliadau partner. Mae'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau i ariannu ei Strategaeth Ddigidol. Mae gan y Cyngor drefniadau clir ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni ei strategaeth ddigidol, ond nid yw'n glir sut y bydd yn gwerthuso ei effaith ac felly'n werth am arian."* Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid - Er mwyn deall anghenion dinasyddion yn well a'r rhwystrau posibl iddynt ddefnyddio technoleg ddigidol, dylai'r Cyngor gynnwys amrywiaeth lawn ei ddinasyddion wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol.
- Manteision monitro - Er mwyn deall effaith ei strategaeth ddigidol yn well ac i ba raddau y mae'n sicrhau gwerth am arian, dylai'r Cyngor nodi costau llawn prosiectau digidol unigol fel mater o drefn a sut y bydd yn asesu eu heffaith ac effaith gyffredinol ei ddull strategol.

Er mwyn cryfhau ymhellach y gwaith o lywodraethu a gweithredu'r Strategaeth Ddigidol yn ystod 2023/24, mae Llywodraethu Digidol wedi'i alinio â threfniadau trawsnewid gwasanaethau, sy'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer blaenoriaethu adnoddau digidol ac integreiddio'n well â chynlluniau a strategaethau ehangach y Cyngor.

Rydyn ni hefyd yn parhau i ddatblygu Strategaeth Ddata i ddarparu fframwaith cliriach ynghylch sut rydyn ni'n rheoli pob agwedd ar ein data. Rydyn ni ar hyn o bryd yn gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu Archwiliad Aeddfedrwydd Data sy'n diwallu ein hanghenion ni ac anghenion Cynghorau eraill ledled Cymru.

Rydyn ni'n parhau i wneud y mwyaf o fanteision gweithio'n lleol a rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth gydag enghreifftiau niferus gan gynnwys:
- Cymryd rhan weithredol yng Ngrŵp Cynghori Digidol Llywodraeth Leol Cymru Gyfan, sy'n cynnwys 22 o Gynghorau a Phrif Swyddog Digidol, sy'n trafod yn uniongyrchol yr heriau cyfun, yn rhannu gwersi ac yn cytuno ar flaenoriaethau digidol ar gyfer cyflawni cydweithredol sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o adnoddau, lleihau dyblygu a gwireddu buddion lluosog.
- Darparu gwasanaethau Canolfan Gyswllt h.y. adeilad, isadeiledd a llwyfan canolfan gontract lle mae staff Cwm Taf Morgannwg yn hwyluso archebion yn ystod y dydd a gwasanaethau y tu allan i oriau i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.
- Chwarae rhan arweiniol ledled Cymru o ran dod o hyd i system arall yn lle ein System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).
- Gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gaffael Canolfan Derbyn Larwm Digidol, gan fod y Ganolfan Derbyn Larwm yn ofyniad hanfodol i sicrhau parhad gwasanaeth parhaus i'n preswylwyr sy'n defnyddio'r Llinell Fywyd yn rhan o'r broses genedlaethol Trosglwyddo i Ddigidol.
- Arwain y Grŵp Safonau Technegol (TSG) o ran llywodraethu a chyflawni rhaglen drawsnewid Ysgolion Digidol HWB a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan alluogi holl ddisgyblion a staff addysgu'r Fwrdeistref Sirol i gael mynediad at adnoddau ar-lein.

Rydyn ni'n gwybod bod gyda ni ragor i'w wneud i ddangos tystiolaeth o effaith y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar ein trigolion, a hynny'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol trwy wasanaethau a gyda'n partneriaid. Rydyn ni hefyd yn parhau i gryfhau sut rydyn ni'n casglu ac yn asesu effaith ein gwaith.

Ceir rhagor o fanylion yn yr Hunanwerthusiad TGCh a Gwasanaeth Digidol.

**Mae gan y Cyngor hanes da o roi newid digidol ar waith, ond rydyn ni'n gwybod bod gyda ni ragor i'w wneud yn yr amgylchedd cyflym yma.**

- **Mae angen i ni barhau i newid yn gyflym ac archwilio technoleg megis Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen i ni hefyd barhau i archwilio'r hyn y mae eraill yn ei wneud a lle bo'n berthnasol, dysgu oddi wrthyn nhw.**

- **Mae angen i ni adolygu ein gwefan a sicrhau bod gwybodaeth y gofynnir amdani'n rheolaidd yn hawdd i'w chanfod ac yn gywir. Bydd modd i hyn helpu i wella profiad y cwsmer a lleihau nifer y galwadau sy'n cael eu derbyn gan ein canolfan alwadau gan ganiatáu iddyn nhw ganolbwyntio ar y galwadau pwysicaf. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'n trigolion dderbyn y gwasanaeth gorau posibl trwy 'fynd ar-lein'.**

## 7. Caffael a Chomisiynu

Rydyn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd at Gaffael Cynaliadwy, drwy ein Strategaeth Comisiynu, Caffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2021-24. O ystyried y gwaith rhagweithiol sydd wedi'i fuddsoddi yn y maes yma, rydyn ni mewn sefyllfa dda i addasu i'r newidiadau sydd ar y gorwel yn ystod 2024/25. Mae ein cynnydd yn gadarnhaol ar y cyfan, ac rydyn ni'n parhau i ymdrechu i wneud y mwyaf o'r gwerth, gan gynnwys y gwerth cymdeithasol, yn ein contractau.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau gwerth miliynau o bunnoedd i'r Cyngor, yn ogystal â pharatoi ar gyfer newid a'i gyflawni mewn perthynas â:

- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Y Ddeddf Caffael (sy'n disodli'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus) a fydd yn dod i rym yn nhymor yr hydref 2024
    - Codwyd ymwybyddiaeth holl reolwyr y Cyngor yn gynnar yn 2024 gyda chyflwyniad gan gydweithwyr Caffael Llywodraeth Cymru
- Ymgorffori a monitro Gwerth Cymdeithasol yn ein contractau
- Mynd i'r afael â'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael
- Anelu at wario cymaint â phosibl gyda busnesau lleol.

Yn 2023/24, roedd £232 miliwn o wariant y Cyngor gyda chyflenwyr ledled Cymru, gyda 66% o'r gwariant (£216 miliwn) gyda chyflenwyr o godau post CF, SA a NP. O'r cyfanswm gwariant, gwariwyd £83 miliwn gyda chyflenwyr o fewn y Fwrdeistref Sirol. Rydyn ni'n gwybod bod gyda ni ragor o waith i'w wneud o hyd i ddeall y marchnadoedd lleol a'r rhwystrau i dendro am waith, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd ein bas data o fusnesau lleol yn caniatáu i ragor o fusnesau lleol gofrestru eu manylion gyda ni.

Rydyn ni'n parhau i weithredu ein Strategaeth Comisiynu, Caffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2021-24 a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ym mis Mawrth 2022. Mae'r strategaeth a newidiadau i drefniadau contractio'r Cyngor yn cael eu llywio gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio *'geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol'.* Mae ein Strategaeth Comisiynu, Caffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau hefyd yn ymgorffori'r deg egwyddor a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru.

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu a gwella ein dull o ddarparu gwerth cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fesurau gwerth cymdeithasol gael eu cymhwyso i bob contract lle mae'r gwerth amcangyfrifedig yn fwy na £75,000. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi sicrhau ymrwymiad gan ein cyflenwyr i gyflawni 382 o ddeilliannau gwerth cymdeithasol.

Dyma enghreifftiau o gyflawniadau Gwerth Cymdeithasol gan gontractwyr yn 2023/24:

**Economaidd**

- Cafodd 131 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn eu creu a chafodd 72 o gyfleoedd prentisiaeth newydd eu creu o gontractau a ddyfarnwyd.
- Cafodd dros 6,000 o wythnosau o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu yn ogystal â 1,500 awr o fentrau hyfforddi/cymorth eu darparu gan ein contractwyr, gyda'r nod o greu cyfleoedd i bobl ddifreintiedig a gwella sgiliau.
- Ymrwymwyd i wario £24 miliwn gyda chadwyni cyflenwi lleol yn ystod oes ein contractau. Hyd yma, mae £9.7 miliwn eisoes wedi'i wario gyda'r gadwyn gyflenwi leol, gan wella'r economi leol ymhellach a chefnogi busnesau lleol.
- Cafodd dros 3,800 o oriau a 595 wythnos o gymorth wedi'u targedu at weithgareddau cwricwlwm ac addysg eu darparu hefyd.

**Amgylcheddol**

- Ymrwymwyd dros 726 awr a £14,000, gyda'r nod o gyflawni mentrau lleihau carbon, gan gynnwys gweithgareddau i hyrwyddo caffael cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd.
- Ar gyfer 2 o'n contractau adeiladu ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, cafodd 95% o'r gwastraff ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi a chafodd 85% o'r deunydd ei ailgylchu.

**Cymdeithasol a Diwylliannol**

- Darparwyd 966 awr o gymorth i fentrau cymunedol, gan gynnwys cefnogi cymunedau iachach, lleihau trosedd, gwella mannau gwyrdd a bioamrywiaeth.
- Cafodd £92,000 ei gyfrannu tuag at fentrau cymunedol a grwpiau cymunedol lleol, megis rhoddion banc bwyd Ymddiriedolaeth Trussell, noddi timau chwaraeon lleol, parseli bwyd i deuluoedd mewn ysgolion lleol, adnewyddu sefydliadau grwpiau cymunedol a chefnogi elusennau yn Rhondda Cynon Taf.
- Cafodd gwerth £90,000 ei roddi mewn perthynas â phrynu llyfrau/adnoddau addysgol i ysgolion lleol.
- Cafodd beiciau newydd a beiciau ail law eu rhoddi ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion yn Rhondda Cynon Taf.
- Cafodd basgedi iechyd a basgedi ffrwythau eu darparu yn ogystal â phecynnau 'Plant your Patch' i annog tyfu eich cynnyrch eich hun.
- Cafodd llechi/gliniaduron wedi'u hadnewyddu eu darparu i'w defnyddio mewn cynllun rhannu digidol cymunedol.
- Ymrwymwyd 2,056 awr i roi cymorth i bobl ifainc sy'n wynebu digartrefedd, gwirfoddoli mewn sesiynau codi sbwriel, glanhau afonydd a darparu sgyrsiau ysgol am Ecoleg a Bioamrywiaeth.

Er ein bod ni wedi gwneud cynnydd da o ran ein trefniadau gwerth cymdeithasol, mae ein hadroddiadau yn canolbwyntio ar yr allbynnau. Mae angen i ni ddatblygu'r trefniadau ymhellach i ddangos yr effaith ar unigolion a'n cymunedau.

Yn rhan o'n gwaith i ddatblygu gwell dealltwriaeth o Fentrau Cymdeithasol yng nghyd-destun Gwerth Cymdeithasol, fe wnaethom ni gomisiynu Cwmpas i sefydlu cwmpas Mentrau Cymdeithasol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddeilliodd o'r adroddiad, roedd modd i ni ddiweddaru Bas Data o Fusnesau Lleol y Cyngor gyda gwybodaeth mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol.

Eleni mae'r Cyngor hefyd wedi ennill achrediad fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol. Caiff ein holl Gyflenwyr a chontractwyr eu hannog i dalu o leiaf y cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr. Mae cymal

yn bodoli bellach yn nhrefniadau contract sy'n datgan - '*Mae CBS Rhondda Cynon Taf yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw gwirioneddol. Mae hyn yn golygu bod holl weithwyr y Cyngor yn derbyn isafswm cyfradd tâl fesul awr fel y gosodwyd gan y sefydliad Living Wage Foundation. Mae'r ymrwymiad yma'n ymestyn i'n cadwyn gyflenwi ac felly bydd cynigwyr yn sicrhau bod unrhyw weithwyr sydd wedi'u neilltuo i weithio ar unrhyw gontract dilynol o ganlyniad i'r tendr yma hefyd yn derbyn y cyflog byw o leiaf'*. Mae modd i unrhyw weithwyr yn y gadwyn gyflenwi sydd ddim yn derbyn Cyflog Byw Gwirioneddol hefyd adrodd am hyn trwy Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor lle bydd y mater yn cael ei ymchwilio. Does dim adroddiadau o'r natur yma wedi eu gwneud eleni.

Yn y cyfrifiad Ôl Troed Carbon ar gyfer 2022/23, caffael nwyddau a gwasanaethau yw cyfran fwyaf y Cyngor o ran ei Ôl Troed Carbon o hyd, a hynny'n 65% o allyriadau (67% yn 2021/22). O'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn, yr 'allyrwyr' uchaf o CO2e yw Adeiladu, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Bwyd a Diod a Gwasanaethau Cerbydau. Cyfanswm yr allyriadau carbon a gyfrifir o'r categorïau hyn yw 80.7% o'r nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd. O ganlyniad, mae’r meysydd hyn yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth i leihau allyriadau carbon.

Fe wnaethom ni lansio Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon Rhondda Cynon Taf ar gyfer busnesau ym mis Tachwedd 2023. Mae'r gyfrifiannell ar gael i unrhyw fusnes ei ddefnyddio wrth gyfrifo eu hallyriadau carbon/ôl troed eu hunain. Mae deg ardal Awdurdod Lleol cyfagos a Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi mabwysiadu'r gyfrifiannell. Rydyn ni nawr yn targedu'r defnydd o'r Gyfrifiannell at y cyflenwyr a'r contractwyr hynny sydd â'r gwariant mwyaf dan gontract gyda'r Cyngor ac felly â'r allyriadau carbon uchaf fel y nodir yn y fethodoleg gyfrifo. Cafodd aelodau’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hyfforddiant ar y Gyfrifiannell ym mis Tachwedd 2023 er mwyn llywio eu dealltwriaeth o effaith lleihau allyriadau carbon mewn trefniadau caffael lleol. Nawr bod ein pecyn cymorth carbon yn fyw, mae angen i ni ei ddefnyddio gyda’r nod o symud o Haen 1 adrodd ar garbon (sy’n seiliedig ar faint o arian rydyn ni'n ei wario gyda’n cyflenwyr) i Haen 2 adrodd ar garbon (sy’n ddealltwriaeth fwy cywir yn seiliedig ar y carbon gwirioneddol a ddefnyddiwyd – a gafwyd yn uniongyrchol gan ein cyflenwyr gan ddefnyddio pecyn cymorth). Dyma faes y bydd angen i ni ganolbwyntio arno yn ystod 2024/25 a thu hwnt.

Rydyn ni'n parhau i wella a chryfhau prosesau Caffael a Chomisiynu’r Cyngor gan gynnwys gweithredu gofynion y Ddeddf Caffael newydd a’r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a gwreiddio ein cyfrifoldebau i gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol trwy lywodraethu effeithiol, prosesau caffael a threfniadau rheoli contractau.

**Mae trefniadau caffael a chomisiynu'r Cyngor wedi'u hen sefydlu ac mae gyda ni hanes da o gefnogi'r gwaith o gyflawni contractau, ac mae gyda ni hanes o fod yn arloesol (er enghraifft, y pecyn cymorth carbon a gwerth cymdeithasol). Ond rydyn ni'n gwybod bod gyda ni ragor i'w wneud o ran cael gwell dealltwriaeth o ôl troed carbon y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a gwasanaethau rydyn ni wedi'u caffael. Meysydd y mae modd i ni eu gwella ymhellach:**

A. **Mae angen i ni gyflwyno ein pecyn cymorth carbon ar draws contractau allweddol gyda’r bwriad o symud o Haen 1 i Haen 2 o adrodd i Lywodraeth Cymru.**
B. **Mae angen i ni ddatblygu ein hadroddiadau ar werth cymdeithasol nid yn unig i ddangos yr allbynnau, ond hefyd i ddangos yr effaith y mae'r rhain yn ei chael ar unigolion a'n cymunedau.**

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael ar wefan y Cyngor a hefyd Hunanwerthusiad Gwasanaeth y Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion.

## 8. Partneriaethau

Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu ar ei hanes cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth a chydweithio ag eraill. Mae enghreifftiau'n amrywio o bartneriaethau rhanbarthol ffurfiol fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a ddisgrifir isod; gweithio mewn partneriaethau sy'n seiliedig ar leoedd lleol e.e. gweithio gydag Ardal Gwella Busnes Aberdâr, Mentrau Cymdeithasol, cwmni marchnad Aberdâr ac eraill i ddatblygu Strategaeth Canol Tref Aberdâr; a threfniadau partneriaeth pwnc-benodol e.e. gweithio gyda Chymunedau am Waith a Choleg y Cymoedd i gyflwyno Academi Jason Mohammad, cynyddu sgiliau creadigol cyfranogwyr a darparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith ym maes Teledu a Ffilm. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddiwallu angen penodol ac uniongyrchol, neu i wneud cais am brosiectau a ariennir gan grant â therfyn amser penodol, a'u cyflwyno. Mae llawer o enghreifftiau o drefniadau cydweithredol sydd ar waith yn y Cyngor ar ein tudalen Gweithio gydag Eraill a thrwy RhCT Gyda'n Gilydd.

Mae'r ddyletswydd i gydweithio yn un o'r pum Ffordd o Weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu rhoi ar waith i ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Serch hynny, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth gan mai dyma'r peth iawn i'w wneud i wella canlyniadau i bobl a chymunedau a gwneud y mwyaf o'n hadnoddau cyfunol. Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod unrhyw waith gyda Phartneriaid yn darparu gwerth, canlyniadau ac effeithiau i'n trigolion a'n cymunedau.

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd, 'Gweithio gyda'n Cymunedau', yn nodi'n glir '*gyda chyllidebau dan bwysau a galwadau ar ein gwasanaethau ar gynnydd, rydyn ni'n cydnabod yr angen i ddatblygu a rheoli disgwyliadau realistig trwy fagu partneriaethau cryfach*'. Mae'r Cynllun yn ymgorffori dulliau partneriaeth o gyflawni ar draws y pedwar Amcan Llesiant newydd a'r Blaenoriaethau sy'n sail iddyn nhw. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi ein hymrwymiad clir i bartneriaid... '*Byddwn ni'n bartneriaid ymroddedig a gweithgar yn ein gwaith gydag eraill, gan geisio a herio lle y gallwn ni ychwanegu at ddeilliannau - a rhai gwell - i'n trigolion, cymunedau a busnesau drwy gydweithio*'.

Mae ein Rheolau Gweithdrefn yn y Cyfansoddiad yn nodi diffiniadau o bartneriaethau ffurfiol a'r cyfrifoldebau a'r rheolaethau cysylltiedig sydd yn eu lle.

Mae'r newidiadau i'r dirwedd partneriaeth strategol ar draws ein rhanbarth yn parhau i symud ymlaen. Mae rhai o'n prif newidiadau o ran partneriaeth yn cynnwys:

- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr yn parhau i wneud cynnydd gyda darpariaeth ei Gynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg gyda'r trefniadau Craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg newydd a gefnogir gan y Cyngor yma - gweler Swyddogaeth Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg hefyd wedi comisiynu Asesiad Risg Newid Hinsawdd rhanbarthol a fydd, yn ogystal â chefnogi cyflawni'r Amcan Llesiant rhanbarthol 'Cymdogaethau lleol cynaliadwy a chydnerth', hefyd yn llywio gwaith lleol y Cyngor i reoli a lliniaru risgiau o ran yr Hinsawdd a'r Amgylchedd.
- Rydyn ni'n cryfhau ein trefniadau yn ein gwaith yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.
    - Mae Cynllun Ardal Cwm Taf Morgannwg 2023-28, wedi'i lywio gan yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, wedi'i roi ar waith gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.

    - Mae'r gwaith o integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Serch hynny, mae Cyfarwyddwr Rhanbarthol bellach yn ei le i reoli gweithrediad y model rhanbarthol newydd.
- Cafodd cynigion ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel rhanbarthol eu rhag-graffu gan Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2024 a chan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned (Trosedd ac Anhrefn) yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2024. Cafodd cyfarfod cychwynnol ei gynnal ar 2 Gorffennaf 2024, gyda diwrnod datblygu wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2024, i sefydlu blaenoriaethau a chynnwys y cynllun cyflawni.
- Y trawsnewid o'r Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fodel Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru drwy'r trefniadau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 3 Mehefin 2022 mewn perthynas â Chynllunio Datblygu Strategol, Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a hyrwyddo Llesiant Economaidd. Cafodd cynnydd yn 2023 ei ohirio oherwydd yr angen i ddatrys materion trethiant. Serch hynny, mae dwy garreg filltir yn y Cynllun Trawsnewid a gymeradwywyd gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ar 31 Gorffennaf 2023 bellach wedi eu cyflawni, h.y.
  1. Cyflawni Statws Gweithredu ar 1 Hydref 2023
  2. Bod â statws cwbl weithredol erbyn diwedd Blwyddyn Ariannol 2023/24 i alluogi trosglwyddo ('lift and shift')

  Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ar waith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ei effaith a throsolwg o'i drefniadau trawsnewid yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2024.
- Cafodd y craffu cyn gwneud penderfyniad ar Gyfansoddiad drafft Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ei drafod gan Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 7 Mawrth cyn i Gydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ei drafod ar 18 Mawrth 2024. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn destun yr un gofynion cyflawniad, llywodraethu a chraffu â'u cyrff cyfansoddol a bydd angen eu pennu.

Yn 2023, gwnaethom ni gais llwyddiannus am £5 miliwn o gyllid gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) i sefydlu ac arwain cydweithrediad newydd sydd, dros y pum mlynedd nesaf, yn ceisio mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd ehangach er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd ein trigolion i'r dyfodol. Mae'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd yma a arweinir gan y Cyngor yn cynnwys Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Interlink RhCT ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd adroddiad diweddaru ei drafod gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2024. Bydd canlyniad y gwaith yma'n cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ymchwil sy'n cael ei gynnal a'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn cael ei hadeiladu i gefnogi penderfyniadau. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i ddweud sut y bydd hyn yn digwydd.

**Mae gan y Cyngor hanes da o weithio mewn Partneriaeth. Byddwn ni'n parhau â'r gwaith yma ac yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn darparu canlyniadau sydd o fudd i'n cymunedau yn effeithiol. Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

## 9. Ymglymiad ac Ymgysylltiad

Rydyn ni wedi parhau i ehangu a chryfhau ein sianeli ymgysylltiad, ymglymiad ac adborth, i gael gwybod beth sy'n bwysig i bobl a hefyd i wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sy'n dod i law o'r amrywiol sianeli adborth i lunio a llywio darpariaeth gwasanaeth, cynlluniau a pholisi. Roedd hyn yn golygu siarad yn uniongyrchol â thrigolion mewn lleoliadau amrywiol ar draws Rhondda Cynon Taf, cynnal arolygon wyneb yn wyneb ac ar-lein a thrwy ein llwyfan ymgysylltu ar-lein 'Dewch i Siarad'.

Mae'r llwyfan 'Dewch i Siarad' yn ein galluogi i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ac yn helpu i ddangos yr hyn rydyn ni wedi'i wneud o ganlyniad i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthon ni, ond rydyn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd. Mae’r llwyfan yn darparu data dadansoddol da ar gyfer yr holl offer ymgysylltu yn ogystal â chyfraddau’r ymweliadau gan gynnwys dadansoddiad o gyfanswm yr ymweliadau, ymweliadau gwybodus ac ymweliadau ymgysylltiol. Mae defnyddio’r data â chanolbwynt yma wedi gwella ein gallu i ddarparu gwybodaeth sy’n deillio o brosiectau ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn cynllunio gwaith yn y dyfodol gyda gwell dealltwriaeth o ddulliau ymgysylltu llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae ein defnydd o 'Dewch i Siarad' wedi dangos cynnydd mewn cyfraddau ymgysylltu a thraffig i'r safle, a'r dudalen a gafodd y mwyaf o ymweliadau yn 2023-24 oedd 'Dewch i Siarad am Eisteddfod 2024'. Cafwyd dros 7,000 o ymweliadau â thudalennau'r pum prosiect mwyaf poblogaidd eleni a thros 2,000 o bwyntiau ymgysylltu unigol.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu Llyfrgell Ddata i gefnogi a chydlynu mewnwelediadau data mewn perthynas â’r Fwrdeistref Sirol sydd hefyd yn cefnogi Asesiadau Effaith ar y Gymraeg ac Asesiadau Effaith Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r Llyfrgell Ddata, sy'n defnyddio dangosfyrddau PowerBI, yn bwynt canolog i Swyddogion ac Aelodau gael mynediad hawdd at ystod o ddata a gwybodaeth sy'n gywir ac amserol i lywio datblygiad polisi a strategaeth.

Mae adborth gan ein cwsmeriaid, preswylwyr, busnesau yn ogystal â’n hymwelwyr yn werthfawr i ni wrth i ni ymdrechu i wella’r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n barhaus. Mae gyda ni dystiolaeth dda o ddefnyddio adborth unigol i lywio newid gwasanaeth. Serch hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen i ni wneud y mwyaf o werth strategol y data/gwybodaeth sydd ar gael yn fwy effeithiol a sefydlu'r gwahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud i bobl a chymunedau. Cafodd hyn ei ategu gan y canfyddiadau yn adroddiad Archwilio Cymru 'Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth a Deilliannau' a gafodd eu hadrodd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Ionawr 2024. Mae Data Cymru wedi datblygu ystod o ddangosfyrddau PowerBi sy'n casglu llawer o ddata cymharol ar gyfer pob Cyngor ledled Cymru. Mae sesiynau ymwybyddiaeth wedi’u cynllunio ar gyfer 2024/25 gan Ddata Cymru a byddwn ni'n mynychu’r sesiynau hyn ac yna’n sefydlu sut mae modd defnyddio’r data yma i lywio newidiadau i wasanaethau a hefyd sut rydyn ni'n cymharu ag eraill.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi mewnwelediad o bob rhan o'n cymunedau. Yn ogystal â dulliau ymgysylltu digidol rydyn ni hefyd yn cynnig opsiwn dros y ffôn a thrwy'r post am ddim i'r rhai nad oes modd iddyn nhw ymgysylltu'n ddigidol. Rydyn ni'n cynhyrchu deunyddiau ymgysylltu hygyrch, megis fersiynau hawdd eu darllen o'n dogfennau ymgynghori e.e. Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2027 – Strategaeth a Ffefrir

Canolbwynt allweddol y gwaith ar gyfer ymglymiad ac ymgysylltu yn 2023/24 fu datblygu ein Cynllun Corfforaethol 2024/30. Mae'r Atodiad Ymgysylltu a Chynnwys sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024, yn manylu ar sut y ceision ni wneud y gorau o gyfranogiad ac ymgysylltiad unigolion, rhwydweithiau a grwpiau rhanddeiliaid eraill.

- Er mwyn cefnogi ymgysylltiad a rhwyddineb ymatebion, cafodd pecyn safonol o ddeunyddiau ymgysylltu ei ddosbarthu i rwydweithiau/grwpiau. Roedd y deunyddiau hyn yn cynnwys cyflwyniad, canllaw trafod a ffurflen ymateb i gynorthwyo trafodaeth a chasglu adborth. Roedd yr holl ddeunyddiau ymgysylltu hefyd ar gael drwy'r llwyfan 'Dewch i Siarad' ac wedi'u hatgyfnerthu gan negeseuon rheolaidd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a oedd yn rhoi dolen uniongyrchol i'r llwyfan 'Dewch i Siarad'.

Rydyn ni wedi parhau i addasu'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â gwahanol grwpiau o drigolion i sicrhau ein bod ni'n ehangu ein cyrhaeddiad i'r holl drigolion. Er enghraifft, mewn ymateb i adborth a ddaeth i law drwy ein Harolwg 'Cymryd Rhan' gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal yn 2022/23, rydyn ni wedi datblygu fersiwn ar-lein o holiadur Arolwg Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol y mae modd ei gyrchu drwy god QR am y tro cyntaf. Byddwn ni'n monitro effaith yr ychwanegiad yma at y fformat papur trwy ein cyfraddau ymateb i weld a fydd rhagor o blant a phobl ifainc yn llenwi'r arolwg.

Roedd ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 yn cynnwys parhau i siarad â thrigolion a chymunedau a'u cynnwys mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw a'u hannog i gymryd rhan fel bod mwy o leisiau'n cael eu clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Dyma enghreifftiau o sut y gwnaethom ni hyn:

- 'Dewch i Siarad Am Beth sy'n Bwysig i Chi' yn rhan o'n datblygiad o'r Cynllun Corfforaethol drafft 2024/30 (gweler uchod)
- Mae Strategaeth Cyfranogiad 2023-2026 y Gwasanaethau i Blant yn amlinellu ein dull ar gyfer cefnogi hawliau plant, pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr (gofalwyr) a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth, i leisio'u barn ac i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu bywydau a helpu i lunio datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.
- Parhaodd rhaglen ymgysylltu 'Fy Niwrnod i, Fy Newis i' gyda phobl ag anabledd dysgu ynghylch darpariaeth gwasanaethau dydd yn y dyfodol a chafodd y Strategaeth a model gweithredu Gwasanaethau Dydd ei gynhyrchu ar y cyd.
- Dewch i Siarad am y Gyllideb - Cam 1 a Cham 2
- Datblygwyd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd newydd, sy'n ofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae ein cronfa ddata rhanddeiliaid yn cael ei hadnewyddu'n barhaus i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn addas i'r diben fel bod modd iddi gynyddu ein cyrhaeddiad mewn perthynas â phrosiectau ymgysylltu allweddol. Rydyn ni hefyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer ein Panel Dinasyddion hirsefydlog a grwpiau fel ein Cylch Trafod Materion Anabledd a Fforymau Ieuenctid. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag 'Age Connects Morgannwg' i gefnogi ymgysylltiad ac ymglymiad gweithredol gyda phobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf, trwy'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn, ar ystod lawn rhaglen ymgysylltu'r Cyngor.

Cafodd system gofal i gwsmeriaid y Cyngor ei diweddaru yn ystod 2023. Yn y 6 mis dilynol bu gwasanaethau'n glanhau data a nodi problemau cychwynnol fel bod y system yn gwbl weithredol ar gyfer 2024/25. Gan ddefnyddio'r data o'r system yma, adeiladwyd cyfres o ddangosfyrddau Power BI sy'n darparu data amser real ar gwynion, canmoliaeth a sylwadau ar draws y Cyngor cyfan a meysydd gwasanaeth unigol i Reolwyr Gwasanaeth. Mae swyddogaeth map yn y Dangosfwrdd yn galluogi'r defnyddiwr i edrych ar gwynion, canmoliaeth a sylwadau fesul ward. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth (data) i wasanaethau a fydd yn cryfhau ac yn llywio penderfyniadau. Bydd y system hefyd yn darparu mynediad mwy amserol i ddata a fydd yn dangos sut mae'r Cyngor wedi ymateb i'r ffrwd adborth cwsmeriaid. Ceir rhagor o fanylion yn ein hadroddiad blynyddol ar ein Cynllun Adborth Cwsmeriaid –

Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion 2023/24, gan gynnwys adran 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' sy'n tynnu sylw at sut rydyn ni wedi ymateb i adborth cwsmeriaid. Cafodd llythyr ac adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24 ei drafod gan y Cabinet ym mis Hydref 2024. Roedd adroddiad 2023/24 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyfeirio at 64 cwyn a ddaeth i law Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â Rhondda Cynon Taf (54 ar gyfer 2022-2023). Mae cyfanswm nifer y cwynion yn cyfateb i 0.27 o gwynion fesul 1,000 o drigolion, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 0.36 fesul 1,000 o drigolion, a'r pumed isaf yng Nghymru.

**Mae gweithgareddau Cynnwys ac Ymgysylltu'r Cyngor wedi'u datblygu ac maen nhw'n parhau i dyfu. Rydyn ni'n ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a grwpiau ond bellach rydyn ni angen datblygu ein prosesau ymhellach i ddangos yr effaith rydyn ni'n ei chael ar ein cymunedau.**

- **Mae'r maes ar gyfer gwella a nodir yn Llywodraethu a Chraffu, sef pwynt A, hefyd yn ymwneud â 'Cynnwys ac Ymgysylltu'.**

## 10. Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ei wasanaethau. Mae gyda ni garfan o Swyddogion profiadol sydd ag adnoddau da sy'n helpu i gefnogi datblygiad yr iaith ar draws ein sefydliad yn ogystal â rheoli ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Cafwyd adborth cadarnhaol gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod ein cyfarfod adolygu blynyddol, ond roedd yr adborth yma ar lafar heb unrhyw adroddiadau ysgrifenedig gan y Comisiynydd i ddangos hyn.

Rhondda Cynon Taf oedd un o ddim ond pedwar awdurdod lleol i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyfrifiad diweddaraf. Serch hynny, ar hyn o bryd dydy sgiliau iaith ar draws y gweithlu ddim yn cyd-fynd â'r nod y cytunwyd arno o adlewyrchu cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol yn ein gweithlu. O ganlyniad, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu capasiti'r Gymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae ein polisïau a'n cynnydd wedi'u nodi'n fanylach yn Adroddiad Safonau'r Gymraeg 2023–2024 a gafodd ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Mai 2024.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cryf drwy Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n monitro ac yn craffu ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 a'r cynllun gweithredu sy'n sail iddo a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 sydd â chysylltiad agos iddo, sydd gyda'i gilydd yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hyrwyddo yn cael ei adrodd i is-bwyllgor y Cabinet ym mis Hydref 2024. Adroddwyd am gynnydd da yn erbyn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Chwefror 2024, a chafodd adroddiad yr adolygiad blynyddol adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, er nad yw hyn eto wedi trosi i gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg yn un o'r pedwar amcan Llesiant ar gyfer Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor 2024-30 'Gweithio gyda'n Cymunedau', ac mae hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg wedi'i integreiddio o fewn y cynllun sy'n ddogfen allweddol sy'n pennu cyfeiriad strategol y Cyngor.

Ar hyn o bryd, dim ond 7% o weithlu'r Cyngor sydd yn medru siarad Cymraeg ar Lefel 5. Mae 2.2% ar Lefel 4 a 2.1% ar Lefel 3. Mae hyn llawer yn is na'r 12.4% ym mhoblogaeth Rhondda Cynon Taf. Ym mis Hydref 2023, rhoddodd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg gymeradwyaeth i ddatblygu

cynllun cyfweliad gwarantedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n bodloni meini prawf hanfodol swydd wag. Rydyn ni'n anelu i'w roi ar waith ar gyfer 2025 a’r gobaith yw y bydd y cynllun yma yn gweithio i ddileu rhwystrau i recriwtio siaradwyr Cymraeg yn well. Mae cynyddu nifer y staff addysgu sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn rhan o’n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Manteisiodd 94 o staff presennol ar lefelau amrywiol o hyfforddiant y Gymraeg. Yn ogystal, mae effaith ar y Gymraeg hefyd wedi'i gynnwys ym mhroses rheoli newid wedi'i diweddaru'r Cyngor, er mwyn sicrhau bod sgiliau iaith staff yn cael eu hystyried yn ystod newidiadau staffio a newidiadau strwythur.

Cafodd ymwybyddiaeth staff o ofynion safonau’r Gymraeg a phrosesau’r Cyngor eu cryfhau hefyd, drwy sesiynau briffio a gafodd eu mynychu gan 455 o reolwyr, sesiynau gwybodaeth a gafodd eu cyflwyno i dros 900 o staff a chyfarfodydd gyda charfanau rheoli meysydd gwasanaeth. Mae'r gwaith yma wedi cryfhau ymwybyddiaeth staff, gan arwain at nifer o geisiadau dilynol am gymorth a hyfforddiant ac wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau cyfieithu ar y pryd.

Mae’r broses o asesu’r effaith ar y Gymraeg yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y broses o wneud penderfyniadau, fel y dangoswyd drwy’r broses rheoli newid a chynnwys y Gymraeg ym mlaenoriaethau’r Cynllun Corfforaethol a amlinellwyd uchod, yn ogystal ag ailystyried y newidiadau i gludiant o’r cartref i’r ysgol, a gafodd eu diwygio i leihau’r effaith ar yr iaith. Bydd y broses asesu effaith yn cael ei hadolygu a’i diwygio’n llawn yn 2024/25 i dynnu ar yr hyn a gafodd ei ddysgu o’r 3 blynedd gyntaf o'i weithredu ac yn dilyn cyngor gan Gwnsler y Brenin yn deillio o dribiwnlysoedd proffil uchel.

Mae cwynion yn ymwneud â safonau’r Gymraeg yn parhau i ddangos bod trigolion yn effro i'w hawliau ieithyddol, a’r angen i wreiddio’r Safonau ymhellach yn ein gwaith. Daeth 21 o gwynion i law yn ymwneud â safonau’r Gymraeg yn 23/24, a chanfuwyd bod 11 o'r rhain yn ddilys a chamau wedi’u cymryd. Roedd 9 yn annilys neu y tu allan i reolaeth y Cyngor, ac mae un yn dal i gael ei hymchwilio.

Er mwyn rhoi sicrwydd ar gynnydd ein gwaith hyrwyddo'r Gymraeg, mae adroddiadau gwybodaeth wedi'u cyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg a fydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan wasanaethau. Cafodd yr adroddiad cyntaf, sef diweddariad ar gynnydd yn y Celfyddydau, Llyfrgelloedd, Gwasanaeth IBobUn a Datblygu’r Gymuned, ei gyflwyno ym mis Mai 2024. Mae Eisteddfod 2024 yn Rhondda Cynon Taf yn gyfle sylweddol, ac mae ystod eang o waith ar y gweill, fel yr adroddwyd i Is-bwyllgor Cabinet yr Eisteddfod, i fanteisio ar ymgysylltu â’r gymuned, codi arian ac achlysuron a gwaddol yr ŵyl, gan gynnwys chwalu’r rhwystrau i bresenoldeb gan y di-Gymraeg a theuluoedd incwm is, a gweithio gyda busnesau lleol. Rydyn ni hefyd yn anelu at adeiladu ar ein gwaith hyrwyddo trwy gymryd rhan mewn prosiect i hyrwyddo defnydd o wasanaethau lleol penodol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae meysydd i'w datblygu'n barhaus yn cynnwys gwella ein gwybodaeth am sgiliau iaith staff; sicrhau cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu a datblygu sgiliau iaith staff yn barhaus wrth ddarparu gwasanaethau; ymrwymiad pellach ar draws y Cyngor i ddatblygu'r Gymraeg a chefnogi’r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu strategaeth hybu’r Gymraeg 5 mlynedd, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a pharatoadau’r Eisteddfod a chynllunio gwaddol.

Mae rhagor o wybodaeth am Wasanaethau Cymraeg ar gael ar wefan y Cyngor a dogfen Hunanwerthusiad y Gwasanaethau Cymuned a Chymraeg.

**Mae’r Gwasanaeth Cymraeg yn parhau â’i waith da i hyrwyddo a chefnogi’r Gymraeg ar draws y Cyngor a hefyd yn helpu i sicrhau a monitro ein cydymffurfiad â Safonau’r Gymraeg. Mae trefniadau**

**a chynlluniau clir ar waith i gefnogi'r gwaith yma. Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

## 11. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau i ddangos ein hymrwymiad parhaus i degwch a chydraddoldeb. Mae llawer o'n gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28, a gafodd ei ohirio am flwyddyn mewn ymgais i alinio'n well â gofynion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae cryfhau ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i'n staff mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hatgyfnerthu yn y Cynllun newydd y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Mae'r Cynllun yn nodi'r 7 agwedd ar ein hymrwymiad y byddwn ni'n eu defnyddio i ddarparu cyfle cyfartal i bawb a lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb newydd yn nodi tri Amcan Cydraddoldeb newydd, yr hyn y byddwn ni'n ei wneud i gyflawni'r amcanion, sut y byddwn ni'n monitro cynnydd a sut olwg fydd ar lwyddiant i'n trigolion a'n staff:

1. Byddwn ni'n ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ym mhob agwedd ar ddarpariaeth ein gwasanaethau.
2. Byddwn ni'n denu ymgeiswyr sy'n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau, gan gyfoethogi ein gallu sefydliadol o ran bodloni ein hamcanion.
3. Byddwn ni'n parchu, gwerthfawrogi a gwrando ar ein holl weithwyr drwy ymgorffori diwylliant cynhwysol.

Bydd ein gwaith i gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd newydd ei sefydlu ac sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd, wrth i ni barhau i hogi'r gwaith o lywodraethu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio data amserol i ddangos cynnydd ac effaith ein gwaith drwy'r adroddiad Monitro Cydraddoldeb blynyddol fel sy'n ofynnol gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n deillio o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd adborth a ddeilliodd o'r trefniadau cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a gafodd ei drafod hefyd gan y Cabinet , yn nodi dymuniad y Pwyllgor i ailedrych ar/adolygu cynnydd o ran gweithredu'r cynllun.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn integreiddio o fewn y fframwaith sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Corfforaethol newydd y Cyngor 2024-30 'Gweithio gyda'n Cymunedau' a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024 ac sydd hefyd yn cynnwys ein hymrwymiad i driniaeth deg a chyfartal i'n staff a'n trigolion.

Yn y cyfamser roedd yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn parhau i gael ei adrodd flwyddyn ar ei hôl hi. Cafodd y diweddaraf, h.y. 2022/23, yr adroddiad terfynol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-22 blaenorol, ei drafod gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2024. Mae'r pum Amcan wedi'u nodi isod, gyda throsolwg byr o'r gweithgaredd a ddisgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol.

1. **Dealltwriaeth well o anghenion ein cymunedau a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu sy'n eu hatal rhag ffynnu.**
   Roedd yr adroddiad blynyddol yn nodi'r gwaith a gafodd ei gynnal i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol heb gynrychiolaeth ddigonol ac unigolion sydd ddim wedi cael llwybrau cyfathrebu rheolaidd â'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o'n gwaith fel Cyngor a chydag ystod o bartneriaid i ehangu ein cyrhaeddiad a'n heffaith ar draws yr ystod o wasanaethau.

2. **Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.**
   Mae nifer o ffactorau ariannol a ffactorau economaidd a chyflogaeth lleol wedi effeithio ar y gwaith o ddarparu gweithgareddau i leihau anghydraddoldebau. Serch hynny, mae nifer o weithgareddau ar draws ystod o brosiectau a gwasanaethau sydd wedi darparu cymorth, gan gynnwys cymorth 'yn y gwaith', cymorth materion cyflogaeth, tai a thechnolegol i helpu i leihau anghydraddoldebau i'n trigolion a'n staff. Rydyn ni'n parhau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys adborth o weithgarwch ymgysylltu â'n trigolion ac ystod ehangach o wybodaeth a data sydd ar gael i'w hadolygu a'u herio wrth ystyried yr holl effeithiau ar drigolion wrth wneud penderfyniadau. Mae Adnodd Data ar-lein a fydd yn darparu un ffynhonnell o ddata a gwybodaeth i lywio Asesiadau Effaith yn ogystal â Pholisïau a Strategaethau'r Cyngor yn parhau i gael ei ddatblygu, ac mae'r gwaith cynnar yn canolbwyntio ar argaeledd data hygyrch y cyfrifiad.

3. **Hyrwyddo cymunedau diogel.**
   Mae'r adroddiad yn disgrifio'r gwaith i adfer ac adfywio rhai o'r gweithgareddau sydd wedi'u hen sefydlu yn y gorffennol a gafodd eu heffeithio gan effaith Covid. Mae'r gwaith yn cynnwys lansio'r ymgyrch 'Byddwch yn llais i mi', codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Anabledd Dysgu ac annog y gymuned i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau maen nhw'n eu gweld, parhau i ganolbwyntio ar les pobl ifainc, gan ddefnyddio'r offeryn PERMA i gefnogi dealltwriaeth a hyrwyddo llesiant, cryfhau data a dadansoddiadau o ddigwyddiadau bwlio mewn ysgolion a rhoi offer a phrosiectau ar waith sy'n annog pobl ifainc i archwilio a siarad am beth sy'n gwneud perthynas yn un iach ac yn un sydd ddim yn iach.

4. **Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**
   Gostyngodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer yr holl weithwyr o 10.24% i 9.49% yn 2022. Y prif reswm am hyn oedd codiad cyflog 2022-2023 i weithwyr y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol o gynnydd o £1,925 (pro rata) ar bob gradd. Cafodd hyn effaith fwy cadarnhaol i weithwyr ar y graddau is a chan fod y graddfeydd is yn cael eu llenwi'n bennaf gan staff benywaidd, gostyngodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Serch hynny, rydyn ni'n parhau i nodi, deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny y mae menywod yn eu hwynebu yn y gweithle wrth symud ymlaen â'u gyrfaoedd.

5. **Creu gweithlu cynhwysol**
   Rydyn ni'n parhau ag amrywiaeth o Rwydweithiau Staff, Uwch Hyrwyddwyr Amrywiaeth ac yn cynnal nifer o achlysuron amrywiaeth a chynhwysiant i hyrwyddo cynhwysiant yn y gweithle. Rydyn ni'n parhau i annog sgyrsiau i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu yn y gweithle. Mae hyn wedi'i ddatblygu ymhellach drwy'r ymrwymiadau i staff yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

Ar lefel gwasanaeth, mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi parhau i fod yn rhan o brosesau Hunanwerthuso Gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r rhain yn parhau i ddarparu cyfrwng amserol a thryloyw ar gyfer herio a chefnogi ein gwasanaethau'n strategol.

**Mae'r Gwasanaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau â'i waith da i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ein sefydliad ac maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau a monitro ein cydymffurfiaeth. Mae trefniadau a chynlluniau clir ar waith i gefnogi'r gwaith yma. Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

## 12. Adborth Rheoleiddwyr

Mae ein dull o ymateb i adroddiadau Rheoleiddwyr yn agored ac yn dryloyw, a chaiff adroddiadau eu trafod gan y pwyllgorau perthnasol. Gweler y manylion yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal perthnasau adeiladol a chynhyrchiol gyda'i Reoleiddwyr.

Yn dilyn yr Asesiad Sicrwydd a Risg, cyhoeddodd Archwilio Cymru ganfyddiadau Archwiliad 2022/23 yn ei Grynodeb Archwilio Blynyddol. Cafodd y Crynodeb Archwilio Blynyddol ei adrodd gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Ebrill 2024 ac roedd yn cynnwys tair agwedd:

- **Archwilio Cyfrifon**: Yn cynnwys barn archwilio ddiamod ar ddatganiad o gyfrifon 2022/23.
- **Defnyddio gwybodaeth am berfformiad**: Safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau, sy'n deillio o Asesiad Sicrwydd a Risg cynharach, gweler isod.
- **Adolygiad Strategaeth Ddigidol**, rhan o Gynllun Archwilio 2022/23. Canfyddiadau i ddod yn fuan.

Mae tystiolaeth yn dangos fod y Cyngor yn parhau i ymateb yn dda i adborth o fewn adroddiadau Rheoleiddio sy'n benodol i'r Cyngor. Enghraifft ddiweddar yw adroddiad lleol Archwilio Cymru mewn perthynas â '*Defnyddio gwybodaeth am berfformiad - safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau*' a gafodd ei drafod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2024. Mae Swyddogion dynodedig y Cyngor wedi cytuno ar yr argymhellion ac mae camau gweithredu yn mynd rhagddo i roi'r argymhellion ar waith.

Mae modd i ni hefyd ddangos ein bod ni'n defnyddio Adroddiadau ac Astudiaethau Cenedlaethol i herio sut rydyn ni'n darparu ac yn comisiynu ein gwasanaethau ac yn defnyddio adroddiadau lleol gan Gynghorau cyfagos fel offeryn meincnodi. Rydyn ni'n ceisio gwneud y gorau o werth y Rhaglen Archwilio a'r ffioedd Archwilio rydyn ni'n eu talu er budd y Cyngor, ei drigolion a'i gymunedau. Caiff canfyddiadau Rheoleiddwyr hefyd eu defnyddio fel tystiolaeth a/neu fesurau perfformiad gwasanaeth neu gorfforaethol, er enghraifft mewn Hunanwerthusiadau Gwasanaethau a Chynllunio Cyflawni.

**Yn gadarnhaol, roedd adborth y Rheoleiddwyr yn atgyfnerthu asesiad y Cyngor ei hun o'i gryfderau a meysydd ar gyfer gwaith pellach, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau ariannol sylweddol a'r heriau eraill sydd o'i flaen.**

## 13. Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon yn Rhondda Cynon Taf

Mae Strategaeth Datgarboneiddio a Chynllun Gweithredu y Cyngor, y cytunwyd arno gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2023, yn parhau i gyfeirio'r gwaith o leihau allyriadau carbon yng ngweithrediadau'r Cyngor i gyrraedd y targed o fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030. Ym mis Tachwedd 2023, cafodd diweddariad ar gynnydd y Strategaeth Datgarboneiddio a'r Cynllun ei drafod gan y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant.

Cafodd Canllaw Adrodd ar Garbon Sero-Net Llywodraeth Cymru 2022/23 ei ddefnyddio i gyfrifo Ôl Troed Carbon y Cyngor ar gyfer 2022/23. Cyfrifwyd mai 96,640 tCO2e oedd Ôl Troed Carbon y Cyngor ar gyfer 2022/23, sy'n ostyngiad o 120.907.4 tCO2e yn 2021/22. Cafodd y canfyddiadau manwl ar gyfer Ôl Troed 2022/23 fel y'u cadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru eu trafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023.

Er mwyn sefydlu cost lleihau carbon, ac fel y cyfeirir ato yn Ymateb y Cyngor i adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net a gafodd ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr 2023, comisiynodd y Cyngor yr Ymddiriedolaeth Garbon i ddatblygu adroddiad a fydd yn amlinellu effaith prosiectau datgarboneiddio sy'n cael eu cwblhau ac yn sefydlu costau dangosol ein cyfraniad at y targedau 'Sero-Net' 2030 a gafodd eu gosod gan Lywodraeth Cymru, a bwrw ymlaen â'r cyllid grant prosiectau lleihau carbon gan gynnwys Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn a Datblygu Mawndiroedd.

Mae pob ysgol newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cael eu darparu yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael eu gweithredu'n garbon sero-net ac yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru y '*bydd gofyn i bob adeilad ysgol a choleg newydd, pob gwaith adnewyddu mawr a phrosiectau estyn fodloni targedau Carbon Sero-Net o Ionawr 1 2022'*. Eleni, rydyn ni wedi symud ymlaen gyda'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Sero-Net ysgol yn Rhydfelen ac wedi cychwyn ar y prosiect ysgol gynradd 'Passivhaus' cyntaf yng Nglyn-coch.

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i leihau allyriadau carbon o fewn y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol, i gyflawni uchelgeisiau hinsawdd y Cyngor sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor ac i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Sector Cyhoeddus Sero-Net. Er gwaethaf ein cynnydd cadarnhaol eleni, rydyn ni'n gwybod bod llawer yn rhagor i'w wneud i gyflymu maint a chyflymdra'r gwaith, a chryfhau'r integreiddio â'r amrywiaeth o fentrau lleihau carbon sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru a rhai rhanbarthol.

I gyflawni'r heriau hyn, roedd ein gwaith yn 2023/24 yn cynnwys:

- Parhau i roi strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor - 'Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf' ar waith, a gafodd ei gytuno ym mis Mehefin 2022. Adroddwyd ar y cynnydd lefel uchel i gwrdd â'r ymrwymiadau yn y strategaeth i'r Cabinet yn Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol y Cyngor. Fodd bynnag, mae diweddariadau chwarterol mwy gweladwy ar draws ehangder y Strategaeth wedi cael eu trafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ac yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant. Mae adroddiadau perthnasol hefyd wedi cael eu trafod gan y Cabinet a Phwyllgorau Craffu pwnc-benodol.
- Parhau i wreiddio lleihau carbon a'n gwaith i ymateb i argyfyngau hinsawdd a byd natur datganedig Llywodraeth Cymru ym musnes y Cyngor wrth i ni ddatblygu cynllun Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor o 2024 ymlaen.
- Parhau i roi Strategaeth Datgarboneiddio'r Cyngor ar waith sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer lleihau ein hôl troed carbon ein hunain, a gytunwyd gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 23 Mawrth 2023. Cafodd ein trydydd cyfrifiad Ôl Troed Carbon blynyddol, a fydd yn ein galluogi i fonitro ein cynnydd ac effaith y Strategaeth Datgarboneiddio yn well, ei drafod gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd yn ei gyfarfod ar 21 Rhagfyr 2023. 96,639.83 tunnell CO2e oedd y cyfrifiad Allyriadau Carbon a adroddwyd ar gyfer 2022/23.
- Sefydlu cost ein Cynlluniau Datgarboneiddio fel yr adroddwyd i'r Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 7 Mawrth 2024.
- Gweithio yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer Rhondda Cynon Taf.
- Datblygu amrywiaeth o brosiectau lleihau carbon a chynhyrchu ynni, cynlluniau effeithlonrwydd ynni, plannu coed, adfywio naturiol ac adfer mawndiroedd.
- Parhau i ddatblygu a gweithredu ystod o Brosiectau cynhyrchu ynni fel yr adroddwyd i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 7 Mawrth 2024.

- Cwblhau'r Cynllun Ymgysylltu â Newid Hinsawdd y cytunwyd arno gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2023. Mae canlyniadau'r Ymgysylltiad Materion yr Hinsawdd wedi'u hystyried yn y datblygiadau Hinsawdd perthnasol ac yn natblygiad Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.
- Cyfrannu at ddatblygu Asesiad Risg Hinsawdd Cwm Taf Morgannwg yn rhan o Amcan Llesiant Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 'Cymdogaethau Lleol Cynaliadwy a Chydnerth' fel y'i cynhwysir yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2023-28.
- Datblygu Prif Lwybrau Ymholi ar faterion yr Hinsawdd i gefnogi a chryfhau adroddiadau swyddogion, cymorth a Chraffu Aelodau.
- Yn ehangach, cafodd trigolion Rhondda Cynon Taf y cyfle i fanteisio ar deithiau bws â chymhorthdal, gyda phris tocyn ar gyfer pob taith yn uchafswm o £1 y daith, ar draws y Fwrdeistref Sirol rhwng 24 Gorffennaf a 3 Medi, 1 a 31 Rhagfyr 2023 a 12 i 18 Chwefror 2024.

Mae dwy risg benodol yn ymwneud â'r Hinsawdd yng Nghofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, gyda rheolaethau a chamau gweithredu ar waith. Gweler y diweddariad yn adroddiad Chwarter 4 i'r Cabinet ar 17 Gorffennaf 2024 er cyflawnder.

**Mae gan y Cyngor hanes da o neilltuo adnoddau i fynd i'r afael â newid hinsawdd a nodi a darparu dewisiadau 'gwyrdd' eraill i leihau neu wrthbwyso ein hôl troed carbon. Mae Strategaethau a chynlluniau manwl ar waith i helpu i gyflawni'r newid sydd ei angen i fodloni'r uchelgais i fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030. Does dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi ar hyn o bryd.**

## 14. Diogelu Corfforaethol

Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'n sail i'r trefniadau sydd ar waith ar draws y Cyngor. Mae'r Polisi yn darparu fframwaith sy'n nodi sut mae modd i ni fod yn sicr ein bod ni'n cyflawni ein dyletswyddau i ddiogelu'r bobl sy'n byw ar draws ein cymunedau. Mae'r Polisi yn destun adolygiad parhaus.

Mae Grŵp Diogelu Corfforaethol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, fel sydd wedi'u nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol.

Mae'r Grŵp yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer diogelu ar waith ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau rheoli cyflawniad effeithiol ar waith er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n gorfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill. Mae trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol yn y Sector Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Fel sydd wedi'i nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol, *'Mae diogelu yn fater i bawb, waeth p'un a ydyn nhw'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran'*.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwaith a gafodd ei gyflawni mewn perthynas â threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022/23. Daeth yr adroddiad a gafodd ei drafod gan y Pwyllgor i'r casgliad *bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ei gyfrifoldebau Diogelu Corfforaethol.* Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno'n hwyrach na'r disgwyl, a gwnaed ymrwymiad bryd hynny i gyflwyno adroddiad cryno

2023/24 yn gynt ym Mlwyddyn y Cyngor 2024/25. Mae disgwyl i'r adroddiad cryno blynyddol ar gyfer 2023/24 gael ei adrodd yn ystod yr hydref 2024.
Yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024, bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod ac yn rhag-graffu'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i ddiweddaru, yn dilyn adolygiad o'n trefniadau yng ngoleuni Diogelu Corfforaethol - Canllaw Arferion Da a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn dilyn hynny, cafodd y Polisi Diogelu Corfforaethol newydd ei drafod a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 21 Chwefror 2024.

Roedd ein cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn ymdrin â datblygu Cynllun Cyflawni ar gyfer 2023/24 ac yn cynnwys camau gweithredu sy'n berthnasol i risgiau diogelu corfforaethol ar draws y Cyngor. Cafodd aelodaeth y grŵp ei ehangu i gynnwys ystod ehangach o swyddogaethau i reoli risgiau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft, yn ymwneud â diogelwch digidol a data.

Fe wnaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol gyfarfod 4 gwaith yn ystod y flwyddyn. Canolbwynt allweddol y Grŵp oedd adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni y cytunwyd arno. Caiff cyflawniadau penodol ei rhestru fel a ganlyn:

- Rhoi trefniadau rheoli cyflawniad newydd ar waith sy'n cyd-fynd â chyfnodau adrodd ar gyflawniad y Cyngor. Roedd hyn yn helpu i sicrhau monitro cadarn o gamau gweithredu, a mwy o atebolrwydd.
- Cafodd templed Hunanwerthusiad Gwasanaethau'r Cyngor ei ddiweddaru i gynnwys adran ar Ddiogelu Corfforaethol. Mae canlyniadau'r gwaith yma wedi'u defnyddio i lywio'r Hunanasesiad Blynyddol yma.
- Cytuno a gweithredu Safonau Hyfforddiant Diogelu penodol y Cyngor yn seiliedig ar y Safonau Hyfforddiant Cenedlaethol.
- Derbyn adroddiad gan Bennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn amlinellu'r systemau sydd ar waith ym mhob ysgol i gofnodi pryderon a godwyd yn amgylchedd yr ysgol. Roedd yr adroddiad yn dangos gallu adrodd y system ac yn amlinellu sut y caiff yr wybodaeth ei defnyddio – er enghraifft mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid a Grwpiau Clwstwr Diogelu.
- Derbyn adroddiad thematig yn crynhoi materion diogelu sy'n deillio o arolygiadau archwilio mewnol ysgolion. Roedd yr adroddiad Archwilio Mewnol blynyddol yn nodi bod system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ar waith yn gyffredinol o ran diogelu gyda meysydd o arfer da wedi'u nodi.
- Paratoi a rhannu 'Canllaw i Fynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern yn ein Cadwyni Cyflenwi' gyda Chyflenwyr i godi eu hymwybyddiaeth o ymagwedd y Cyngor yn y maes yma.
- Rhoi trefniadau cadarn ar waith ar draws cadwyn gyflenwi'r Cyngor gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â phrotocolau Seiberddiogelwch llym.
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant Diogelu gorfodol a sicrhau bod prosesau recriwtio diogel yn parhau ar waith ar draws y Cyngor.
- Nodi bod ymwybyddiaeth staff o ofynion Diogelu Corfforaethol wedi'i asesu yn yr arolwg staff diweddar a'i fod yn parhau i fod yn galonogol o uchel gyda 96% o ymatebwyr yn effro i bolisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor a 92% yn cadarnhau eu bod yn gwybod sut i roi gwybod os ydyn nhw'n gwybod am gamdriniaeth/esgeulustod neu'n ei amau.

Er bod cynnydd da wedi'i wneud yn ystod 2023/24, rydyn ni'n gwybod bod gyda ni ragor o waith i'w wneud. Mae enghreifftiau o feysydd lle mae angen gwelliant, neu lle mae angen i ni barhau i ddarparu trefniadau cadarn, wedi'u rhestru fel a ganlyn:

- Arweinyddiaeth a Diwylliant
  - Rhoi ystod o weithgareddau cyfathrebu ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff ac Aelodau etholedig yn cael eu hysbysu a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol ac yn arbennig y Polisi Diogelu Corfforaethol newydd a gafodd ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2024. Er enghraifft, cylchlythyr staff, posteri, presenoldeb gwell ar y wefan, cyfryngau cymdeithasol.
  - Adolygu ac adnewyddu Polisi Cyfryngau Cymdeithasol presennol y Cyngor i sicrhau ei fod yn nodi ac yn mynd i'r afael â risgiau diogelu.

- Arfer Proffesiynol a Safonau Gwasanaeth
  - Parhau i sicrhau bod diogelu yn cael ei gynnwys yn rhan o becynnau tendro ac ar dudalennau gwe polisi caffael, e.e. cadw pobl yn ddiogel, chwythu'r chwiban a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.
  - Sicrhau bod contractau perthnasol yn destun asesiadau risg seiberddiogelwch parhaus.

- Gweithlu, Recriwtio a Dethol
  - Sefydlu pa mor aml y mae angen hyfforddiant gloywi Lefel 1 ar gyfer pob aelod o staff (ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion), ac yna rhoi camau gweithredu ar waith i gyflwyno hyn. Sicrhau bod yr hyfforddiant yma'n orfodol.
  - Ymchwilio i'r potensial i ddefnyddio system i-Trent fel y storfa ganolog sy'n cofnodi'r holl hyfforddiant diogelu sy'n cael ei ddarparu i staff.
- Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad
  - Adolygu'r elfen Diogelu Corfforaethol o'r Hunanwerthusiad Gwasanaeth i gryfhau sicrwydd gwasanaeth o ran cydymffurfio â threfniadau diogelu corfforaethol ar gyfer Hunanwerthusiad Gwasanaeth 2024.
  - Ystyried sut mae modd ymgorffori Diogelu Corfforaethol yng Nghynlluniau Darparu Gwasanaeth 2025/26.

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd yn sefydlu fframwaith y mae modd i'r Cyngor barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau diogelu oddi mewn iddo i gadw'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ddiogel. Mae'r Fframwaith Diogelu Corfforaethol newydd yn cynnwys pedwar maes gweithgarwch:


- Arweinyddiaeth a Diwylliant
- Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad
- Arfer Proffesiynol a Safonau Gwasanaeth
- Gweithlu, Recriwtio a Dethol

Yng ngoleuni'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd a'i feysydd Fframwaith, mae Cynllun Cyflawni Diogelu Corfforaethol newydd 2024/27 wedi'i ddatblygu. Mae wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar maes gweithgarwch a restrir uchod ac mae'n ymgorffori meysydd gwaith na chafodd eu rhoi ar waith yn llawn yn ystod 2023/24 yn ogystal â chamau gweithredu newydd. Bydd y cynllun cyflawni'n cael ei fonitro a'i adrodd gan ddefnyddio Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor gyda chynnydd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Diogelu Corfforaethol.

Mae pwysigrwydd strategol diogelu corfforaethol y Cyngor hefyd wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol newydd y Cyngor 2024-30, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Ebrill 2024. Mae Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys pedwar Amcan Llesiant sy'n cael eu cefnogi gan Flaenoriaethau Craidd, ac adran sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu cadarn y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn i'n Cyngor gael ei ystyried yn 'Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda'. Mae Diogelu Corfforaethol yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu cadarn y Cyngor.

ADRAN

2d




# Sut rydyn ni'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol

# SECTION 2d

## Sut rydyn ni'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor a phob corff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, mae disgwyl i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant hynny. Ar gyfer 2023/24, cafodd tair Blaenoriaeth y Cyngor: Pobl, Lleoedd a Ffyniant, a oedd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Corfforaethol 2020-2024 eu hystyried yn Amcanion Llesiant.**

Yn ystod 2023/24 rydyn ni wedi bod yn datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd 'Gweithio gyda'n Cymunedau'. Mae ein Cynllun newydd, a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ar 20 Mawrth 2024 a'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Ebrill 2024, yn nodi pedwar Amcan Llesiant newydd sy'n cyd-fynd yn gliriach ac yn agosach â'r pedwar piler Datblygu Cynaliadwy h.y.

1. **POBL a CHYMUNEDAU** – Lles Cymdeithasol
2. **GWAITH A BUSNES** – Lles Economaidd.
3. **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD** – Lles Amgylcheddol.
4. **DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG -** Lles Diwylliannol.

Er mwyn dangos ein bod ni'n cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, rhaid i Gyrff Cyhoeddus gymhwyso pum Ffordd o Weithio a chyfrannu at saith nod Llesiant cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn nodi sut rydyn ni wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio a sut mae'r cynllun yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol. Rydyn ni'n gwybod bod rhagor o waith i'w wneud i wreiddio'r egwyddorion hyn yn ein holl waith i gyflawni'r Cynllun a sut rydyn ni'n dangos hyn drwy'r pum Ffordd o Weithio. Mae cynnydd parhaus wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiadau Cyflawniad chwarterol hirsefydlog, ein Hunanasesiad blynyddol a'n hadroddiadau diwedd blwyddyn. Bydd y trefniadau hyn yn parhau wrth i ni roi trefniadau ar waith i reoli a monitro cyflawniad ein Cynllun Corfforaethol newydd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r saith gweithgaredd craidd sydd fwyaf tebygol o sicrhau newid sefydliadol, a ystyrir yn Adran 5 o'r Asesiad yma. Dull y Cyngor mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y cytunwyd gan y Cabinet yn 2016 yw cynnwys ei holl ofynion yn rhan o waith y Cyngor. Mae'r saith nod cenedlaethol, ynghyd â'r pum Ffordd o Weithio, wedi'u hymgorffori mewn trefniadau rheoli cyflawniad gan gynnwys y cynlluniau gweithredu manwl sydd wedi parhau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â chryfhau'r aliniad â'r pedwar piler Datblygu Cynaliadwy trwy ein Cynllun Corfforaethol newydd, fe wnaethom ni barhau i wneud iawn am yr ymyrraeth i'n cynnydd o ganlyniad i ganolbwyntio ar ymateb ac adfer ar ôl y pandemig, e.e.

- parhau i gryfhau ein trefniadau Rheoli Cyflawniad i wreiddio egwyddorion Datblygu Cynaliadwy / y 5 'Ffordd o Weithio' mewn Hunanwerthusiadau Gwasanaeth a Chynlluniau Cyflawni,
- darparu hyfforddiant lefel uchel i Aelodau ac Uwch Swyddogion,
- datblygiad parhaus Prif Lwybrau Ymholi ar gyfer Aelodau etholedig i gefnogi herio adeiladol
- archwilio'r 'Matrics Aeddfedrwydd' wedi'i symleiddio a phrofi'r offeryn Gwirio Cynnydd Dull o Weithio, a gafodd ei lansio gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ym mis Mawrth 2024, a sut mae modd i ni gymhwyso hyn orau gyda gwasanaethau ac ar lefel strategol e.e. wrth ddatblygu’r Strategaeth Cymryd Rhan diwygiedig.

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2020-24 hefyd yn cynnwys enghreifftiau o sut mae ei waith yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol. Mae detholiad o'n cyfraniadau at y nodau wedi'u crynhoi at ddibenion enghreifftiol yn Adran 4 yr adroddiad yma. Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd hefyd yn cynnwys Atodiad tebyg.

Mae'r adran annibynnol yma mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy yn glir bod gyda ni ragor i'w wneud i gefnogi ac ymgorffori ein hymagwedd ar draws busnes y Cyngor, yn enwedig yng nghyd-destun lleihau adnoddau.

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y pŵer i archwilio cyrff cyhoeddus, i asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni’r amcanion llesiant hynny.

Mae cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy bellach yn cael ei fwydo'n ôl yn rheolaidd yn rhan o ganfyddiadau archwiliadau lleol yn holl adroddiadau Archwilio Cymru i Awdurdodau Lleol. Mae'r gofyniad archwilio yma mewn perthynas â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ymhlith pethau eraill yn golygu ystyried sut rydyn ni'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio, hynny yw Cynnwys; Cydweithio; Integreiddio; Meddwl yn y Tymor Hir ac Atal pethau rhag digwydd neu waethygu. Dydy’r gofyniad archwilio yma mewn perthynas â’r Ddeddf ddim yn berthnasol i arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru nac ESTYN.

Yn 2023/24 roedd y Rhaglen Archwilio gan Archwilio Cymru yn cynnwys dau adolygiad yn benodol i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

a) Cymhwyso'r Prosiect Lleol Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn deillio o'r Asesiad Sicrwydd a'r Asesiad Risg.
*Mae canfyddiadau'r adolygiad uchod wedi'u cyhoeddi a byddan nhw'n cael eu hadrodd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn 2024/25.*

b) Pennu Amcanion Llesiant i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio pob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd, gan gyflwyno'u hadroddiadau ar yr archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru flwyddyn a diwrnod cyn pob etholiad Cynulliad arferol.
*Bydd yr adolygiad yma'n cael ei gynnal yn 2024/25.*

Bydd y canfyddiadau sy’n deillio o’r adolygiadau hyn ar gael i’w hystyried yn Hunanasesiad 2024/25 ac yn y cyfamser, byddan nhw'n cael eu defnyddio i lywio sut rydyn ni'n parhau i gryfhau ein hymagwedd at gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rydyn ni'n parhau i gysylltu â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn croesawu eu cymorth i ddarparu hyfforddiant y cyfeirir ato uchod a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol yn 2024/25. Cafodd yr achlysur cyntaf ei gynnal ym mis Mehefin 2024. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r offeryn Gwirio Cynnydd newydd. Rydyn ni'n defnyddio'r offeryn ar hyn o bryd i herio a chryfhau ein dulliau corfforaethol ac i'w brofi gyda gwasanaethau dethol fel man cychwyn. Rydyn ni'n falch o weld offer ymarferol, cyson a thryloyw yn cael eu cyflwyno i gefnogi a herio meddwl hirdymor yng nghyd-destun iechyd yn yr Ystyriaeth hirdymor i leihau anghydraddoldebau iechyd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar. Byddwn ni'n chwilio am ffyrdd mae modd i ni ddefnyddio'r offeryn i gryfhau ein hymagwedd sefydliadol a hefyd ei integreiddio â'n Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd a gafodd ei ariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, gyda'r nod o leihau Anghyfartaledd Iechyd yn Rhondda Cynon Taf. Yn ddiweddar, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr mewn perthynas â'r defnydd o'r Ddeddf, yn enwedig yng nghyd-destun cyllid, risg a chynllunio asedau yn dilyn ei bryder nad ydy cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn '*rhoi digon o ystyriaeth i'r hirdymor gan adeiladu ar anghydraddoldeb pellach ac yn creu pwysau costus yn y dyfodol i'n cyrff cyhoeddus sydd eisoes wedi dirywio, gan gynnwys ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol'.* Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda swyddfa'r Comisiynydd i ddatblygu'r dull yma ymhellach.

Byddwn ni'n parhau i lobïo am ragor o gymorth cenedlaethol, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru, i gryfhau ei hymagwedd at Ddatblygu Cynaliadwy, yn enwedig o ran integreiddio a chyflwyno polisïau, fel bod yr integreiddio yma'n cael ei gryfhau a'i reoli unwaith a bod modd ei raeadru mewn modd mwy cyson ac ymarferol ar y pwynt gweithredu lleol.

ADRAN

2e



# Casgliad Cyffredinol

# ADRAN 2e

## Casgliad Cyffredinol

**Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r dystiolaeth ar waith, mae trefniadau'r Cyngor wedi bod yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y sefydliad, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol.**

Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, cyflawni gwasanaethau yn gyffredinol a deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae nifer fach o feysydd i'w gwella wedi'u nodi er mwyn cryfhau'r prosesau cyfredol ymhellach.

Yn unol â hynny, yn seiliedig ar y broses hunanasesu, mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Mae ein hunanwerthusiad blynyddol hefyd wedi nodi meysydd i'w gwella, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys o dan adrannau perthnasol yr adroddiad yma. Bydd y meysydd yma'n cael eu monitro drwy gydol 2024/25 yn rhan o'n trefniadau rheoli cyflawniad.